Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

Rhagfyr 2025




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
X: **@SeneddCyllid**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

Rhagfyr 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Sam Rowlands AS**
Ceidwadwyr Cymreig

---

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru



**Lindsay Whittle AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Casgliad ac Argymhellion** ..... **7**

**1. Cyflwyniad** ..... **13**

**2. Proses y Gyllideb ac Ymgysylltu** ..... **16**

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 ..... 16

Proses Dau Gam y Gyllideb ..... 21

Newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb ..... 23

Barn y Pwyllgor ..... 24

**3. Y Cyd-destun Economaidd** ..... **27**

Cyllideb yr Hydref 2025 ..... 27

Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 ..... 29

Y Dull o Bennu Cyllidebau Adrannau ..... 31

Cyllid Heb ei Ddyrannu ..... 34

Pwysau ..... 36

Diwygio Fformiwla Barnett ..... 41

Mesurau Wrth Gefn ..... 43

Barn y Pwyllgor ..... 45

**4. Ysgogiadau Cyllidol** ..... **49**

Risgiau cyllidol i economi'r DU ..... 51

Newidiadau Treth y DU ..... 52

Trethi Datganoledig ..... 54

Ystadegau ..... 63

Benthyca a Chronfa Cymru ..... 66

Barn y Pwyllgor ..... 68

**5. Cyflwyno'r Gyllideb a Mesur Effaith ..... 73**

Cyflwyno'r Gyllideb ..... 73

Mesur Effaith ..... 76

Barn y Pwyllgor ..... 82

**6. Atal a Chymorth gyda Chostau Byw ..... 85**

Gwariant ataliol ..... 85

Costau Byw ..... 92

Barn y Pwyllgor ..... 99

**7. Cynhyrchiant ..... 103**

Agwedd at Gynhyrchiant yn y Gyllideb Ddrafft ..... 106

Data a Gwerthuso ..... 108

Cynhyrchiant y Sector Cyhoeddus ..... 109

Cynhyrchiant y Sector Preifat ..... 111

Technoleg sy'n dod i'r amlwg ..... 112

Barn y Pwyllgor ..... 113

**Atodiad 1: Rhestr o Sesiynau Tystiolaeth Lafar ..... 118**

**Atodiad 2: Rhestr o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig ..... 120**

Gwybodaeth Ychwanegol ..... 122

# Rhagair y Cadeirydd

Fel Pwyllgor rydym yn ymwybodol iawn o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â sicrhau cytundeb ar gyllideb yn y Senedd eleni, yn ogystal â'r effaith sylweddol y bydd methu â phasio Cyllideb Derfynol yn ei chael ar y sector cyhoeddus datganoledig a'r cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol.

Er ein bod yn croesawu penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet i gyflwyno cyllideb "busnes fel arfer" i greu lle i gynnal trafodaethau gwleidyddol, credwn y gallai rwystro gwaith craffu.

Er ein bod yn derbyn bod cario drosodd ddyraniadau'r gyllideb o'r llynedd yn bragmataidd, mae wedi rhoi mwy o ffocws ar y cyfraddau chwyddiannol sydd wedi'u cymhwyso gan Lywodraeth Cymru o eleni i'r flwyddyn nesaf. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar y sectorau iechyd a llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn nesaf, lle mae cyfradd chwyddiant gwasanaethau yn uwch, ac rydym wedi gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet asesu'r pwysau hwn fel mater brys.

Gwnaethom ganfod bod cyflwyno'r gyllideb fel un "niwtral" yn creu problemau hefyd oherwydd nad yw'n adlewyrchu'r dewisiadau sydd wedi eu gwneud gan Lywodraeth Cymru.

Hefyd, mae'r gwahaniaethau sylweddol tebygol rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol eleni, oherwydd cadw cronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu ac oherwydd y cyllid ychwanegol sydd ar gael o Gyllideb yr Hydref y DU, yn golygu bod cyfleoedd i graffu ar ddyraniadau'r gyllideb derfynol yn gyfyngedig.

Wedi dweud hynny, rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i ymddangos gerbron y Pwyllgor yn y flwyddyn newydd i esbonio unrhyw newidiadau munud olaf. Roedd cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn gynharach eleni, dros ddau gam, hefyd yn ddefnyddiol i roi ymdeimlad cynharach i ni o'r darlun ehangach.

Mae hyn wedi rhoi mwy o gyfleoedd i ni ystyried materion trawsbynciol a strategol sy'n sylfaen i benderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru ac i nodi bylchau lle mae angen gweithredu.

Gwnaethom ganfod bod Cymru'n rhannu "pos cynhyrchiant" y DU a'i bod yn wynebu heriau penodol i sicrhau twf cynaliadwy, ond bod cyfleoedd sylweddol yn bodoli hefyd.

Mae pwysau costau byw hefyd yn parhau ac, er ei bod yn galonogol bod cynnydd wedi'i wneud o ran sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn angen, mae angen gwelliannau pellach i wella mynediad at fentrau allweddol sydd â'r nod o fynd i'r afael â thlodi, yn enwedig i fenywod.

Yn yr un modd, clywsom dystiolaeth gan fusnesau bod lefelau hyder yn isel dros ben. Er ein bod yn croesawu'r camau a gymerwyd i gefnogi manwerthu ar y stryd fawr, rydym hefyd yn cydnabod bod ansicrwydd i eraill yn y sectorau lletygarwch a hamdden, ac yn credu bod angen gwerthuso pellach i sicrhau bod y nodau polisi yn bodloni'r canlyniadau a fwriadwyd.

Fel gyda blynyddoedd blaenorol, mae ein gwaith craffu eleni wedi'i lunio gan ymgysylltu helaeth ledled Cymru: o ddigwyddiadau a gweithdai rhanddeiliaid i sesiynau cyhoeddus, cyfarfodydd gydag Aelodau o'r Senedd Ieuenctid a grwpiau ffocws, mae'r gweithgareddau hyn wedi sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r bobl rydym ni'n eu gwasanaethu.

Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan ac, fel bob amser, maent wedi bod yn allweddol wrth lywio ein casgliadau a'n hargymhellion.

Wrth i ni edrych ymlaen at y Seithfed Senedd, rydym yn gobeithio y bydd yr arferion a ddatblygwyd yn ystod y tymor hwn - yn enwedig ein hymrwymiad i ymgysylltu a chraffu - yn parhau i helpu i sicrhau cyllidebau sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau pobl ledled Cymru.

Rydym nawr yn aros am ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i'n hargymhellion ac edrychwn ymlaen at adolygu'r Gyllideb Derfynol yn fanylach yn y flwyddyn newydd.



**Peredur Owen Griffiths AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

# Casgliad ac Argymhellion

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r ymgysylltiad helaeth a lywiodd y gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i gryfhau cyfranogiad y cyhoedd er mwyn sicrhau bod cyllidebau yn y dyfodol yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau pobl ledled Cymru. ........ 25

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod cadw at broses dau gam y gyllideb eleni wedi gwella'r gwaith craffu strategol ac eglurder cynnar, er gwaethaf y peryglon o addasiadau hwyr a achosir gan Gyllideb hwyr yr Hydref yn y DU, ac mae'n argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn gwerthuso sut y mae'r dull hwn wedi gweithio o safbwynt Llywodraeth Cymru a rhannu unrhyw ganfyddiadau gyda'r Pwyllgor yn fuan ar ôl y ddadl ar y Gyllideb Derfynol er mwyn cyfleu'r hyn a ddysgwyd ac i fod yn sail i ystyried y gwaith o graffu ar y gyllideb ac unrhyw newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb yn y Seithfed Senedd. ........ 25

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2026 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd y £237 miliwn ychwanegol a dderbyniwyd yn sgil Cyllideb Hydref y DU a'r rhagolygon diwygiedig a'r £380 miliwn a gedwir fel arian heb ei ddyrannu yn cael eu dyrannu ar gyfer 2026-27, yn ogystal ag effaith Cytundeb y Gyllideb a gyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2025. ........ 47

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried amserlennu dadl hirach ar gyfer y ddadl ar y Gyllideb Derfynol o ystyried y gwahaniaethau sylweddol disgwyliedig mewn dyraniadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol eleni. ........ 47

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, fel rhan o'r ystyriaethau ynghylch sut y gwneir dyraniadau ar gam y Gyllideb Derfynol, y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal asesiad o'r pwysau yn sgil chwyddiant sy'n wynebu gwahanol feysydd yn y sectorau cyhoeddus, yn ogystal â ffactorau galw, a chyflwyno'r canfyddiadau hynny ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol. ........ 48

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru asesu effaith twf cyflog a chwyddiant sy'n uwch na'r rhagolygon ar ragdybiaethau cyflogau'r sector cyhoeddus sy'n sail i'r Gyllideb Ddrafft, nodi opsiynau ar gyfer lliniaru'r pwysau hyn, a chyflwyno'r canfyddiadau hynny ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol. ........ 48

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet barhau i fynd ar drywydd diwygio Fformiwla Barnett drwy'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026. ..... 48

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol barhau i gynhyrchu a datblygu allbynnau sy'n helpu i feithrin dealltwriaeth o effaith trethiant datganoledig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, megis y dadansoddiad o newidiadau yn sefyllfa treth net Cymru a gyhoeddwyd fel rhan o ragolygon treth a gwariant datganoledig eleni. ..... 71

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar fanylion o fewn Bil Cyllid y DU sy'n ymwneud â chyflwyno treth incwm eiddo yng Nghymru, gan gynnwys amserlenni cysylltiedig i alluogi ystyriaeth gan y Senedd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol. ..... 71

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu manylion clir am y mesurau penodol yn y Gyllideb Ddrafft i gefnogi'r sectorau hamdden a lletygarwch ac asesiad o'r graddau y bydd y rhain yn lliniaru effaith rhyddhad Ardrethi Annomestig manwerthu, lletygarwch a hamdden, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2026, erbyn i'r Gyllideb Derfynol gael ei gosod. ..... 71

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu gyda'r Pwyllgor y data a gasglwyd i asesu effeithiolrwydd y lluosydd gwahaniaethol newydd ar gyfer manwerthu a'r asesiad ynghylch a yw'n briodol ymestyn hyn i'r sector hamdden a lletygarwch, a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar y mesurau hyn erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror. ..... 71

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod data ar gael ar lefel Cymru er mwyn sicrhau y gellir mesur a monitro perfformiad economaidd ac effaith polisïau allweddol, ac yn darparu adroddiad cynnydd ar y mater hwn erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026. ..... 71

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gael eglurhad gan Lywodraeth y DU ynghylch sut y cymhwyswyd cynnydd o 10 y cant i'r cynnydd mewn terfynau cyffredinol a blynyddol ar gyfer benthyca cyfalaf a

Chronfa Wrth Gefn Cymru, a darparu adroddiad cynnydd erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026......71

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sydd wedi'i gwblhau, sydd ar y gweill neu y bwriedir ei gwblhau yn nhymor y Senedd hon i gefnogi'r asesiad o'r defnydd o offer rheoli cyllideb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer casglu data i gefnogi'r gwaith hwn, a darparu adroddiad cynnydd ar y mater hwn erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.. ......72

**Argymhelliad 14.** Gan fod y Gyllideb hon yn cael ei chyflwyno fel un niwtral yn wleidyddol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ailfframio'r farn hon yn ei ddogfen yn esbonio'r Gyllideb Derfynol er mwyn gwella tryloywder a sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall yn glir y sail resymegol i'r dewisiadau cyllidebol hyn. ...... 84

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau sut y bydd yn dangos ei bod wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn ei phroses o osod cyllideb. Hefyd, dylai weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar y dull gorau o asesu a chyflwyno hyn, a darparu diweddariad ar gynnydd erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026. ...... 84

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull cyson o olrhain a chyhoeddi sut y mae'n cyflawni ac yn perfformio yn erbyn y saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. ...... 84

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i werthuso'r dogfennau y mae'n eu cynhyrchu ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft er mwyn asesu eu heffaith a'i gwneud mor syml â phosibl i randdeiliaid nodi sut y mae penderfyniadau cyllidebol yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. ...... 84

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu gwaith y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ac yn gwerthuso ei rôl a'i effeithiolrwydd yn y broses ehangach o wneud penderfyniadau ar y gyllideb ac yn ystyried unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol i wella'i ffyrdd o weithio. ...... 84

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth i esbonio sut y mae wedi ymdrin â buddsoddi mewn

gwariant ataliol yn y Gyllideb Ddrafft, yn amlinellu sut y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn sbarduno diwylliant ataliol drwy ddyraniadau cyllideb, ac yn cynnwys diweddariad ar gynnydd ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol. ........ 101

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith i fapio gwariant ataliol o fewn adrannau'r llywodraeth ac yn darparu diweddariad ar gynnydd ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol........ 101

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gryfhau dealltwriaeth o sut y mae'r diffiniad o wariant ataliol yn cael ei gymhwyso i Gyllidebau yn y dyfodol.... 101

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu rhagor o wybodaeth am y dull o feincnodi gwariant ataliol ar draws portffolios, gan gynnwys sut y mae'r gwaith hwn yn cael ei weithredu a sut y bydd canlyniadau'n cael eu mesur, ac yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael erbyn y Gyllideb Derfynol. ........ 101

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad dadansoddi yn ôl rhywedd ynghylch effaith y Gronfa Cymorth Dewisol ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ym maes tlodi ac yn darparu diweddariad ar gynnydd yng ngham y Gyllideb Derfynol........ 101

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru:

- yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ehangu Cam 3 o'r rhaglen Dechrau'n Deg, a'i heffeithiolrwydd;
- yn cynnal gwerthusiad o'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y rhaglenni Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn parhau i fod yn hygyrch i fenywod sy'n dychwelyd i'r gwaith;
- ac yn rhoi diweddariad ar gynnydd yng ngham y Gyllideb Derfynol....... 101

**Argymhelliad 25.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru i ymwreiddio cyllidebu ar sail rhywedd ar draws Llywodraeth Cymru ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026. ........ 102

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, ynghyd â ffynonellau cyfalaf eraill, i fuddsoddi mewn tai cymdeithasol i roi hwb i'r cyflenwad tai yng Nghymru. .........102

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cynnwys ymrwymiad lefel uchel i dyfu cynhyrchiant yn y Gyllideb Derfynol ac yn datblygu cynllun cynhyrchiant cenedlaethol i gefnogi camau rhagweithiol gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn. .........115

**Argymhelliad 28.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn defnyddio'r chwe argymhelliad craidd a nodir yn y papur mewnwelediad ar gynhyrchiant, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cynhyrchiant ym mis Ionawr 2025, fel sylfaen i gynllun cynhyrchiant cenedlaethol yn y dyfodol i ategu twf cynhyrchiant yng Nghymru. .........116

**Argymhelliad 29.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn egluro'r ystadegau a ddyfynnwyd yn ei dystiolaeth mewn perthynas â pherfformiad cynhyrchiant yng Nghymru rhwng 2009 a 2023, gan gynnwys gwybodaeth am y mesurau a ddefnyddiwyd a'r ffynonellau data .........116

**Argymhelliad 30.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gwneud y canlynol:

- darparu gwybodaeth glir am dargedau cynhyrchiant Llywodraeth Cymru,
- amlinellu sut y mae'r targedau'n cael eu mesur a'u hasesu, gan gynnwys manylion unrhyw ffynonellau data a ddefnyddir i fonitro a gwerthuso cynnydd, ac
- egluro pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei chynllun cynaliadwyedd cyllidol ei hun yn unol â'r dulliau a fabwysiadwyd gan lywodraethau'r DU a'r Alban. .........116

**Argymhelliad 31.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu gwybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella cynhyrchiant y sector cyhoeddus drwy ei dyraniadau cyllideb, gan gynnwys manylion am fuddsoddiadau penodol, y canlyniadau a gyflawnwyd, a'r dulliau gwerthuso sydd ar waith i helpu i drawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau. .........116

**Argymhelliad 32.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet:

- yn nodi sut y mae'r gyllideb yn cefnogi'r sector cyhoeddus i fabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial ac awtomeiddio i wella cynhyrchiant, gan gynnwys sut y mae'r dyraniadau hyn yn adlewyrchu cynllun newydd Llywodraeth Cymru i ymgorffori manteision technoleg ledled Cymru; ac
- yn annog datblygu strategaeth gyffredinol o ran TG ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru ochr yn ochr â hyn. ....................................................................116

**Argymhelliad 33.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella llythrennedd cynhyrchiant o fewn y llywodraeth ac ar draws y sector preifat yng Nghymru, er mwyn cryfhau dealltwriaeth o gynhyrchiant a sbarduno twf economaidd hirdymor. ....................................................................117

# 1. Cyflwyniad

**1.** Yn unol â Rheol Sefydlog 20.7 a Rheol Sefydlog 20.7A[1] a Phrotocol Proses y Gyllideb (y Protocol),[2] gosodwyd Cyllideb Ddrafft Amlinellol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 gerbron y Senedd ddydd Mawrth 14 Hydref 2025, ynghyd â'r dogfennau ategol a ganlyn:

- Cynigion y Gyllideb Ddrafft;[3]
- Adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft Amlinellol;[4]
- Tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwariant;[5]
- Cynllun Gwella'r Gyllideb;[6]
- Canllaw'r Gyllideb Ddrafft;[7]
- Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2025;[8]
- Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru: 5 mewnwelediad hanfodol;[9] a
- Linc i ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ar gyfer Trethi Datganoledig Cymru.[10]

**2.** Dilynwyd hyn gan gyhoeddi Cyllideb Ddrafft Fanwl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27,[11] yn unol â Rheol Sefydlog 20.7B,[12] a osodwyd gerbron y Senedd ddydd Llun 3 Tachwedd 2025, ynghyd â'r dogfennau a ganlyn:

---

[1] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
[2] Protocol Proses y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017
[3] Llywodraeth Cymru, Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27, Hydref 2025
[4] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Amlinellol Llywodraeth Cymru 2026-27, Hydref 2025
[5] Llywodraeth Cymru, Tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwariant, Hydref 2025 (diweddarwyd, Tachwedd 2025
[6] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb Llywodraeth Cymru 2026-2027, Hydref 2025
[7] Llywodraeth Cymru, Canllaw Cyllideb Ddrafft 2026-2027, Hydref 2025
[8] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2025, Hydref 2025
[9] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025, Hydref 2025
[10] Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg Trethi Cymru, Hydref 2025
[11] Gyda'i gilydd, cyfeirir at y Gyllideb Amlinellol a'r Gyllideb Ddrafft Fanwl drwy gydol yr adroddiad fel y 'Gyllideb Ddrafft'.
[12] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru

- Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl;[13]
- Tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwariant wedi'u diweddaru;[14]
- Asesiad Effaith Integredig Strategol;[15]
- Llinellau Gwariant yn y Gyllideb;[16]
- Costau gweithredu deddfwriaeth;[17]
- Dadansoddiad Dosbarthiadol o Wariant Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru 2026-2027;[18]
- Cynllun Cyllid Seilwaith;[19] ac
- Ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol sy'n ymwneud â Deddfau Trethi Cymru.[20]

**3.** Ynghyd â hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar "Gyllidebu ar sail Rhywedd ar Waith" ochr yn ochr â dogfennau'r Gyllideb Ddrafft Fanwl ar 3 Tachwedd 2025.[21]

**4.** Mae'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn gyfrifol am ystyried y Gyllideb Ddrafft, yn unol â Rheol Sefydlog 19.[22] Mae pwyllgorau polisi unigol yn cynnal eu sesiynau eu hunain i ganolbwyntio ar dystiolaeth er mwyn edrych yn fanwl ar yr agweddau ar y Gyllideb Ddrafft sydd o fewn eu cylchoedd gwaith hwy a llunio adroddiad arnynt.

**5.** Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn y dogfennau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft a nodir uchod. Nid yw'r Pwyllgor

[13] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl yng Ngham 2, Tachwedd 2025
[14] Llywodraeth Cymru, Tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwariant, Hydref 2025 (diweddarwyd, Tachwedd 2025
[15] Llywodraeth Cymru, Y Gyllideb Ddrafft 2026 i 2027: asesiad effaith integredig strategol, Tachwedd 2025
[16] Llywodraeth Cymru, Llinellau Gwariant yn y Gyllideb, Tachwedd 2025
[17] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2026 i 2027: costau gweithredu deddfwriaeth, Tachwedd 2025
[18] Llywodraeth Cymru, Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, Tachwedd 2025
[19] Llywodraeth Cymru, Cynllun Cyllid Seilwaith 2026 i 2027, Tachwedd 2025
[20] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: Cynigion deddfwriaethol sy'n ymwneud â Deddf Deddfau Trethi Cymru, Tachwedd 2025
[21] Llywodraeth Cymru, Cyllidebu ar sail Rhywedd ar Waith: Dysgu o Gynlluniau Peilot yng Nghymru 2019–2024, Tachwedd 2025
[22] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru

wedi cael cyfle i ystyried newidiadau a ddeilliodd o'r Cytundeb Cyllideb a gyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2025.[23]

[23] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cytundeb y Gyllideb, 9 Rhagfyr 2025

# 2. Proses y Gyllideb ac Ymgysylltu

## Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27

**6.** Wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft, mae'r Pwyllgor yn ystyried y penderfyniadau strategol cyffredinol a'r blaenoriaethu y tu ôl i'r dyraniadau o fewn cynigion y Gyllideb Ddrafft, ynghyd â chynlluniau trethiant a benthyca, yn erbyn cefndir cyllid cyhoeddus a'r economi ehangach. Mae dull y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y pedwar egwyddor o graffu ariannol:

- Fforddiadwyedd – A yw'r darlun mawr o gyfanswm y refeniw a'r gwariant wedi'i gydbwyso'n briodol?
- Blaenoriaethu – A ellir cyfiawnhau rhaniad y dyraniadau rhwng gwahanol sectorau/rhaglenni ac a yw'n gydlynol?
- Gwerth am arian – A yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau'n dda – yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol?
- Proses gyllidebol – A yw'n effeithiol ac yn hygyrch? A oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a gwasanaethau, a rheoli perfformiad ac arian?

### Amserlen y Gyllideb

**7.** Ar 1 Gorffennaf 2025, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor yn nodi amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, yn unol â'r amserlenni a nodir o dan Reol Sefydlog 20.[24] Roedd y llythyr yn cynnig:

- y byddai'r Gyllideb Ddrafft Amlinellol yn cael ei chyflwyno gerbron y Senedd ar 14 Hydref 2025;
- y byddai'r Gyllideb Ddrafft Fanwl yn cael ei gosod gerbron y Senedd ar 3 Tachwedd 2025;
- mai'r dyddiad cau i Bwyllgorau'r Senedd adrodd ar y Gyllideb Ddrafft fyddai dydd Llun 15 Rhagfyr 2025, gyda'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chynnal ar 16 Rhagfyr 2025;
- y byddai'r Gyllideb Derfynol yn cael ei gosod ar 20 Ionawr 2026 a byddai dadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei chynnal ar 27 Ionawr 2026.[25]

[24] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 1 Gorffennaf 2025
[25] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 1 Gorffennaf 2025

**8.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor i ofyn am ei farn ar yr amserlen ar 10 Gorffennaf 2025[26] ac ymatebodd y Pwyllgor ar 11 Gorffennaf 2025, gan groesawu'r broses ddwy gam a'r amser y byddai'n ei ganiatáu i Bwyllgorau'r Senedd graffu ar gynlluniau trethiant a gwariant Llywodraeth Cymru.[27]

## Ymgysylltu â'r Cyhoedd

**9.** Cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o weithgareddau ymgysylltu cyn y gyllideb yn ystod haf 2025 i lywio ei waith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Roedd y rhain yn cynnwys:

- digwyddiad i randdeiliaid allanol yng Nghanolfan Rheolaeth Prifysgol Bangor, ar 19 Mehefin 2025;
- gweithdy pwrpasol gydag Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru i drafod barn a phryderon gydag Aelodau'r Pwyllgor Cyllid, ar 26 Mehefin 2025;
- sesiynau galw heibio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Margam ac yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-Muallt; a
- cyfres o grwpiau ffocws gydag 88 o gyfranogwyr yn cwmpasu 20 o awdurdodau lleol ledled Cymru wedi'u hwyluso gan dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd, a gynhaliwyd yn ystod mis Mai a Mehefin 2025.

**10.** Crynhowyd y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y sesiynau hyn mewn Adroddiad Ymgysylltu Cryno, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025.[28] Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu pellach hefyd yn y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam.

---

[26] Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Cyllid: Amserlen Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, 10 Gorffennaf 2025

[27] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes: Amserlen Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, 11 Gorffennaf 2025

[28] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Ymgysylltu Cryno: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Gorffennaf 2025

## Dadl ar Flaenoriaethau'r Gyllideb

**11.** Cynhaliodd y Pwyllgor ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar 16 Gorffennaf 2025[29] yn seiliedig ar Adroddiad Ymgysylltu Cryno y Pwyllgor[30]. Y prif faterion a godwyd gan randdeiliaid oedd:

- mae'r argyfwng costau byw yn parhau i beri pryder ac mae angen mwy o gefnogaeth i leihau costau biliau ynni trwy fuddsoddiad gwell mewn effeithlonrwydd ynni ac ansawdd tai;
- mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r straen ariannol ar draws y sector addysg wrth i ysgolion a phrifysgolion wynebu argyfwng ariannol wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol; a
- dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gwariant ataliol o fewn ei phenderfyniadau cyllidebol ar gyfer buddion hirdymor.[31]

**12.** Mae materion eraill a godwyd yn yr adroddiad yn cynnwys:

- tanfuddsoddi mewn rhwydweithiau rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- diffyg cynllunio cydgysylltiedig ar gyfer ynni a seilwaith gwyrdd;
- awydd am fwy o gydweithio ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, yn hytrach na gweithio mewn seilos;
- yr angen am ddull cenedlaethol o ymdrin â thrafnidiaeth gyhoeddus i gysylltu rhanbarthau; a
- pryderon am ryddhad ardrethi busnes llai a'i effaith ar fusnesau bach.[32]

**13.** Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, crynhodd y Cadeirydd y safbwyntiau a fynegwyd drwy waith ymgysylltu'r Pwyllgor o dan y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- yr angen i fynd i'r afael ag amseroedd aros hir, blocio gwelyau, cyllid iechyd meddwl annigonol, a'r diffyg integreiddio rhwng gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- datblygu dull ariannu amlasiantaeth ar gyfer ysgolion a phrifysgolion er mwyn osgoi gorlwytho'r gyllideb addysg;

---

[29] Cyfarfod Llawn, Agenda, 16 Gorffennaf 2025
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Ymgysylltu Cryno: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Gorffennaf 2025,
[31] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Ymgysylltu Cryno: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Gorffennaf 2025,
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Ymgysylltu Cryno: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Gorffennaf 2025,

- mynd i'r afael ag effeithiau hirdymor yr argyfwng costau byw;
- mynd i'r afael â'r enghreifftiau niferus o gyd-ddibyniaeth rhwng sectorau wrth gyflawni nodau polisi allweddol a'r angen i ddarparu cyllid yn unol â hynny;
- datblygu ymagwedd Cymru gyfan at seilwaith a gweledigaeth glir a chydlynol ar gyfer datblygu economaidd i liniaru'r risgiau o danariannu blaenorol;
- darparu cyllid i sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu ledled Cymru gyfan;
- blaenoriaethu mynd i'r afael â newid hinsawdd oherwydd y manteision amlochrog a fyddai'n deillio o Gymru fwy gwyrdd.[33]

## Ymgysylltu Pellach ag Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru

**14.** Yn ogystal â'r gweithdy a nodwyd uchod, gwahoddwyd Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru hefyd i fynychu trafodaeth anffurfiol â'r Pwyllgor ac Ysgrifennydd y Cabinet yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Hydref 2025. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y materion canlynol:

- penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet i beidio â dyrannu'r holl arian o fewn y Gyllideb Ddrafft er mwyn caniatáu trafodaethau gyda phob grŵp pleidiol ynghylch sut y dylid gwario'r £380 miliwn sy'n weddill i wneud y mwyaf o'i effaith;
- barn Ysgrifennydd y Cabinet ar Fformiwla Barnett, gan gynnwys y ffyrdd nad yw'r fformiwla yn gweithio i Gymru, pam mae diwygio ehangach yn y maes hwn yn anodd a pha welliannau sydd wedi'u gwneud ynghylch tryloywder gwneud penderfyniadau;
- pam mae Llywodraeth Cymru yn caniatáu disgresiwn i awdurdodau lleol o ran sut maent yn dyrannu eu cyllid a phwysigrwydd ymgysylltu â'r etholwyr mewn ymgynghoriad ystyrlon ar faterion o'r fath;
- pwysigrwydd y ffaith bod gan unrhyw lywodraeth newydd y gallu i symud arian o gwmpas i ariannu ei blaenoriaethau; a
- pam roedd y cyfyngiadau ar offer cyllidol Llywodraeth Cymru yn un o nodweddion mwyaf heriol datganoli cyllidol.[34]

---

[33] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraffau 199-219
[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27: Trafodaeth gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru, 16 Hydref 2025

## Ymgynghori

**15.** Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyn y gyllideb ar y Gyllideb Ddrafft rhwng 17 Gorffennaf 2025 a 26 Medi 2025 ar ran holl Bwyllgorau'r Senedd.[35] Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar y meysydd canlynol:

- A oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol ac i gefnogi'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol?
- Sut y gallai'r gyllideb fynd i'r afael ymhellach ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn meysydd fel gofal iechyd, sgiliau a chyflogaeth?
- A gaiff dull gweithredu Llywodraeth Cymru, o ran gwariant ataliol, ei gynrychioli wrth ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar)?
- Sut y dylai Llywodraeth Cymru egluro ei phenderfyniadau ariannu, gan gynnwys sut y mae ei gwariant yn cyfrannu at fynd i'r afael â materion polisi?
- Sut y gellir gwella'r ddogfennaeth a ddarperir ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru?
- Sut y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadnoddau i ymdrin â rhestrau aros y GIG ar gyfer triniaethau'r GIG sydd wedi'u cynllunio ac nad ydynt yn rhai brys. A ydych chi'n credu bod gan Lywodraeth Cymru gynllun cadarn i fynd i'r afael â'r mater hwn?
- A yw Llywodraeth Cymru'n darparu cefnogaeth ddigonol i'r sector cyhoeddus i'w alluogi i fod yn arloesol ac yn flaengar trwy bethau fel cynllunio'r gweithlu?
- A fu digon o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn seilwaith sylfaenol y sector cyhoeddus?
- Sut y dylai'r Gyllideb gefnogi pobl ifanc?
- Sut y mae tystiolaeth a data yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb, ac a yw'r dull hwn yn glir?
- A yw'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau'r trydydd sector, sy'n wynebu galw cynyddol am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a chostau ychwanegol yn dilyn cynnydd yn y Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, yn ddigonol?

[35] Y Pwyllgor Cyllid, Ymgynghoriad: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Medi 2025

- Beth yw'r cyfleoedd allweddol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi i gefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

**16.** Cafwyd cyfanswm o 49 o ymatebion.[36]


## Proses Dau Gam y Gyllideb

**17.** Mae'r Protocol[37] yn nodi dau gam y wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru'n ei chyhoeddi ynghylch y Gyllideb Ddrafft: Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynigion y Gyllideb Ddrafft Amlinellol sy'n nodi cynlluniau gwariant strategol a chyllido lefel uchel Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y dyraniadau gwariant arfaethedig i bortffolios Gweinidogol, sut y bydd y cynigion gwariant yn cael eu hariannu, a lefel gyffredinol y benthyca cyfalaf a'r ddyled;[38] a
- y Gyllideb Ddrafft Fanwl lle bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cynigion cyllideb ar gyfer pob portffolio ar lefel Llinell Gwariant y Gyllideb (BEL) neu gyfwerth gyda naratif ategol priodol, gan gynnwys manylion am sut y mae'r cynigion yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r canlyniadau a ddymunir, asesiadau o effaith y cynigion yn unol â rhwymedigaethau polisi cyfreithiol a pherthnasol Llywodraeth Cymru, ac esboniad o newidiadau sylweddol i benawdau'r gyllideb o gymharu â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol.[39]

**18.** Dyma'r tro cyntaf mewn saith mlynedd, ers rownd cyllideb 2019-20 yn hydref 2018, i'r broses ddau gam gael ei dilyn. Mae'r ffeithlun isod yn dangos sut y mae proses y gyllideb yn gweithio yn ymarferol trwy gydol y flwyddyn:

[36] Y Pwyllgor Cyllid, Ymgynghoriad: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Medi 2025
[37] Protocol Proses y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017
[38] Protocol Proses y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017, paragraff 15
[39] Protocol Proses y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017, paragraff 21




**19.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod proses gyllideb dau gam "yn rhoi'r amser mwyaf posibl i'r Senedd, ac, yn benodol, i'r Pwyllgor Cyllid, graffu ar y penderfyniadau sydd wedi'u nodi ynddi".[40] Roedd hefyd yn credu bod y broses dau gam yn welliant yn hytrach nag yn gyfyngiad.[41]

**20.** Fodd bynnag, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod cyhoeddi cynigion cyllidebol cyn Cyllideb Hydref y DU yn eu gadael yn agored i orfod gwneud addasiadau ar y funud olaf os yw cyllideb mis Tachwedd yn newid rhai o'r ffigurau y mae'r gyllideb ddrafft wedi'i seilio arnynt.[42]

**21.** Croesawodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y dull o gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft mewn dau gam, gan ychwanegu:

> *"To some extent, that's consistent with the Government as a whole—the finance Minister taking a view of the broad priorities, and then letting the portfolio holders for the individual areas*

[40] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 14 Hydref 2025, paragraff 138
[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 182
[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 40

*work out exactly how that's allocated across the different areas."*[43]

**22.** Croesawodd Dadansoddi Cyllid Cymru y bwriad hefyd, gan nodi:

*"It's a more concise document. It's easier to maybe look at the big picture, rather than going into the nitty-gritty, and there's maybe a bit of an overload of information in the full, detailed draft budget that maybe the big picture gets lost. So, I think going a bit earlier and setting out the broad approaches to the budget is probably welcome."*[44]

**23.** Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn croesawu dechrau'r broses mor gynnar â phosibl[45] a dywedodd ei fod yn beth da bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio rhoi cyfarwyddyd yn gynt.[46]

**24.** Fodd bynnag, roedd Dadansoddi Cyllid Cymru yn cydnabod:

*"there's a disbenefit … in terms of publishing the budget so early that there will inevitably be changes … even though we're not expecting a huge amount of additional funding, since the spending review has just set the budget for next year."*[47]

**25.** Nododd Dadansoddi Cyllid Cymru y diffyg sylw yn y cyfryngau a gafodd y cyhoeddiad am gyllideb Cymru, gan ddweud nad oedd hynny'n wych o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion ariannol, yn enwedig o gymharu â digwyddiad y gyllideb yn Senedd yr Alban.[48]

## Newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb

**26.** Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r Pwyllgor wedi ystyried newidiadau posibl i'r Protocol ar sawl achlysur. Ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd ar 9 Rhagfyr 2022 yn amlinellu newidiadau arfaethedig i'r Protocol,[49] ac ymgynghorwyd wedyn â'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar y mater hwn ar 23 Chwefror 2024.[50]

[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 26
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 30
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 109
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 112
[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 32
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 30
[49] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 9 Rhagfyr 2022
[50] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, 23 Chwefror 2024

**27.** Ar 22 Gorffennaf 2025, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor yn amlinellu ei farn ar gynigion y Pwyllgor, gan nodi:

> *"Un o gryfderau'r Protocol yw sut mae'n caniatáu cryn dipyn o hyblygrwydd i'r Senedd a Gweinidogion Llywodraeth Cymru addasu i newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar ein proses gyllideb. Nid wyf yn gweld unrhyw reswm i beidio â pharhau â threfniadau anffurfiol o'r fath ar gyfer gweddill tymor y Senedd, yn enwedig oherwydd gall yr hyblygrwydd hwn fod yn ddefnyddiol wrth i ni agosáu at etholiad nesaf y Senedd."*[51]

**28.** Ychwanegodd ei bod yn "ymddangos yn debygol y bydd angen gwneud newidiadau i'r Protocol ac i'r Rheolau Sefydlog o ganlyniad i gael Senedd fwy" ac y byddai "angen i'r Senedd newydd gytuno ar unrhyw newidiadau fel un pecyn cyfunol o newidiadau",[52] pwynt a ailadroddwyd mewn gohebiaeth bellach a gyhoeddwyd i'r Pwyllgor ar 18 Tachwedd 2025.[53]

## Barn y Pwyllgor

**29.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr ymgysylltiad helaeth a wnaed yn ystod haf 2025 i lywio ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys digwyddiadau rhanddeiliaid, gweithdai ieuenctid, sesiynau cyhoeddus, a grwpiau ffocws a gynhaliwyd ledled Cymru, a arweiniodd at ddadl ar flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y gyllideb ym mis Gorffennaf. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd yr ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd fel rhan o'n hymgynghoriad cyn y gyllideb ac yn gwerthfawrogi cyfraniad Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru a ymunodd â'r Pwyllgor ac Ysgrifennydd y Cabinet ar 16 Hydref. Yn benodol, rydym yn croesawu'r dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet sy'n nodi bod eu barn wedi helpu i lunio penderfyniadau cyllideb Llywodraeth Cymru.

**30.** Gyda'i gilydd, roedd y mewnwelediadau hyn yn allweddol wrth lywio ein gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft. Mae'r Pwyllgor yn falch o'r modd y mae ei waith ymgysylltu wedi esblygu yn ystod y Senedd bresennol, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng lleisiau'r cyhoedd a phroses y gyllideb ac mae'n gobeithio y bydd yr arferion hyn yn parhau yn y Seithfed Senedd.

**31.** Mae'r Pwyllgor yn arbennig o falch bod ein hargymhellion sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Cyllideb Ddrafft Amlinellol a manwl, fel y nodir yn y

[51] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 22 Gorffennaf 2025
[52] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 22 Gorffennaf 2025
[53] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 18 Tachwedd 2025

Protocol, wedi cael eu dilyn eleni, sef y tro cyntaf ers saith mlynedd. Mae'r Pwyllgor yn deall y dull a gymerodd Ysgrifennydd y Cabinet o ran amserlennu'r Cyllidebau Amlinellol a Drafft mewn ffordd bragmatig i geisio rhoi amser a hyblygrwydd i Aelodau'r Senedd gytuno ar Gyllideb Derfynol, sy'n adlewyrchu'r realiti gwleidyddol o gael cyllideb wedi'i phasio y flwyddyn ariannol hon.

**32.** Credwn fod y Senedd yn ei chyfanrwydd yn elwa o weld y darlun mawr yn gynharach ac mae'r dull hwn hefyd yn rhoi amser ychwanegol ar gyfer craffu a sicrhau eglurder cynnar ar flaenoriaethau sydd wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar feysydd trawsbynciol strategol ac yn arwain at ddadl fwy cyflawn yn y Senedd ar sut y mae arian yn cael ei godi a'i wario.

**33.** Rydym hefyd yn cydnabod bod cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn gynharach yn cario rhywfaint o ansicrwydd a risgiau, yn enwedig gan nad oedd manylion Cyllideb yr Hydref yn hysbys tan ar ôl i'r Gyllideb Ddrafft gael ei gosod. Archwilir yr heriau hyn ymhellach ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn. Serch hynny, credwn ei bod yn bwysig profi'r prosesau a amlinellir yn y Protocol, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn symud i un digwyddiad Cyllideb yn yr hydref o ystyried ei bod yn ymddangos bod hyn yn arfer sefydledig.

**34.** Mae'r Pwyllgor yn nodi barn Ysgrifennydd y Cabinet mai'r Senedd newydd sydd i gytuno ar unrhyw newidiadau i broses gyllideb y Senedd ar ffurf un pecyn cyfunol o newidiadau. Rydym wedi nodi ein rhwystredigaeth ynghylch peidio â chael cytundeb gan Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau cymedrol i'r Protocol Cyllidebol i atgyfnerthu'r arfer sefydledig yn y Senedd hon[54] a byddwn yn myfyrio ar y profiadau o graffu ar broses dau gam y gyllideb hon yn ein hadroddiad etifeddiaeth.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r ymgysylltiad helaeth a lywiodd y gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i gryfhau cyfranogiad y cyhoedd er mwyn sicrhau bod cyllidebau yn y dyfodol yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau pobl ledled Cymru.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod cadw at broses dau gam y gyllideb eleni wedi gwella'r gwaith craffu strategol ac eglurder cynnar, er gwaethaf y peryglon o addasiadau hwyr a achosir gan Gyllideb hwyr yr Hydref yn y DU, ac mae'n argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn gwerthuso sut y mae'r dull hwn wedi gweithio o safbwynt Llywodraeth Cymru a rhannu unrhyw ganfyddiadau gyda'r Pwyllgor yn fuan ar ôl y ddadl ar y Gyllideb Derfynol er mwyn cyfleu'r hyn a

[54] Llythyr oddi wrth Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 24 Hydref 2025

ddysgwyd ac i fod yn sail i ystyried y gwaith o graffu ar y gyllideb ac unrhyw newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb yn y Seithfed Senedd.

# 3. Y Cyd-destun Economaidd

## Cyllideb yr Hydref 2025

**35.** Ar 26 Tachwedd 2025, cyflwynodd Llywodraeth y DU Gyllideb yr Hydref 2025.[55] Cyhoeddodd y Canghellor sawl newid i bolisi treth y DU, a oedd yn cynnwys rhewi trothwyon treth incwm ac Yswiriant Gwladol am dair blynedd arall hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2030-31, treth newydd ar gartrefi gwerth £2 filiwn (yn Lloegr), newidiadau i Yswiriant Gwladol ar gyfraniadau pensiwn ychwanegol, a newidiadau i drethi cynilion a rheolau Cyfrif Cynilo Unigol (ISA).[56]

**36.** Cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ei rhagolygon treth a gwariant datganoledig diweddaraf ym mis Tachwedd 2025. Roedd y rhain yn seiliedig ar ei rhagolwg canolog wedi'i ddiweddaru ar gyfer economi'r DU a chyllid cyhoeddus.[57]

**37.** Nodweddion allweddol y rhagolwg hwn oedd:

- mae'r rhagolwg twf Cynnyrch Domestig Gros real ar gyfer 2025 yn cynyddu 0.5 pwynt canran i 1.5 y cant, oherwydd bod twf allbwn yn ail hanner 2024 yn cael ei adolygu tuag i fyny a bod twf yn chwarter cyntaf 2025 yn uwch na'r disgwyl. Disgwylir i dwf Cynnyrch Domestig Gros real fod yn 1.5 y cant dros y cyfnod rhagolwg;
- gostyngodd cyfradd sylfaenol twf cynhyrchiant yn y tymor canolig 0.3 pwynt canran i 1.0 y cant;
- rhagwelir y bydd cyflogau a chwyddiant yn codi'n gyflymach nag a ddisgwyliwyd ym mis Mawrth. Disgwylir i gyflogau enwol fod wedi codi tua 5 y cant yn 2025 a thua 3.5 y cant yn 2026, tua 1 pwynt canran yn uwch yn y naill flynedd a'r llall nag yn y rhagolygon ym mis Mawrth. Disgwylir i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr godi 3.5 y cant yn 2025 a 2.5 y cant yn 2026 – 0.2 a 0.4 pwynt canran yn uwch yn y drefn honno na'r rhagolygon ym mis Mawrth;
- rhagwelir y bydd Llywodraeth y DU yn bodloni'r rheolau cyllidol cyntaf, sef bod yn rhaid i'r gyllideb bresennol fod mewn gwarged yn 2029-30 ac y dylai rhwymedigaethau ariannol net y sector cyhoeddus fod yn

[55] Trysorlys EF, Cyllideb 2025, 26 Tachwedd 2025
[56] Tŷ'r Cyffredin, Hansard, 26 Tachwedd 2025, colofnau 812-828
[57] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon treth a gwariant datganoledig, Tachwedd 2025

gostwng yn 2029-30. Cynigir y bydd yr OBR yn parhau i wneud dau ragolwg ond dim ond yn asesu'r rheolau cyllidol yn ffurfiol unwaith y flwyddyn.[58]

**38.** Mae'r amcangyfrif wedi'i ddiweddaru o'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros, sef y mesur chwyddiant domestig o fewn yr economi, yn 2.9 y cant yn 2025-26 a 2.2 y cant ar gyfer 2026-27, sy'n 0.3 a 0.6 pwynt canran yn uwch yn y drefn honno nag yn y rhagolygon ym mis Mawrth.[59] Mae rhagolwg mis Tachwedd yr OBR hefyd yn cadarnhau:

- y rhagwelir y bydd incwm gwario real aelwydydd yn cynyddu 1.5 y cant yn 2025 a 0.6 y cant yn 2026;
- y rhagwelir y bydd diweithdra yn 4.8 y cant yn 2025 a 4.9 y cant yn 2026.[60]

**39.** Mae'r economi yng Nghymru wedi dilyn trywydd tebyg i'r DU ac ystyrir bod rhagolygon yr OBR ar gyfer y DU yn berthnasol i Gymru.[61]

**40.** O ganlyniad i benderfyniadau yng Nghyllideb yr Hydref 2025 y DU, bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn dros £500 miliwn o gyllid ychwanegol drwy weithrediad Fformiwla Barnett dros y cyfnod hyd at 2029-30. O hyn, mae £200 miliwn yn ymwneud â 2026-27.[62]

**41.** Mae dogfen Cyllideb Hydref 2025 y DU hefyd yn cynnwys adran sy'n nodi polisïau a buddsoddiad sy'n gysylltiedig â Chymru, fel gorsaf bŵer Wylfa a pharthau twf deallusrwydd artiffisial. Yn ei ymateb i Gyllideb Hydref 2025 y DU, nododd Llywodraeth Cymru y buddsoddiadau hyn ac ychwanegodd y caiff £547 miliwn ei ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno rhaglen Cronfa Twf Lleol newydd.[63]

**42.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

[58] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon treth a gwariant datganoledig, Tachwedd 2025, tudalen 11
[59] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon treth a gwariant datganoledig, Tachwedd 2025, tudalennau 191-192
[60] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon treth a gwariant datganoledig, Tachwedd 2025, tudalen 189
[61] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025: Pum Mewnwelediad Hanfodol, Hydref 2025
[62] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Gyllideb Hydref 2025 y DU, 26 Tachwedd 2025
[63] Trysorlys EF, Dogfen Cyllideb 2025, 26 Tachwedd 2025, Adran 7.3

*"The Welsh Government received an additional £186 million of revenue funding and £14 million of general capital funding for 2026-27 as a result of the UK autumn budget."*[64]

**43.** Aeth ymlaen i ddweud:

*"Of that additional £186 million of revenue, around 60 per cent comes because of the UK Government's decision to introduce a transitional relief scheme to accompany revaluation of non-domestic rates in England".*[65]

**44.** Mewn perthynas â threthi datganoledig, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet yr hyn a ganlyn:

*"the OBR forecast for revenues from the devolved taxes next year is £49 million higher than in the draft budget".*[66]

**45.** Ychwanegodd:

*"… that is mainly due to increases in forecasts for stamp duty land tax in England. That, therefore, means that the rounded overall positive net impact of devolved taxes is £37 million higher than at the time of the draft budget."*[67]

## Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

**46.** Mae cyfanswm Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys y canlynol:

- cyllid gan Lywodraeth y DU a elwir yn Grant Bloc;
- cynlluniau benthyca a defnydd o Gronfa Wrth Gefn Cymru;
- Cyfraddau Treth Incwm Cymru;
- ardrethi annomestig;
- trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn (y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi).

[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 66
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 67
[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 68
[67] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 68

**47.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu tua £27 biliwn, ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol ac adnoddau anariannol.[68]

**48.** Cyfanswm y dyraniadau adnoddau cyllidol yw £22.3 biliwn, cynnydd o £508 miliwn, sef 2.3 y cant, o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26. O'r cynnydd hwn, mae £467 miliwn yn gynnydd "chwyddiant" a £41.3 miliwn yn newidiadau eraill.[69]

**49.** Gan ddefnyddio datchwyddydd cynnyrch domestig gros mis Mawrth o 1.7 y cant ar gyfer y cyfrifiad, sef y ffigur a oedd ar gael pan gyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft, mae hyn yn cyfateb i gynnydd mewn termau real o 0.6 y cant (0.5 y cant os yw'r newidiadau eraill wedi'u heithrio). Nid oes unrhyw newidiadau i ddyraniadau refeniw anariannol, ac eithrio gostyngiad o £46,000 yn yr adran Cyfiawnder Cymdeithasol.[70]

**50.** Cyfanswm y dyraniadau cyfalaf cyffredinol yw £3.4 biliwn. Yn ogystal, mae £131.7 miliwn o Gyfalaf Trafodion Ariannol (y mae £13 miliwn ohono heb ei ddyrannu) a £1.2 biliwn yn ymwneud â refeniw ardrethi annomestig.[71]

**51.** Wrth i gyfanswm y cyllid i adrannau gynyddu ar sail chwyddiant i oddeutu 2 y cant, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod y gyllideb yn bwrw ymlaen â blaenoriaethau cyllideb y flwyddyn gyfredol, ac yn cyd-fynd â dyheadau mewn perthynas ag iechyd, ffyniant, a gwasanaethau cyhoeddus da.[72]

### Cymariaethau â 2025-26

**52.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cymariaethau rhwng y dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27 a 2025-26 gan ddefnyddio llinell sylfaen sydd wedi'i diwygio.

**53.** Defnyddir Cyllideb Derfynol 2025-26 fel man cychwyn, fodd bynnag, yr ychwanegiad mwyaf arwyddocaol yw cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r sector cyhoeddus datganoledig gyda chynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Dyrannodd Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 £220

[68] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 5
[69] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 5
[70] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 5
[71] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 23
[72] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 165

miliwn at y diben hwn, sydd wedi'i gynnwys o fewn llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26.[73]

**54.** Darparwyd cyllid ychwanegol o £126 miliwn i gefnogi cynnydd mewn cyflogau'r sector cyhoeddus yn 2025-26. Mae llinell sylfaen o £137 miliwn ar gyfer y cyllid hwn yn 2026-27 a bydd yn cynnwys blwyddyn academaidd lawn o gyflog athrawon.[74]

**55.** Mae cyllid arall gan Lywodraeth y DU, sy'n cael ei ystyried yn gyllid "untro", yn cael ei dynnu o'r llinell sylfaen.[75]

**56.** Yn gyffredinol, o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2025-26, mae'r llinell sylfaen adnoddau cyllidol £285.7 miliwn yn uwch ac mae'r cyfalaf cyffredinol £170.6 miliwn yn is.[76]

**57.** Roedd Dadansoddi Cyllid Cymru o'r farn bod dull Llywodraeth Cymru yn fras yn ffordd synhwyrol o fynd i'r afael ag ef, gan nodi:

> "… it's much better than last year, where the two budgets were being compared on different accounting standards, and there was a lot of in-year spending that wasn't included in the baseline."[77]

**58.** Cytunodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, gan ychwanegu:

> "… it's good to add in the kind of in-year spending that's been added to budgets like the national insurance compensation and the pay … You don't want to compare the budget for next year with what we initially thought we'd spend this year; you want to compare it to the most recent estimates to get a real like-for-like comparison."[78]

## Y Dull o Bennu Cyllidebau Adrannau

**59.** Mae adroddiad Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn cadarnhau mai'r dull o ddyrannu cyllid i adrannau oedd cymryd llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26 ac ychwanegu:


[73] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26, Nodyn Esboniadol, Mehefin 2026, tudalen 4,
[74] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 20
[75] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 20
[76] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 21
[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 38
[78] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 40

- cynnydd o 2.2 y cant i adnoddau cyllidol a ddarperir ar gyfer elfennau cyflog y sector cyhoeddus ym mhob adran, a
- cynnydd o 2 y cant ar gyfer adnoddau cyllidol nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, cyfalaf cyffredinol a Chyfalaf Trafodion Ariannol.[79]

**60.** Mae nifer cyfyngedig o addasiadau eraill wedi'u gwneud i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer rhwymedigaethau cytundebol, cyllid a glustnodwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi (Trysorlys EF) at ddibenion penodol, trosglwyddiadau rhwng y Prif Grwpiau Gwariant a chostau sy'n deillio o weithredu deddfwriaeth newydd y cytunwyd arni gan y Senedd [80]

**61.** Dangosir y dyraniadau cyffredinol yn ôl elfen y gyllideb a'r dyraniadau refeniw ar gyfer adrannau yn Ffigurau 2 a 3 yn y drefn honno.

***Figure 1*** *Prif newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2026-27 a llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26 (£'m)*




[79] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 22
[80] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 24

***Figure 2** Dyraniadau refeniw: newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2026-27 o'r Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26*

| | Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf | Newid Cyllideb Ddrafft 26-27 i Dyraniadau Sylfaenol Diwygiedig 25-26 |
|---|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | £12,748m | £261m 2.1% ▲ |
| Llywodraeth Leol a Tai | £5,690m | £131m 2.4% ▲ |
| Addysg | £2,119m | £39m 1.9% ▲ |
| Trafnidiaeth | £924m | £29m 3.2% ▲ |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | £607m | £18m 3.1% ▲ |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | £523m | £10m 1.9% ▲ |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | £464m | £12m 2.5% ▲ |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | £144m | £8m 6.0% ▲ |

**62.** Er nad oedd penderfyniadau wedi'u nodi ynghylch blaenoriaethu cyllid yn y Gyllideb Ddrafft Amlinellol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor Cyllid ar 16 Hydref 2025:

> *"Last year, we had £1.6 billion new, and the big decisions about how you would prioritise that money were made last year … What we're doing this year is we are reinforcing those decisions by continuing to invest in those key areas, and that's why you see that uplift across the whole Government."*[81]

**63.** Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Gyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27 ar 14 Hydref 2025, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"… mae blociau adeiladu mawr y gyllideb wedi'u nodi. Bellach mae'n troi at bob Ysgrifennydd Cabinet i benderfynu sut orau i*

[81] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraffau 12-13

*ddefnyddio'r adnoddau hyn, a bydd y penderfyniadau gwariant manwl hynny yn cael eu cyhoeddi ar 3 Tachwedd."*[82]

**64.** Gwnaeth Adroddiad Manwl Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2026-27,[83] a oedd yn cyd-fynd â'r tablau BEL,[84] nodi cynlluniau gwariant pob Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi diweddaru'r tablau sy'n cefnogi ei chynlluniau gwario, a gyhoeddodd gyda'r Gyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27.[85] Roedd hyn yn bennaf i gynnwys tablau ychwanegol ar gyfer dyraniadau cyllid cyfalaf (cyfalaf cyffredinol a Chyfalaf Trafodion Ariannol).

## Cyllid Heb ei Ddyrannu

**65.** Mae'r adroddiad Amlinellol o'r Gyllideb Ddrafft yn nodi bod £380 miliwn o gyllid heb ei ddyrannu, sy'n cynnwys £231 miliwn o adnodd cyllidol, £136 miliwn o gyfalaf cyffredinol a £13 miliwn o Gyfalaf Trafodion Ariannol.[86]

**66.** Yn Adroddiad Manwl y Gyllideb Ddrafft 2026-27, nododd Ysgrifennydd y Cabinet mai'r cynlluniau gwariant cychwynnol yw'r rhain a dywedodd: "Y Gyllideb Ddrafft yw dechrau proses y gyllideb – nid ei diwedd …".[87]

**67.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd:

> *"… Rwy'n dal yn agored, felly, i weithio gyda phleidiau gwleidyddol eraill yn y Senedd sy'n rhannu fy argyhoeddiad bod gennym gyfrifoldeb ar y cyd i basio Cyllideb Cymru ac sy'n credu y gellid cytuno ar gyllideb fwy uchelgeisiol."*[88]

**68.** O ran yr hyn y gellid gwario'r cyllid heb ei ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft arno, esboniodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid:

> *"… even if all this unallocated money for day-to-day resource spending was put into the NHS, that would still be only roughly in line with the estimates of what you need to just keep things steady … So, there really isn't this sort of money for the next Senedd to do as it pleases with, unless it's willing to make*

[82] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 14 Hydref 2025, paragraff 139
[83] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl., Tachwedd 2025:
[84] Llywodraeth Cymru, Llinellau Gwariant yn y Gyllideb, Tachwedd 2025
[85] Llywodraeth Cymru, Tablau Cefnogi Cynlluniau Gwariant, Hydref 2025 (diweddarwyd Tachwedd 2025)
[86] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025
[87] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft Fanwl , Tachwedd 2025, tudalen 3
[88] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft Fanwl, Tachwedd 2025, tudalen 3

*tough choices on things like the NHS or other public services. Therefore, I think the initial framing of this draft budget approach was a little bit unfortunate."*[89]

**69.** Ychwanegodd Dadansoddi Cyllid Cymru hefyd:

*"… the difficulty with the budget from our perspective is that, even though there is room put in there for unallocated funding to be made available for cross-party negotiations or for the next Government, actually that's probably unrealistic, because if that were to be put forward, then we'd have a historically low settlement for the NHS. So, I think that the amount of additional money from unallocated funds is quite a bit smaller than is presented."*[90]

**70.** Mynegodd Cyngor Gwynedd yn ei ymateb i'r ymgynghoriad bryderon hefyd ynglŷn â dull Llywodraeth Cymru, gan nodi:

*"Rydym yn deall byddai 'rollover budget' yn gadael oddeutu £400m heb ddyrannu gan Lywodraeth Cymru, ond na fyddai penderfyniad ar hwn tan ar ôl etholiad Senedd Cymru fis Mai. Byddai hyn ar ôl i gynghorau osod cyllidebau felly yn llawer rhy hwyr i warchod gwasanaethau. Nid oes sicrwydd y bydd peth o'r £400m yn dod i lywodraeth leol, os o gwbl."*[91]

**71.** O ran sut yr oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu dyrannu'r arian hwn yn y Gyllideb Derfynol, dywedodd wrth y Pwyllgor:

*"… in order to pass a final budget, the Government is involved in discussions with other parties about how we might deploy not just the additional resource that came in the budget, but the unallocated resource that was there at the draft budget as well. I am not going to make any decisions that pre-empt those conversations, because I have to work as hard as I can to make sure that there is a final budget that can be passed by the Senedd."*[92]

[89] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 19
[90] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 15
[91] Y Pwyllgor Cylid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Cyngor Gwynedd
[92] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 88

**72.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y byddai'n hapus iawn i ddod yn ôl i'r Pwyllgor i esbonio unrhyw newidiadau i'r Gyllideb Derfynol yng ngoleuni unrhyw drafodaethau gwleidyddol neu gytundebau a wnaed erbyn y pwynt hwnnw ac o ystyried y cyllid ychwanegol sy'n deillio o Gyllideb yr Hydref y DU.[93]

## Pwysau

**73.** Nododd nifer o ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor fod pwysau ariannol yn cael ei deimlo ar draws nifer o feysydd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. O ran awdurdodau lleol, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> *"Mae chwyddiant, pwysau ar gyflogau a galw cynyddol a chymhlethdod yr anghenion yn golygu y bydd Cynghorau'n wynebu bwlch ariannol sylweddol dros y 3 blynedd nesaf."*[94]

**74.** Ychwanegodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru hefyd yr effaith y mae'r cyd-destun presennol yn ei chael ar y trydydd sector yng Nghymru:

> *"Post-EU funding challenges, the cost of living crisis and recent increases to National Insurance Contributions have all had marked impacts on the third sector in Wales..."*[95]

**75.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, ychwanegodd Ffederasiwn Busnesau Bach:

> *"....confidence is rock bottom at the moment. It's really, really low. We're in a position where more firms are telling us they're going to contract than grow ... Cost increases are really outstripping revenue increases. Lots of firms are reporting that revenue is going down. And when you ask what the biggest barriers are, they tend to be: state of the economy, tax, costs, in particular labour costs."*[96]

**76.** Ychwanegodd Sefydliad y Cyfarwyddwyr ei fod yn gyfnod heriol iawn i fusnesau,[97] gyda Chonsortiwm Manwerthu Cymru hefyd yn nodi bod barn

[93] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 184
[94] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[95] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
[96] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 106
[97] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 109

defnyddwyr am yr hyder ynghylch cyflwr yr economi wedi gostwng i'r ail ddata isaf a gofnodwyd erioed y mis diwethaf.[98]

## Pwysau yn Sgil Chwyddiant

**77.** Ar yr adeg y cyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft Amlinellol yng nghanol mis Hydref, roedd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 3.8 y cant ar gyfer y 12 mis hyd at Awst 2025, ac nid oedd wedi newid o fis Gorffennaf 2025.[99] Amcangyfrifwyd bod y datchwyddydd cynnyrch domestig gros, sef y mesur chwyddiant domestig yn yr economi, yn 1.7 y cant ar gyfer 2026-27 (ym mis Medi 2025). Diweddarwyd amcangyfrif yr OBR ar gyfer cynnyrch domestig gros 2026-27 i 2.2 y cant pan gyhoeddwyd Cyllideb y DU ym mis Tachwedd, ac mae ei amcangyfrif ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 2026-27 hefyd yn 2.2 y cant.[100]

**78.** Mae'r adroddiad Amlinellol o'r Gyllideb Ddrafft yn nodi mai'r dull o ddyrannu cyllid i adrannau yn 2026-27 yw cymryd llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26 ac ychwanegu'r canlynol:

- cynnydd o 2.2 y cant i adnoddau cyllidol a ddarperir ar gyfer elfennau cyflog y sector cyhoeddus ym mhob adran;
- cynnydd o 2 y cant ar gyfer adnoddau cyllidol heb fod yn gyflogau, cyfalaf cyffredinol a chyfalaf Trafodion Ariannol.[101]

**79.** Mae'r Gyllideb Ddrafft Fanwl yn nodi bod pob Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud penderfyniadau ynghylch sut y mae'r cynnydd chwyddiant yn cael ei ddyrannu o fewn eu portffolios.[102]

**80.** Yn eu tystiolaeth, nododd swyddogion Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol):

> *"I think we would recognise that there is a demand profile to service provision in the NHS and local government that is driving costs beyond—that almost sits outside of any inflation calculation per se."*[103]

[98] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 111
[99] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Chwyddiant prisiau defnyddwyr, y DU, Hydref 2025
[100] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon treth a gwariant datganoledig, Tachwedd 2025, tudalen 191
[101] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 22
[102] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, tudalen 2
[103] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 222

**81.** Dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid wrth y Pwyllgor, er mai'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros oedd y mesur mwyaf cynhwysfawr o chwyddiant ar draws yr economi gyfan, y gallai gwahanol wasanaethau a'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd wynebu cyfradd chwyddiant sy'n wahanol i'r ffigur cyffredinol hwnnw.[104]

**82.** Soniodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd fod gwasanaethau fel gofal cymdeithasol wedi profi gostyngiad eithaf mawr mewn cynhyrchiant, a hefyd amlygodd feysydd sydd wedi gweld cost sylweddol uwch na chwyddiant, fel cynghorau yn Lloegr mewn perthynas â chostau gofal cymdeithasol oedolion, lleoliadau cartrefi gofal, gofal cartref fesul awr, cludiant o'r cartref i'r ysgol i blant anabl, a llety dros dro.[105]

**83.** Nododd llythyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at y Pwyllgor fod rhagolwg yr OBR o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr "cystal mesur ag unrhyw un ar gyfer chwyddiant heb fod yn gyflogau", ond "mae chwyddiant gwasanaethau lleol yn tueddu i gael ei lywio gan alw penodol a chwyddiant cyflogau sy'n llawer uwch na'r mynegai prisiau defnyddwyr a ragwelir". Nododd bwysau cost o £560 miliwn, sy'n cyfateb i 6.6 y cant o wariant y gyllideb. Gan dynnu allan y galw, mae'r pwysau "digyfnewid" oddeutu 4 y cant o'r gwariant wedi'i gyllidebu, a fyddai'n gofyn am gynnydd o 5.4 y cant mewn cyllid allanol cyfanredol.[106]

**84.** O ran chwyddiant a brofwyd gan y gwasanaeth iechyd, nid oedd llythyr diweddar Cydffederasiwn GIG Cymru at y Pwyllgor yn meintioli chwyddiant iechyd penodol. Yn ei gyflwyniad i ymgynghoriad y Pwyllgor ynghylch Cyllideb Ddrafft 2026-27, mae Cydffederasiwn GIG Cymru yn nodi:

> *"Inflationary pressures have had a significant impact in recent years. Whilst NHS Wales organisations have welcomed the additional funding from the Welsh Government, increasing costs as a result of inflation has had a significant impact on NHS delivery against government priorities. Historically, health services have required above inflation funding increases to meet growing demand and the needs and expectations of the public."*[107]

[104] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 48
[105] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 48
[106] Llythyr gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 12 Tachwedd 2025
[107] Llythyr gan Gydffederasiwn y GIG at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 11 Tachwedd 2025

**85.** Pan ofynnwyd iddo pam nad oedd Llywodraeth Cymru yn defnyddio chwyddiant sector-benodol i lywio dyraniadau cyllidebol, atebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"I have to use a figure that is independent and authoritative. I'm offered all sorts of figures of what some people think inflation may be next year, but I can't take an estimate of inflation just on the basis of the say-so of a particular interest group. I have to go on the most authoritative, the most independent source that we have, and in that way, I will be doing exactly what the Northern Ireland Executive is doing, exactly what the Scottish Government is doing, and exactly what the UK Government is doing."*[108]

**86.** O ran a oedd y rhagolwg mynegai prisiau defnyddwyr yn rhoi adlewyrchiad gwirioneddol o chwyddiant gwasanaethau, derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod cyfyngiadau gyda'r mesur hwn, ond yn absenoldeb ffigur amgen awdurdodol, dywedodd eu bod yn dibynnu ar y ffigur gorau sydd ganddynt am y tro.[109]

**87.** Pan ofynnwyd iddo sut yr oedd y cynnydd yn rhagolygon amcangyfrifedig chwyddiant y mynegai prisiau defnyddwyr a'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros gan yr OBR ym mis Tachwedd a'r cyhoeddiad am y codiadau cyflog byw cenedlaethol o fis Ebrill nesaf yng Nghyllideb yr Hydref y DU wedi effeithio ar ragdybiaethau Llywodraeth Cymru yn y Gyllideb Ddrafft ynghylch chwyddiant cyflog a chwyddiant nad yw'n gyflog i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"If you increase the pay forecast by 1 per cent for public sector pay, then that will cost close to £150 million over and above what is already provided for in the draft budget. So, you can see that that will be a very hefty inroad into the £186 million, and we've already said that some of that £186 million is likely to be needed for a transitional NDR scheme."*[110]

[108] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 18
[109] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 20
[110] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 88

**88.** Cyhoeddwyd rhagor o fanylion ynglŷn â'r cymorth ardrethi annomestig a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 gan Ysgrifennydd y Cabinet ar 3 Rhagfyr.[111]

**89.** O ran sut y byddai'r ffactorau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Gyllideb Ddrafft, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"I will need to discuss that with other parties, and I'm not going to make any pre-emptive decisions in advance of that."*[112]

**90.** Fodd bynnag, ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn disgwyl i'r cyfraddau chwyddiant gwahaniaethol a'i effaith ar wasanaethau penodol fod yn rhan bwysig o'r sgwrs y bydd yn ei chael â phleidiau eraill wrth iddynt ddod i ffurfio cyllideb derfynol, gan ychwanegu ei fod wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd ers i'r gyllideb ddrafft gael ei gosod gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros lywodraeth leol a gydag arweinwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Nododd hefyd:

> *"… we are very alert to the … evidence that you have received, and we'll be navigating that with others in order to make sure that, when we lay the final budget, some of those concerns have been taken into account."*[113]

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

**91.** Unwaith eto, roedd effaith y cynnydd i gyfraniadau cyflogwyr yn amlwg yn yr ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor. Esboniodd y Ffederasiwn Busnesau Bach:

> *"With a danger of it being seen as 'last year's news' amid the issues noted above, it is important to note the impact this year of the UK Government's increase in the rate of employer National Insurance contributions (NICs) from 13.8% to 15% and the decision to reduce the per-employee threshold at which employers become liable to pay National Insurance (the Secondary Threshold) from 6 April 2025 to £5,000."*[114]

**92.** Nododd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru y bydd y newid hwn yn gadael cost ychwanegol o £18m i brifysgolion Cymru ym mlwyddyn

[111] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2026-27, 3 Rhagfyr 2025
[112] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 88
[113] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraffau 109-110
[114] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ffederasiwn Busnesau Bach

academaidd 2025-26[115] ac anogodd Fforwm Gofal Cymru Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ychwanegol yng nghyllideb 2026/27 i dalu costau cynyddol y Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynwyd ledled Cymru.[116]

**93.** Dywedodd yr OBR wrth y Pwyllgor yn ystod y gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 y llynedd y byddai baich y cynnydd yn sgil newid y Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cael ei deimlo yn fwy gan weithwyr na chyflogwyr dros y tymor hir:

> *"… our assessment is that, probably 60 per cent, 75 per cent even, of the effect will flow back to lower wages than they otherwise would have been … that doesn't mean that wages are going to be absolutely cut; it's just that wage increases will be less than they would have been."*[117]

## Diwygio Fformiwla Barnett

**94.** Nodwyd newidiadau i Fformiwla Barnett fel maes allweddol yng ngwaith ymgysylltu cyn y gyllideb y Pwyllgor, lle galwodd cyfranogwyr am ei ddiwygio i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn derbyn ei chyfran deg o gyllid gan Lywodraeth y DU.[118]

**95.** Cyhoeddodd Dadansoddi Cyllid Cymru bapur ar 5 Tachwedd a oedd yn amcangyfrif bod cyllid cymharol fesul person ar gyfer Cymru i Loegr ar gyfer 2026-27 ychydig yn llai na 122 y cant, ac eithrio cyllid amnewid yr UE. Mae'r adroddiad yn ail-gyfrifo bod yr angen cymharol yng Nghymru yn oddeutu 117 y cant ac yn tynnu sylw at yr angen am ailwerthusiad mwy diweddar a thryloyw o angen cymharol a lefelau gwariant. Hefyd, o ystyried bod yr adroddiad yn cyfrifo bod gwariant cyhoeddus yn uwch mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig o'i gymharu â gwasanaethau neilltuol, mae'n dod i'r casgliad mai gorau po fwyaf o Barnett.[119]

**96.** Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod "yn falch o sicrhau cytundeb i ymgymryd â gwaith ar y cyd i edrych ar ffyrdd o wella sut mae fformiwla Barnett yn gweithredu" gyda chymheiriaid yn y DU a

[115] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru;
[116] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Fforwm Gofal Cymru
[117] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 25
[118] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, Gorffennaf 2025, tudalen 10
[119] Dadansoddi Cyllid Cymru, 'A Decade On: Reforming Wales' Fiscal Framework', 5 Tachwedd 2025

llywodraethau datganoledig.[120] Yn ogystal â hyn, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor ar 18 Tachwedd i dynnu sylw at ddwy drafodaeth bord gron arbenigol a gynhaliwyd ar 6 ac 11 Tachwedd i drafod ffyrdd o wella'r system ar gyfer ariannu llywodraethau datganoledig.[121]

**97.** Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet ddiweddariad ar y trafodaethau hyn yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, gan nodi:

> *"My own assessment is that the fact that there is no appetite amongst other devolved Governments for a replacement for Barnett means that they are a bit more willing to take an interest in making the current system work better".*[122]

**98.** O ran y newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio i'r ffordd y mae Barnett yn gweithredu, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"I've been making the case for Barnett reform in four different areas. I do think that we need to shine a light on how the comparability factor works … I want FISC to look at the statement of funding policy to make sure that it is properly honoured in the way that these decisions are made … I want us to look at the way in which Barnett has been bypassed in the past … And then I want to look at the way in which we can have a greater degree of independence in dealing with any disputes that arise over how Barnett decisions have been interpreted."*[123]

**99.** Esboniodd swyddog a fynychodd y cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r cwmpas ar gyfer y gwaith yn cael ei gytuno gan bob un o'r pedair Llywodraeth ac yna byddai papur yn cael ei gytuno gan bob un ohonynt. Fodd bynnag, cydnabu'r swyddog bod heriau'n bodoli, yn enwedig ar fater o'r natur hon, wrth gael rhyw fath o gynnig y gall pob un o'r pedair Llywodraeth ei gydnabod fel yr un cywir.[124]

---

[120] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 31 Hydref 2025
[121] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 18 Tachwedd 2025
[122] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraffau 97-99
[123] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraffau 97-99
[124] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 103

## Mesurau Wrth Gefn

**100.** Mewn llythyr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 16 Ionawr 2025 mewn perthynas â chylch cyllideb 2025-26, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y goblygiadau ymarferol pe na bai'r Cynnig ar y Gyllideb Flynyddol yn cael ei gymeradwyo gan y Senedd. Mae'n nodi:

> *"Os na fydd Cynnig ar y Gyllideb yn cael ei basio cyn 1 Ebrill y flwyddyn ariannol sydd i ddod, mae Adran 127 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (GoWA) (Appropriation without Budget Resolution) yn dod i rym yn awtomatig. Byddai hyn yn rhoi awdurdod i Lywodraeth Cymru a chyrff a ariennir yn uniongyrchol gronni (gwario) adnoddau, cadw incwm, a thynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru o hyd at 75% o'r terfynau a gymeradwywyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Os nad yw Cynnig Cyllideb wedi pasio erbyn diwedd mis Gorffennaf, ystyrir bod hyd at 95% o derfynau'r flwyddyn ariannol flaenorol wedi'u hawdurdodi."*[125]

**101.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 20.24A-D, rhaid gwneud penderfyniad ar gyfraddau treth incwm Cymru, sy'n gosod cyfraddau treth incwm Cymru, cyn dechrau'r flwyddyn dreth a dim ond am un flwyddyn dreth y gellir ei wneud a rhaid iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn dreth gyfan.[126]

**102.** Dim ond ar ôl cyhoeddi'r Cynnig Cyllideb Blynyddol y gellir ystyried penderfyniad ynghylch cyfraddau Cymru. Mae hyn er mwyn sicrhau mai dim ond pan fydd yr holl wybodaeth am Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gael y gall y Senedd bleidleisio ar benderfyniad ardrethi Cymru.

**103.** Yn ogystal, nid oes modd i'r Senedd basio Cynnig Cyllidebol Blynyddol hyd nes ei bod wedi cytuno ar benderfyniad ynghylch y gyfradd Gymreig yn gyntaf. Mae'r drefn hon yn seiliedig ar yr egwyddor na all y Senedd wneud penderfyniad ar y cynlluniau gwariant sydd wedi'u cynnwys yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol heb gytuno yn gyntaf ar sut y bydd y refeniw i dalu am y cronfeydd hynny yn cael ei godi drwy drethi.

**104.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

[125] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 16 Ionawr 2025
[126] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Tachwedd 2025

> *"… the Government of Wales Act 2006 is both draconian and clear that, if we fail to pass a budget, then, for the start of the next financial year, public services in Wales will be funded at 75 per cent of this year's budget. And not only will it be 75 per cent, but it's 75 per cent of every budget line. There's no flexibility to start moving that money about to try to protect the most important things; it's 75 per cent of this budget as this budget is constructed."*[127]

**105.** Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Senedd newydd yn cael cyfleoedd pellach i geisio pasio cyllideb ac os nad oes cyllideb o hyd erbyn diwedd mis Gorffennaf, bydd y 75 y cant hwnnw'n dod yn 95 y cant.[128]

**106.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yr effaith acíwt y byddai'r senario hwn yn ei chael ar y sector llywodraeth leol o ystyried y cyfyngiadau cyfreithiol, gan esbonio:

> *"You reach a point in the middle of March where they have to set a budget, and if we haven't been able to agree a budget here they will then have to set a budget at 75 per cent of the current year's provision. So, look, I'm very keen that we reach an early agreement across the Senedd. It is not good for our public services for uncertainty to be prolonged."*[129]

**107.** Pan ofynnwyd iddo beth fyddai'n digwydd pe na bai'r Senedd yn gallu pasio penderfyniad ardrethi Cymreig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"… one possibility is that the UK Government would step in and instruct His Majesty's Revenue and Customs to continue to collect Welsh rates of income tax as though the Senedd had not made that decision. Now, that is constitutionally very uncomfortable for me, but, financially …. I think it's the one I'd prefer, because the other one is that we do indeed cut all three bands by 10p in the £1, thus denying ourselves £4 billion-worth of investment in Welsh public services."*[130]

---

[127] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 58
[128] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 59
[129] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 114
[130] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 87

## Barn y Pwyllgor

**108.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gyllideb Ddrafft yn cael ei disgrifio fel cyllideb "dreigl" a'i bod yn ailddatgan dyraniadau cyllideb derfynol 2025-26 gyda chynnydd mewn chwyddiant o 2.2 y cant a chynnydd o 2.2 y cant ar gyfer cyflogau'r sector cyhoeddus, yn seiliedig ar ragolygon yr OBR ym mis Mawrth. Rydym hefyd yn nodi bod y Gyllideb Ddrafft yn atgyfnerthu penderfyniadau a wnaed yn 2025-26, yn hytrach na chyflwyno newidiadau newydd sylweddol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull y mae Llywodraeth Cymru wedi'i fabwysiadu wrth gymharu cyllid eleni â sefyllfa ariannol y llynedd sydd wedi rhoi eglurder o ran cynnydd o un flwyddyn i'r llall.

**109.** Er gwaethaf manteision y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chyhoeddi yn gynharach eleni (a archwiliwyd ymhellach ym Mhennod 3), roedd Cyllideb hwyr y DU yn yr Hydref yn golygu bod y Pwyllgor wedi wynebu nifer o heriau wrth graffu ar ddull Llywodraeth Cymru o bennu cyllidebau adrannol ar gyfer 2026-27.

**110.** Yn benodol, nid oedd y Pwyllgor yn gallu craffu ar benderfyniadau ynghylch Ardrethi Annomestig a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn fanwl, gan eu bod wedi'u gwneud ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft (ystyrir materion sy'n ymwneud â threthi datganoledig yn fanylach ym Mhennod 4). Roedd hefyd yn cyfyngu'r Pwyllgor rhag ystyried effaith cyfrifiadau addasu'r refeniw treth a'r grant bloc gan nad oedd y rhain wedi'u cwblhau tan ar ôl Cyllideb yr Hydref y DU (a ystyriwyd ymhellach ym Mhennod 4).

**111.** Er ein bod yn croesawu'r £237 miliwn ychwanegol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yng ngoleuni'r rhagolygon diwygiedig (sy'n cynnwys £186 miliwn mewn refeniw, £14 miliwn mewn cyfalaf a £37 miliwn mewn newidiadau net trethiant o ganlyniad i'r addasiad grant bloc), yn ogystal â'r £380 miliwn sydd eisoes yn y gronfa wrth gefn, serch hynny mae'n siomedig na fydd mwy o gyfleoedd i graffu ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r cronfeydd hyn.

**112.** Rydym hefyd yn nodi bod rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch sut y bydd y cronfeydd ychwanegol hyn yn cael eu blaenoriaethu a'r effaith y gallai hyn ei chael ar linellau cyllideb yn y Gyllideb Derfynol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, oherwydd yr angen sylweddol am gyllid ychwanegol uwchlaw'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y GIG a llywodraeth leol, nad yw'n glir faint o'r cyllid hwn fydd "ar gael" mewn gwirionedd ar gyfer mentrau newydd.

**113.** Rydym yn cydnabod bod cyhoeddi Cyllideb yr Hydref yn hwyr yn cyfyngu'r amser sydd ar gael i graffu ar gynigion Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru, ac rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i ymddangos gerbron y Pwyllgor eto yn y flwyddyn newydd i esbonio sut y bydd yr arian heb ei ddyrannu yn cael ei ddefnyddio unwaith y bydd y Gyllideb Derfynol yn cael ei gosod gerbron y Senedd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu mai dim ond wythnos fydd gan y Pwyllgor a'r Senedd gyfan i ystyried yr hyn sy'n debygol o fod yn newidiadau sylweddol. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer craffu, credwn y dylid ystyried ymestyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb Derfynol ar 27 Ionawr, fel y gellir ystyried y penderfyniadau hyn yn fanwl a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**114.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r anawsterau sylweddol y bydd methiant i basio cynnig ar y Gyllideb Derfynol yn ei gael i'r sector cyhoeddus datganoledig cyfan, yn enwedig mewn pryd i awdurdodau lleol gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol i osod cyllideb a'r dreth gyngor ddechrau mis Mawrth. Rydym hefyd yn cydnabod y goblygiadau ariannol difrifol os na fydd y Senedd yn pasio penderfyniad ar ardrethi Cymreig, a'r cwestiynau cyfansoddiadol a gweithdrefnol sylfaenol a fyddai'n cael eu codi mewn amgylchiadau o'r fath.

**115.** Mae'r Pwyllgor yn nodi mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cyflwyno Cyllideb Derfynol a all gael cymeradwyaeth gan y Senedd. Rydym yn croesawu dull cydweithredol Ysgrifennydd y Cabinet a'i ymdrechion i geisio cefnogaeth drawsbleidiol i gynigion Llywodraeth Cymru, sydd wedi cynyddu'r cyfleoedd i bleidiau ac Aelodau gyflwyno cynigion a dechrau trafodaethau ystyrlon ac adeiladol gyda Llywodraeth Cymru. Nodwn ymhellach y cyhoeddwyd Cytundeb Cyllideb ar 9 Rhagfyr gan Brif Weinidog Cymru, ar ôl i'r Pwyllgor gwblhau ei sesiynau tystiolaeth, ac nad ydym wedi cael cyfle i ystyried y newidiadau hyn yn fanwl.[131]

**116.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pwysau sylweddol yn sgil chwyddiant sy'n bodoli o fewn gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig iechyd a llywodraeth leol, a bod hyn, yn ogystal ag effaith y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol i gyflogwyr, yn parhau i gael ei deimlo ar draws nifer o sectorau.

**117.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod dull Ysgrifennydd y Cabinet o gymhwyso cynnydd chwyddiant yn y Gyllideb Ddrafft yn rhoi pwysau sylweddol ar y fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r ffigurau hyn. Roedd hyn yn peri pryder i ni, yn enwedig gan fod y ffigurau ar gyfer chwyddiant cyflog wedi'u cymryd o ragolygon

[131] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ctundeb Cyllideb, 9 Rhagfyr 2025

yr OBR a'r ffigurau datchwyddydd cynnyrch domestig gros o fis Mawrth 2025, ar adeg pan oedd chwyddiant a chynnydd mewn cyflogau eisoes yn gostwng yn arafach na'r disgwyl ym mis Mawrth.

**118.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd gan dystion bod gwahanol feysydd gwasanaeth, yn enwedig y sectorau iechyd a llywodraeth leol, yn profi cyfraddau chwyddiant gwahaniaethol o ran darparu gwasanaethau sy'n uwch na'r cyfraddau hyn, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol ac addysg arbenigol, gyda gwasanaethau sy'n dibynnu ar staff sydd ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw neu sy'n agos atynt yn cael eu heffeithio'n arbennig.

**119.** Mae'r Pwyllgor yn deall pam y defnyddiwyd yr amcangyfrifon hyn ar y pryd, ond rydym yn pryderu bod y rhagdybiaethau hyn yn rhy isel. O ganlyniad, nid ydym yn credu bod y ffigurau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn darparu darlun cyflawn o'r pwysau a deimlir ar draws adrannau'r llywodraeth neu gan wahanol sectorau cyhoeddus datganoledig, a allai arwain at doriadau termau real ar gyfer yr ardaloedd hynny oni bai bod y cyllid yn cynyddu. Credwn fod angen ystyried hyn ymhellach ac rydym yn galw ar Ysgrifennydd y Cabinet i asesu effaith chwyddiant ar y sector cyhoeddus cyn i'r Gyllideb Derfynol gael ei gosod.

**120.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd o ran y gwaith ar y cyd a wnaed fel rhan o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid i ystyried ffyrdd y gellid gwella gweithrediad Fformiwla Barnett. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau o ran dod i gytundeb mewn perthynas â diwygio Barnett gan bedair gwlad y DU ac yn cefnogi Ysgrifennydd y Cabinet i godi materion sydd wedi'u hamlygu o'r blaen gan y Pwyllgor a'r Senedd, megis sut y mae cyllid canlyniadol ar gyfer gwariant ar y seilwaith rheilffyrdd yn berthnasol i Gymru o dan y fformiwla. Mae hwn yn faes o gytundeb cyffredin rhwng y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru ac rydym yn parhau i gefnogi Ysgrifennydd y Cabinet yn ei ymdrechion.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2026 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd y £237 miliwn ychwanegol a dderbyniwyd yn sgil Cyllideb Hydref y DU a'r rhagolygon diwygiedig a'r £380 miliwn a gedwir fel arian heb ei ddyrannu yn cael eu dyrannu ar gyfer 2026-27, yn ogystal ag effaith Cytundeb y Gyllideb a gyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2025.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried amserlennu dadl hirach ar gyfer y ddadl ar y Gyllideb Derfynol o ystyried y gwahaniaethau sylweddol disgwyliedig mewn dyraniadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol eleni.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, fel rhan o'r ystyriaethau ynghylch sut y gwneir dyraniadau ar gam y Gyllideb Derfynol, y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal asesiad o'r pwysau yn sgil chwyddiant sy'n wynebu gwahanol feysydd yn y sectorau cyhoeddus, yn ogystal â ffactorau galw, a chyflwyno'r canfyddiadau hynny ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru asesu effaith twf cyflog a chwyddiant sy'n uwch na'r rhagolygon ar ragdybiaethau cyflogau'r sector cyhoeddus sy'n sail i'r Gyllideb Ddrafft, nodi opsiynau ar gyfer lliniaru'r pwysau hyn, a chyflwyno'r canfyddiadau hynny ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet barhau i fynd ar drywydd diwygio Fformiwla Barnett drwy'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

# 4. Ysgogiadau Cyllidol

**121.** Rhoddodd y cytundeb rhwng llywodraethau Cymru a'r DU ar Fframwaith Cyllidol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru benderfynu a ddylid defnyddio rhagolygon treth yr OBR neu drefniadau rhagfynegi treth annibynnol amgen ar gyfer trethi datganoledig Cymru, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2018.[132] Darparodd yr OBR ragolygon refeniw treth annibynnol yng Nghymru am y tro cyntaf ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 ac mae wedi gwneud hynny bob blwyddyn ers hynny.

**122.** Mae amcangyfrifon o incwm treth datganoledig sydd wedi'u cynnwys yn y Cyllidebau Amlinellol a Drafft Manwl yn seiliedig ar ragolygon economaidd sylfaenol yr OBR o fis Mawrth 2025.[133] Mae'r trethi datganoledig - Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac Ardrethi Annomestig - yn ariannu tua 20 y cant o wariant Llywodraeth Cymru ac, gyda'i gilydd, byddant yn cyfrannu £5.5 biliwn at Gyllideb Cymru yn 2026-27.[134]

**123.** Ar 14 Hydref, cyhoeddodd yr OBR ddiweddariad i'w rhagolygon trethi yng Nghymru gyda rhagolygon newydd ar gyfer derbyniadau treth y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, o'i gymharu â rhagolygon blaenorol ym mis Chwefror.[135] Cyhoeddodd yr OBR ddiweddariad pellach i'w rhagolygon trethi datganoledig adeg Cyllideb y DU ym mis Tachwedd, gan gynnwys cyfraddau treth incwm Cymru.[136]

**124.** Pan ofynnwyd iddo am y prif ysgogwyr y tu ôl i'r newidiadau yn rhagolwg canolog y DU ar gyfer yr economi a chyllid cyhoeddus o'r rhagolwg mis Mawrth i fis Tachwedd, esboniodd yr OBR ei bod wedi israddio ei hamcangyfrifon o dwf cynhyrchiant sylfaenol y DU. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y rhagolygon cyllidol ac mae rhagolygon twf cynnyrch gros dros y pum mlynedd nesaf yn amrywio o 1.8 y cant i tua 1.5 y cant. Nododd hefyd, er bod chwyddiant uwch a thwf cyflog "dipyn cryfach" yn gwrthbwyso rhywfaint o'r effaith ariannol, bod costau llog cynyddol yn ychwanegu pwysau ar gyllid presennol Llywodraeth y DU, gan ychwanegu:

[132] Trysorlys EF, 'The agreement between the Welsh Government and the United Kingdom Government on the Welsh Government's fiscal framework', Rhagfyr 2016
[133] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 'Economic and Fiscal Outlook', Mawrth 2025
[134] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 13
[135] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 'Welsh Taxes Outlook', Hydref 2025
[136] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 'Devolved tax and spending forecasts', Tachwedd 2025

> *"Probably the single most important one in terms of an economic judgment was a somewhat lower rate of growth on average in GDP over the next several years than we thought back in the spring."*[137]

**125.** O ran y rhagolwg ar gyfer derbyniadau treth incwm Cymru, esboniodd yr OBR fod hyn yn seiliedig ar y rhagolwg ledled y DU ar gyfer treth incwm, ac yna bydd yn rhagweld cyfran Cymru o hynny. Aeth ymlaen i ddweud, oherwydd ffactorau sy'n ymwneud â rhagolwg y DU:

> *"… that generates an increase in our forecast for both UK-wide and Welsh income tax revenues over the forecast period. It's also the case that the interaction of earnings and frozen tax thresholds actually generates relatively more revenues in Wales compared to the rest of the UK, which reflects the relative earnings distribution in Wales versus the rest of the UK, essentially because Wales has a higher proportion of earners at lower earning levels. That means that the impact of what we call fiscal drag, of people being pushed into paying tax, or pushed into higher tax bands, is relatively stronger in Wales, compared to the rest of the UK."*[138]

**126.** Ychwanegodd rr OBR:

> *"That drives a positive increase in our estimate of the Welsh net tax position over the forecast, that being the difference between Welsh tax revenues and the block grant adjustment that will be made, and therefore, essentially, reflects Welsh spending power."*[139]

**127.** Fodd bynnag, ychwanegodd yr OBR hefyd:

> *"There is … significant risk around that …. So, if it's either higher or lower, then that will have significant impact, potentially, on those revenues."*[140]

[137] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraffau 12-13
[138] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 30
[139] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 31
[140] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 31

## Risgiau cyllidol i economi'r DU

**128.** Ers mis Gorffennaf 2022, mae'r OBR wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar risgiau cyllidol a chynaliadwyedd. Mae ei phedwerydd adroddiad yn canolbwyntio ar dri risg i'r rhagolygon cyllidol hirdymor dros y 50 mlynedd nesaf, gan gynnwys:

- cynaliadwyedd pensiynau cyhoeddus a phreifat;
- perfformiad mantolen ariannol llywodraeth y DU; a
- costau economaidd a chyllidol posibl difrod a gwaith lliniaru sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.[141]

**129.** Wrth gyflwyno'r risgiau presennol sy'n wynebu cyllid cyhoeddus y DU, mae'r OBR yn nodi:

- bod cyllid cyhoeddus y DU wedi dioddef cyfres o ergydion economaidd byd-eang mawr a'i fod mewn sefyllfa gymharol fregus;
- bod yr ymdrechion i roi cyllid cyhoeddus y DU ar sail fwy cynaliadwy wedi cael llwyddiant cyfyngedig a dros dro yn ystod y blynyddoedd diwethaf;
- canlyniad hynny fu erydiad sylweddol yng ngallu'r DU i ymateb i ergydion yn y dyfodol a phwysau cynyddol ar gyllid cyhoeddus.;
- mae arwyddion bod y raddfa benthyca cyhoeddus yn y DU ac mewn economïau mawr, datblygedig eraill yn rhoi marchnadoedd dyled sofran byd-eang dan bwysau;
- yn erbyn y cefndir domestig a byd-eang mwy heriol hwn, mae graddfa ac amrywiaeth y risgiau i ragolygon cyllidol y DU yn parhau i fod yn frawychus.[142]

**130.** Pan ofynnwyd iddo pa effaith y byddai'r risgiau cyllidol hyn yn ei chael ar Gymru, dywedodd yr OBR fod rhai o'r risgiau hirdymor yn debygol o effeithio ar y DU gyfan a nododd:

> *"Not all the risks are unambiguously to the downside."*[143]

[141] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 'Fiscal risks and sustainabiliy', Gorffennaf 2025
[142] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 'Fiscal risks and sustainability', Gorffennaf 2025, tudalen 8
[143] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 21

**131.** Ar gynhyrchiant, nododd yr OBR y gallai datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial yn y dyfodol helpu i roi hwb i dwf, gan ychwanegu'r hyn a ganlyn ynghylch senario o'r fath:

> *"… we'd be upgrading our forecast on GDP growth in the UK, and that would roll out right across the UK; it would have as much impact on Wales as in other places. It would be very good for revenue and the fiscal situation, including the devolved taxes that come through for Wales."*[144]

**132.** Mae'r OBR hefyd yn darparu manylion am yr hyn a nododd fel risgiau "negyddol", gan gynnwys costau lles cynyddol, pwysau yn sgil cyrraedd targedau gwariant amddiffyn uwch, ac ansicrwydd demograffig fel ffrwythlondeb isel, tueddiadau mewnfudo, a disgwyliad oes, a allai i gyd effeithio ar bensiynau a gwariant a chreu ansicrwydd sylweddol ar gyfer cynllunio cyllidol.[145] Ychwanegodd yr OBR hefyd:

> *"… population structure has a potentially very big impact on the fiscal position, and it's proved hard to make reliable forecasts for many years in the UK on it."*[146]

## Newidiadau Treth y DU

**133.** Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yn ymestyn y drefn rhewi trothwyon treth personol (treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol) am dair blynedd arall, o fis Ebrill 2028 i 2031.[147] Mae'r OBR yn disgwyl y bydd hyn yn codi cyfanswm o £23 biliwn erbyn 2030-31.

**134.** Mae newidiadau treth eraill yng Nghyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU yn cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n ymwneud â chynlluniau aberthu cyflog pensiwn, gordal treth gyngor gwerth uchel (ar gyfer eiddo gwerth dros £2 filiwn), dileu'r terfyn dau blentyn ar Gredyd Cynhwysol, a newidiadau i leihau biliau ynni cartrefi.[148] Bydd biliau ardrethi busnes yn Lloegr yn adlewyrchu ailbrisio gwerthoedd eiddo, a bydd pecyn gwerth £4.3 biliwn dros y tair blynedd nesaf yn arwain at ganlyniadau cyllid i Gymru.[149]

[144] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 21
[145] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraffau 21-25
[146] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 25
[147] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 'Autumn Budget 2025: A summary', 27 Tachwedd 2025
[148] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 'Autumn Budget 2025: A summary', 27 Tachwedd 2025
[149] Trysorlys EF, 'Budget 2025: Strong Foundations, Secure Future', 26 Tachwedd 2025, tudalen 103

**135.** Gwnaeth Cyllideb y DU newidiadau i drethiant y DU sy'n ymwneud ag incwm o asedau, gan greu cyfraddau treth ar wahân ar gyfer incwm eiddo o fis Ebrill 2027, cynyddu'r cyfraddau cyffredin ac uwch o dreth ar incwm difidend 2 bwynt canran o fis Ebrill 2026; a chynyddu'r gyfradd dreth ar incwm cynilo 2 bwynt canran ar draws pob band o fis Ebrill 2027.[150]

**136.** Bydd y newidiadau i gyfraddau incwm eiddo yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â llywodraethau datganoledig Cymru a'r Alban i roi'r gallu iddynt osod cyfraddau incwm eiddo yn unol â'u pwerau treth incwm cyfredol yn eu fframweithiau cyllidol. Bydd y newidiadau i gyfraddau difidend ac incwm cynilion yn berthnasol ledled y DU gan fod y cyfraddau hyn wedi'u cadw.[151]

**137.** Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet y datblygiad hwn fel newid tuag at drethu incwm o gyfoeth yn hytrach nag incwm o waith. O ran y broses ar gyfer cytuno ar ei weithredu yng Nghymru, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n "broses dau gam", gan nodi:

> *"There will need to be a further set of discussions with the UK Government as to exactly the proposal that was outlined in the budget, how they see that operating. We understand that those changes will be reflected in the finance Bill in front of the House of Commons, and because the change is to the Government of Wales Act 2006, that will require a legislative consent motion."*[152]

**138.** Ychwanegodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"We've only had very preliminary discussions at official level about exactly how this would work, and there haven't been any ministerial discussions yet. The first we heard about this was on Wednesday when it was announced by the Chancellor. As the Cabinet Secretary said, the legislation around income tax and what's devolved and what's not devolved is UK parliamentary legislation, and so we would expect that change to be enacted in the forthcoming finance Bill. But, yes, the details are a bit*

[150] Trysorlys EF, 'Budget 2025 Document', 26 Tachwedd 2025, Adran 3.2
[151] Trysorlys EF, 'Budget 2025 Document', 26 Tachwedd 2025, Adran 3.2
[152] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 78

*limited at the moment, and we do need to get a bit further into it with the UK Government."*[153]

**139.** O ran amserlenni, esboniodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod y Bil cyllid yn tueddu i fod yn broses ddeddfwriaethol gyflym iawn ac ychwanegodd:

> *"I think the intention is that this comes into effect from the tax year beginning April 2027 … But we would expect the legislation to come forward, I guess, possibly even before Christmas, but certainly in the next month or two."*[154]

## Trethi Datganoledig

### Agweddau'r Cyhoedd

**140.** Fel rhan o waith craffu blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion grwpiau ffocws i gasglu barn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd trafodaethau ynghylch trethiant datganoledig yn rhan annatod o'r sesiynau hynny.[155]

**141.** O ran a oedd yn well gan y cyfranogwyr weld cynnydd yn y cyllid sydd ar gael, gostyngiad ynddo, neu ei gadw fel y mae, pwysleisiodd nifer ohonynt yr angen am well rheolaeth a dyraniad o'r cronfeydd presennol, gyda rhai yn mynegi diffyg ymddiriedaeth yng ngallu Llywodraeth Cymru i wario arian yn effeithiol, a dangos effaith ei gwariant:

> *"Mewn gwirionedd, nid yw'n ymwneud ag a ydych chi'n codi neu'n gostwng trethi neu'n benthyca; mae'n ymwneud â sut ry'ch chi'n gwario'r arian sy eisoes gyda chi."* ***Cyfranogwr â phrofiad o ddigartrefedd***[156]

**142.** Roedd rhai grwpiau o blaid codi trethi, ond dim ond i'r rheini a allai fforddio hynny ac os caent eu sicrhau y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei wario'n dda.

> *"Fe fyddwn i'n hapus i weld cynnydd bach mewn trethiant ledled y genedl, ond dw i'n meddwl ei fod yn dibynnu i raddau*

[153] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 82
[154] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 84
[155] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Atodiad 2: Canfyddiadau ymgysylltu â dinasyddion, Gorffennaf 2025
[156] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Atodiad 2: Canfyddiadau ymgysylltu â dinasyddion, Gorffennaf 2025, tudalen 22

> *helaeth ar sut mae'r cyllid presennol yn cael ei ddefnyddio. Mae 'na lawer o wastraff neu gamreoli neu gamddefnydd … yn y bôn, mae'n dibynnu ar 22 wario'n dda, mewn gwirionedd, nid gwario mwy."* ***Cyfranogwr o'r sector addysg***[157]

**143.** Mynegodd y cyfranogwyr ddiffyg ymddiriedaeth, hefyd, yn y ffordd y byddai'r incwm ychwanegol yn cael ei wario:

> *"Yn blwmp ac yn blaen, all pobol ddim fforddio unrhyw ddidyniadau pellach o'u cyflogau, yn enwedig pan dy'n nhw ddim ymddiried yn y Llywodraeth i'w wario'n iawn, neu i'w roi yn y mannau cywir. Does dim tryloywder; dy'n ni ddim yn gwybod i ble mae'r arian yn mynd."* ***Cyfranogwr â phrofiad o ddigartrefedd***[158]

**144.** Nid oedd cyfranogwr arall yn cytuno â chodi trethi, o ystyried cynnydd yn y costau byw:

> *"Dydw i ddim yn meddwl y dylen ni godi trethi ymhellach. Mae costau byw mor uchel, fel na all pobol fforddio gwario mwy, ac mae bwyd yn ddrud. Allwn ni ddim parhau i gynyddu trethi pan na all pobol eu fforddio."* ***Cyfranogwr â phrofiad o ddigartrefedd***[159]

## Cyfradd Treth Incwm Cymru

**145.** Cyfraddau treth incwm Cymru yw'r ffynhonnell fwyaf arwyddocaol o refeniw treth a reolir gan Lywodraeth Cymru. Mae adroddiad polisi treth Llywodraeth Cymru yn nodi, yn seiliedig ar ragolwg mis Mawrth, y rhagwelir y bydd refeniw'r cyfraddau yn £3.754 biliwn yn 2026-27. Mae hyn £313 miliwn yn uwch na'r addasiad grant bloc cyfatebol.[160]

[157] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Atodiad 2: Canfyddiadau ymgysylltu â dinasyddion, Gorffennaf 2025, tudalen 22
[158] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Atodiad 2: Canfyddiadau ymgysylltu â dinasyddion, Gorffennaf 2025, tudalen 24
[159] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Atodiad 2: Canfyddiadau ymgysylltu â dinasyddion, Gorffennaf 2025, tudalen 23
[160] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Bolisi Trethi 2025, Hydref 2025

**146.** Darparodd rhagolygon treth a gwariant datganoledig Tachwedd 2025 yr OBR ragolwg wedi'i ddiweddaru o £3.804 biliwn ar gyfer 2026-27, sef cynnydd o £50 miliwn ar ragolwg mis Mawrth.[161]

**147.** Esboniodd yr OBR ei bod yn seilio ei rhagolwg treth incwm yng Nghymru ar ragolwg y DU gyfan, ac ychwanegodd:

> *"… we make estimates of the Welsh share of that, and there is… a lag between the actual outturn on Welsh income tax receipts, which does mean that we have to base the forecast on data from a couple of years ago."*[162]

**148.** Fodd bynnag, esboniodd yr OBR hefyd y camau diweddar yr oedd wedi'u cymryd i wella ei ragolwg Cymreig:

> *"… we do now do a lot with HMRC and with our colleagues in the Welsh Government to make use of more up-to-date data that allows us to refine our view of the outturn, and we feel this does give us a much stronger view on where we are now as the basis for the forecast. So, we make use of HMRC's much more up-to-date real-time information, and we've developed use of that, actually this time, in this forecast, by making use of some distributional data within that, which allows us to look more closely at the distribution of income by the different bands within the Welsh tax structure. So, that's been a helpful advance."*[163]

**149.** Dywedodd yr OBR hefyd wrth y Pwyllgor ei bod yn gallu darparu mwy o fanylion yn ei rhagolwg diweddaraf ar y "sefyllfa dreth net", gan ychwanegu:

> *"… it is, really, the measure of the impact of devolved taxes on Welsh budget spending power, and being able to provide more transparency on that is something we've put a lot of focus on and we're aiming to build that up more in the future."*[164]

[161] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 'Devolved tax and spending forecasts', Tachwedd 2025, tudalen 15
[162] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 34
[163] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 34
[164] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 35

## Treth Trafodiadau Tir

**150.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dangos amcangyfrif diweddaraf o £401 miliwn o refeniw o'r dreth trafodiadau tir ac nid oes unrhyw newidiadau i'r cyfraddau treth na'r trothwyon yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno pecyn o fesurau sy'n ymwneud â'r dreth. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau newydd i sicrhau cydraddoldeb mewn atebolrwydd treth rhwng trafodion annedd lluosog ac annedd sengl, cynnydd yn yr isafswm cyfradd dreth ar gyfer trafodion anheddau lluosog defnydd cymysg gyda rhyddhad anheddau lluosog o rhwng 1 y cant a 3 y cant, ac ad-daliad newydd o gyfraddau preswyl uwch ar gyfer eiddo sydd newydd ei brynu yng Nghynllun Prydlesu Cymru.[165]

**151.** O ran rhagolygon, nododd cyhoeddiad rhagolygon trethi Cymru yr OBR ym mis Hydref 2025 yr hyn a ganlyn:

- mae'r rhagolwg ar gyfer prif ardrethi preswyl wedi'i ddiwygio i fyny o £20.5 miliwn (8.9 y cant) y flwyddyn ar gyfartaledd. Roedd y derbyniadau prif ardrethi preswyl yn 2024-25 £11.0 miliwn yn uwch na'r disgwyl yn y rhagolwg ym mis Chwefror, ynghyd â rhagolwg uwch ar gyfer prisiau tai o fis Mawrth 2025.

- mae'r rhagolwg ar gyfer cyfraddau uwch ar eiddo preswyl ychwanegol wedi'i ddiwygio i lawr £7.1 miliwn (7.1 y cant) y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae hyn yn adlewyrchu derbyniadau gwannach na'r disgwyl yn flaenorol.

- mae'r rhagolwg ar gyfer eiddo masnachol wedi'i ddiwygio i fyny £11.8 miliwn (14.2 y cant) y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae hyn yn cael ei yrru gan dderbyniadau alldro uwch na'r disgwyl ers ein rhagolwg ym mis Chwefror.[166]

**152.** Roedd rhagolygon treth a gwariant datganoledig Tachwedd 2025 yr OBR yn darparu rhagolwg wedi'i ddiweddaru o £400 miliwn ar gyfer 2026-27, gostyngiad o £1 miliwn ar ffigur mis Hydref.[167] Mae hefyd yn rhagweld y disgwylir i dderbyniadau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir gynyddu £29 miliwn (9.2 y cant) y flwyddyn ar gyfartaledd yn y cyfnod hyd at 2030-31.[168]

[165] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, tudalen 14
[166] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 'Welsh Taxes Outlook', Hydref 2025, tudalen 23
[167] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 'Devolved tax and spending forecasts', Tachwedd 2025, tudalen 23
[168] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 'Devolved tax and spending forecasts', Tachwedd 2025, tudalen 15

**153.** Pan ofynnwyd i'r OBR esbonio'r prif resymau dros y cynnydd hwn, dywedodd:

> *"In terms of residential property tax receipts in Wales, we have seen stronger growth in receipts this year, and therefore the forecast is slightly higher across the whole of the medium term because of that. But that strength is offset in the medium term because we have also reduced our assumption around the growth of property transactions … Therefore, overall, the forecast is relatively unchanged, because those two things broadly offset."*[169]

**154.** Ychwanegodd yr OBR:

> *"…we look at what has happened to house price growth and transactions in Wales compared to the rest of the UK, and see whether there is any evidence that we should make different assumptions for Wales compared to the rest of the UK. We did that again this time, and couldn't see any evidence that would suggest we should do that, because … if you look over the past, they do move broadly together."*[170]

**155.** O ran a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried gwneud newidiadau i'r Dreth Trafodiadau Tir yn ystod cylch y gyllideb hon, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

> *"The Chancellor didn't make changes to stamp duty land tax in England and I'm therefore not in the position that I was anxious about when I last appeared in front of the committee that we may need to take rapid action to protect the Welsh position. I'll continue to consider what we should do there, but I can do it in slightly slower time and I'll make sure that we've resolved it in time for the final budget."*[171]

### Treth Gwarediadau Tirlenwi

**156.** Mae Adroddiad Polisi Treth Cymru 2025 yn nodi y bydd cyfraddau arfaethedig y dreth gwarediadau tirlenwi'n cael eu cyhoeddi yn dilyn Cyllideb y DU.[172] Gwnaeth rhagolygon treth a gwariant datganoledig Tachwedd 2025 yr OBR

[169] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 45
[170] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 46
[171] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 70
[172] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Bolisi Trethi 2025, Hydref 2025, tudalen 8

ddarparu rhagolwg o £35 miliwn o refeniw treth y dreth gwarediadau tirlenwi ar gyfer 2026-27.[173]

**157.** Yn dilyn cyfnod lle'r oedd newidiadau yng nghyfraddau safonol Cymru a chyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi is yn cyfateb i'r rhai yn Lloegr[174], cafwyd newidiadau yn y Gyllideb Ddrafft flaenorol ar gyfer 2025-26. Roedd hyn yn golygu cynnydd i'r gyfradd is, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, o £3.30 i £6.30 y dunnell (£4.05 yw'r gyfradd yn Lloegr).[175]

**158.** Cynyddodd y gyfradd ar gyfer Cymru yn unig ar gyfer gwarediadau heb awdurdod i £189.25 y dunnell, i barhau yn 150 y cant o'r gyfradd safonol.[176]

**159.** Tynnodd adroddiad rhagolygon trethi Cymru 2024 yr OBR sylw at y ffaith bod gwastraff o Loegr yn ddiweddar wedi cyfrif am 16 y cant o'r gwastraff cyffredinol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru ac o ystyried y gwahaniaeth rhwng cyfradd is Cymru a Lloegr, bydd rhywfaint o wastraff i'w ddargyfeirio dros y ffin. Nododd yr OBR fod hyn a rheoliadau ailgylchu busnes newydd yn risg i'w rhagolwg.[177]

**160.** Pan ofynnwyd i'r OBR a oedd wedi sylwi ar unrhyw wahaniaeth mewn gweithgarwch gwastraff rhwng Cymru a Lloegr ers i gyfraddau is y dreth gwarediadau tirlenwi wyro o rai Lloegr ym mis Ebrill 2025, eglurodd yr OBR nad oedd wedi gweld unrhyw newid amlwg o ganlyniad i'r newid polisi hwnnw.[178]

**161.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n ystyried gwneud newidiadau i'r dreth gwarediadau tirlenwi cyn y Gyllideb Derfynol, oherwydd bod y Canghellor wedi gwneud newidiadau yn y gyllideb i'r gyfradd is yn Lloegr, gan esbonio:

> *"As you know, landfill disposal sites are generally quite close to the border and there's always an anxiety about waste tourism if it is significantly cheaper for people sending things to landfill to come to Wales rather than England. I'll be looking at that."*[179]

[173] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 'Devolved tax and spending forecasts', Tachwedd 2025, tudalen 27
[174] CThEF, 'Landfill Tax: increase in rates', Hydref 2024
[175] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Bolisi Trethi 2025, Hydref 2025, tudalen 12
[176] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Bolisi Trethi 2025, Hydref 2025, tudalen 12
[177] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg Trethi Cymru, Rhagfyr 2024, tudalen 49
[178] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 51
[179] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 70

**162.** Gosododd Ysgrifennydd y Cabinet y Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2)[180] a'r Memorandwm Esboniadol[181] sy'n cyd-fynd ag ef ar 9 Rhagfyr 2025. Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi, a fydd yn berthnasol i warediadau trethadwy a wneir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2026. Ystyriwyd y rhain gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2025.[182]

## Ardrethi Annomestig

**163.** Ni fydd cefnogaeth ar gyfer y sector manwerthu, hamdden a lletygarwch gydag ardrethi annomestig yn cael ei barhau i mewn i 2026-27.[183] Mae'r Adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft yn nodi y bydd manylion yn rhan o'r Gyllideb Derfynol:

> *"Bydd trefniadau ardrethi annomestig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yn cael eu pennu fel rhan o'r paratoadau ar gyfer ein Cyllideb Derfynol. Bydd hyn yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol yn dilyn Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU a chanlyniad yr ailbrisio ardrethi annomestig nesaf, a fydd hefyd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026."*[184]

**164.** Er nad yw'n nodi'r polisi ardrethi annomestig ar gyfer 2026-27, mae naratif yr Amlinelliad o'r Gyllideb Ddrafft yn nodi na fyddai Llywodraeth Cymru yn ymestyn y rhyddhad ardrethi busnes presennol o 40 y cant ar gyfer manwerthu, hamdden a lletygarwch a'i bod yn bwriadu cyflwyno lluosydd is ar gyfer manwerthwyr bach a chanolig.[185]

**165.** Fel y nodir ym Mhennod 3, o'r £186 miliwn ychwanegol o refeniw y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn o ganlyniad i Gyllideb yr Hydref y DU, mae tua 60 y cant yn ymwneud â phenderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno cynllun rhyddhad trosiannol i gyd-fynd ag ailbrisio ardrethi annomestig yn Lloegr.

[180] Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2025
[181] Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2025, Memorandwm Esboniadol, 9 Rhagfyr 2025
[182] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 11 Rhagfyr 2025
[183] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, tudalen 17
[184] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, tudalen 16
[185] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, tudalen 16

**166.** Pan ofynnwyd iddo a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio'r cronfeydd hyn i ailadrodd cynllun Lloegr yng Nghymru, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"It's never my starting point that we should simply replicate in Wales what has happened in England. The position in England is a good deal more complicated than it is in Wales because of previous decisions that they made at the time of their last revaluation. There are still properties in England that are paying full non-domestic rates as a result of the revaluation three years ago. We are in a different position here in Wales."*[186]

**167.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"My starting point is always to try to design a scheme that meets the needs of Welsh businesses. There are choices to be made in that, the level of help and the scope of help, and I'll discuss all that tomorrow with colleagues from other parties."*[187]

**168.** Cododd cyfranogwyr yn sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid y Pwyllgor bryderon am effaith penderfyniad Llywodraeth Cymru i leihau rhyddhad ardrethi busnes ar gyfer manwerthu, hamdden a lletygarwch o 75 y cant i 40 y cant ar gyfer 2024-25 a'i ymestyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, gyda mwy o fygythiad y bydd busnesau llai a'r rhai a oedd eisoes yn wynebu anawsterau ariannol yn cau.[188]

**169.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach:

> *"… there is a huge area of concern with business rates, in that the retail, hospitality and leisure relief is going to be removed as of April. That's £58 million that is going to be taken out of that budget that will come from businesses from April onwards. To some extent, the Welsh Government is going to be mitigating that with the new small retail multiplier that was mentioned earlier on, and that's really good news. We have no detail on what that looks like in monetary terms yet, so it's a little bit of an unknown and creates uncertainty."*[189]

[186] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 70
[187] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 70
[188] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, Gorffennaf 2025, tudalen 13
[189] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 122.

**170.** Ychwanegodd yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth yn ei hymateb i'r ymgynghoriad y byddai'r newid hwn yn cael effaith sylweddol:

> *"Retail, leisure and hospitality businesses get 40% off, up to £110,000 per business. For GMVs, however, this single measure of leaving rate relief at 40% is putting the sector, as an entire network, into significant financial difficulty."*[190]

**171.** Mewn ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"There are many ways in which the budget attempts to help those sectors—in skills, in investment and in innovation. The thing that is different in this year's budget … is the use of a differential multiplier. We've not had this power up until this year."*[191]

**172.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fwriad i gyflwyno lluosydd gwahaniaethol, sy'n lluosydd is, ar gyfer manwerthu'r stryd fawr, gan nodi:

> *"I know that others have made the case for using that power more widely for hospitality and leisure as well. I think there are two reasons why I'm not going to propose doing that for next year. The first is that I think you can differentiate these sectors. High-street retail faces a structural challenge from online retail. High-street retailers operate in relatively large premises on the high street itself, and business rates reflect that, whereas online retailers operate from smaller premises with different sorts of overheads. The playing field has become more skewed over recent years, and I want to try to have a more level playing field that helps shops on the high street to be able to thrive."*[192]

**173.** Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud:

> *"The challenges facing hospitality and leisure I don't think are structural in the same sense. They are cyclical and they are the result of large-scale impacts from COVID. That ought to rectify itself over time and ought to be reflected in revaluation. The way to make the playing field level there is through the three-*

[190] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth
[191] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 148
[192] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraffau 148-149

> *year revaluation exercise. That doesn't help the structural challenge faced by high-street retail, which is why I've made a particular effort to support them in the budget."*[193]

**174.** Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"I think the second and subsidiary reason is that this is a new power and we're using it for the first time. I want to make sure that the machinery works, and … if you're making policy changes in productivity areas, you need to make sure that you've got the data to back up what you're doing to see whether this is an effective policy or not."*[194]

**175.** Ar 3 Rhagfyr, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet gefnogaeth ardrethi annomestig ar gyfer 2026-27, ochr yn ochr â diwygiadau mawr, gan gynnwys lluosyddion llai, cyfradd newydd ar gyfer y sector manwerthu, ychwanegiad ymylol ar gyfer eiddo mawr, a rhyddhad trosiannol i leddfu effeithiau ailbrisio.[195]

## Ystadegau

**176.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Pwyllgor yn ystod y gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26[196] ynghylch ansawdd yr allbynnau economaidd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol:

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny ac yn y cyfamser mae'n lledaenu data o ystod o ffynonellau i ddarparu'r wybodaeth orau sydd ar gael ar y farchnad lafur yng Nghymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag OBR ar fethodolegau a ragwelir a'r ffynonellau data sydd ar gael. Mae'r Arolwg o'r Llafurlu yn fewnbwn pwysig i ragolwg macroeconomaidd yr OBR, er hynny, nid yw'r rhagolygon treth ddatganoledig yn defnyddio gwybodaeth yr Arolwg yn uniongyrchol."*[197]

---

[193] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 150
[194] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 151
[195] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2026-27, 3 Rhagfyr 2025
[196] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Chwefror 2025, Argymhelliad 17
[197] Llywodraeth Cymru, Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Mawrth 2025

**177.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Swyddfa'r Cabinet, Aelodau Seneddol (ASau), a Banc Lloegr wedi craffu ar ystadegau economaidd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch eu hansawdd.[198] Oherwydd y pryderon hyn, cynhaliodd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau adolygiad systemig o ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.[199] Mae'r adolygiad hwn yn trafod cyfraddau ymateb ar gyfer arolygon amrywiol, effeithiau posibl ar yr arolygon hynny, ac awgrymiadau ar gyfer gwella.

**178.** Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 12 Tachwedd ei bod yn bwriadu culhau ffocws ei chyhoeddiadau i gefnogi'r adferiad yn ansawdd ystadegau economaidd a chymdeithasol craidd. Mae'r newid hwn yn cynnwys ailystyried y portffolio ystadegau is-genedlaethol, gan gynnwys rhinweddau cynnal yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Mae'r Swyddfa yn dweud y bydd yn ymgysylltu ag adrannau datganoledig perthnasol y Llywodraeth, yn enwedig lle y mae cysylltiad agos â gwaith ystadegol a lle y gallai gwaith partneriaeth fod yn bosibl.[200]

**179.** Trafododd Fforwm Cynhyrchiant Cymru gyda'r Pwyllgor bwysigrwydd data sy'n benodol i Gymru er mwyn gallu gwneud cymariaethau rhwng ardaloedd a monitro a gwerthuso polisïau, gan nodi:

> *"… the ONS has done a really large body of work trying to improve UK public sector productivity measurement. Within those statistics, we get the UK aggregates, but then, when you try to break it down, you always see that it's England, and there are no comparable Wales figures."*[201]

**180.** Yn ei dystiolaeth, cyfeiriodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol at y gwendidau yn Ystadegau Marchnad Lafur y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'i phenderfyniad i leihau ffocws ar ystadegau is-genedlaethol, gan ychwanegu:

> *"… data that are available to support devolved Governments and local governments in various parts of Britain are not brilliant. And, on top of that, when this comes in, it is perhaps even more important, because the UK average is not going to*

[198] Adroddiad Annibynnol y Cabinet ac Awdurdod Ystadegau'r DU: 'Joint UK Statistics Authority – Cabinet Office Response to the review by Sir Robert Devereux', 26 Mehefin 2025
[199] Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, 'Systemic Review of ONS Economic Statistics', 7 Ebrill 2025
[200] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'ONS pledges "quality over quantity" with key statistics prioritised', 12 Tachwedd 2025
[201] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 50

> *provide that much information for the Welsh Parliament to work towards the improvement of the lives, living standards, of the Welsh people. So, somebody needs to do it. I think, certainly, what is important is that not only should there be some provision in the budget to go and spend money on making the lives of people better, but also to collect information on what has been done and what the outcomes are."*[202]

**181.** Yn ei thystiolaeth, eglurodd yr OBR:

> *"… part of this relates to the fact that the ONS have made a decision to focus in on ensuring the quality of some of their key economic statistics, where we all know they have been having some issues in the past, most notably on the labour market side".*[203]

**182.** Ychwanegodd yr OBR yr hyn a ganlyn am y Swyddfa Ystadegau Gwladol:

> *"…that is a really important data source for us, and it is very important in our construction of the economic forecast … and also the income tax forecast at the UK level.*[204]

**183.** Nododd yr OBR nad oedd yn ymwybodol, ar hyn o bryd, o unrhyw faterion o ran y meysydd lle y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi dweud y bydd yn rhaid iddi eu dadflaenoriaethu, ond nododd, er mwyn caniatáu iddi ganolbwyntio ar y meysydd hynny, y byddai hynny'n peri goblygiadau i ragolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o drethi Cymru, ond y byddai angen ystyried hynny ymhellach.[205]

**184.** Pan ofynnwyd iddo a oedd yn pryderu y gallai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod yn lleihau ei ffocws ar ystadegau is-genedlaethol i ganolbwyntio ar wella ansawdd ystadegau economaidd ledled y DU, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"… I discussed all of this recently with our own chief statistical officer. I welcome the fact that there is going to be an effort to improve the quality of UK-wide economic statistics. We've suffered in Wales from the deterioration in the quality of those statistics … So, I do welcome the fact that they're going to put*

[202] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 14
[203] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 36
[204] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 36
[205] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 36

> *renewed effort into correcting the difficulties that have been experienced over the last couple of years. But, from the Welsh Government's point of view, that really cannot be at the expense of subnational data. There are some very important things that the ONS provides that are specific to Wales."*[206]

**185.** Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd:

> *"… what I agreed with the chief statistician was that the Permanent Secretary will write to the ONS on our behalf emphasising the importance of subnational data, including the extensive and important use we make of the annual population survey in Wales. There is to be a meeting that brings the four nations together, an inter-administration committee, where the chief statisticians and the national statistician come together. That is meeting in January and this matter—the ONS prioritisation exercise—will be discussed there."*[207]

## Benthyca a Chronfa Cymru

**186.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn amlinellu nad oes unrhyw arian yn cael ei dynnu o Gronfa Cymru a bod gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i fenthyca'r £150 miliwn o gyllid cyfalaf llawn sydd ar gael, ar adeg cyhoeddi'r Gyllideb Alldro, ar gyfer 2026-27.[208]

**187.** Dywedodd Dadansoddi Cyllid Cymru wrth y Pwyllgor:

> *"… the existing budget management tools are just not sufficient for the scale of the changes that are now having to be managed by the Government in-year. I think I'd also be wanting to look at capital borrowing powers, which have not increased in line with quite significant inflation, particularly on the construction side as well."*[209]

**188.** Ychwanegodd Dadansoddi Cyllid Cymru:

---

[206] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 105
[207] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 106
[208] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 18
[209] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 133

> *"further tax devolution might actually be beneficial, moving towards the Scottish system of devolving more in terms of income taxes, now that we've experienced tax devolution".*[210]

**189.** Pan ofynnwyd ym mis Hydref a oedd gan Ysgrifennydd y Cabinet unrhyw drafodaethau pellach á'r Trysorlys ar roi mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru i gael mynediad at Gronfa Cymru a benthyca, dywedodd:

> *"It has been helpful to us to have unfettered access to the Welsh reserve this year, and I will certainly be saying to the Chief Secretary that it would be a retrograde step if we return next year to the levels of micromanagement of money, which is actually the Welsh Government's money, by the Treasury."*[211]

**190.** O ran a ddylid archwilio newidiadau i bwerau benthyca Llywodraeth Cymru, nododd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid:

> *"… I think there's a case for all of the devolved Governments, not just Wales, to have some discretionary borrowing powers for day-to-day spending."*[212]

**191.** Nododd dogfen Cyllideb yr Hydref y DU:

> *"To enable the Welsh Government to support people, businesses and public services in Wales, in 2026-27 the Welsh Government's annual and cumulative capital borrowing limits, overall Wales Reserve limit and annual RDEL and CDEL drawdown limits will all be increased by 10%. From 2027-28, each of those limits will be uprated annually in line with inflation. The government will also provide a temporary waiver of the Wales Reserve drawdown limits in 2026-27."*[213]

**192.** Cyfrifodd Dadansoddi Cyllid Cymru ym mis Tachwedd, er mwyn cyd-fynd â chwyddiant gan ddefnyddio'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros o rhwng 2018-19 a 2026-27, y byddai angen i'r terfynau hyn gynyddu rhwng 31 y cant a 32 y cant.[214]

---

210 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 142
211 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 55
212 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 144
213 Trysorlyw EF, 'Budget 2025: Strong Foundations, Secure Future', 26 Tachwedd 2025, tudalen 106
214 Dadansoddi Cyllid Cymru, 'A Decade On: Reforming Wales' Fiscal Framework', 5 Tachwedd 2025, tudalen 17

**193.** Pan ofynnwyd iddo sut y cyrhaeddwyd y cynnydd o 10 y cant gyda'r Trysorlys, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai wedi gwneud achos dros gynnydd uwch na 10 y cant. Ond ychwanegodd:

> *"I think what that 10 per cent uplift does, though, is put us in the same position as Scotland".*[215]

**194.** Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud:

> *"… I do think that the biggest gain, and the really important gain, is the agreement that, from now on, that figure will be increased every year in line with inflation. The Scottish figure is uprated every year by the GDP deflator, and we would expect that to happen here in Wales. That's the major gain, because it stops the problem from recurring, because we've had a year-on-year erosion of the real value of the figures in the 2016 agreement. We've got an inroad into the existing gap and we've got a guarantee that the gap won't get bigger in future."*[216]

## Barn y Pwyllgor

**195.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth gyfyngedig ar ragolygon treth datganoledig a gynhwyswyd yn y Gyllideb Ddrafft, o ystyried ei bod wedi'i chyhoeddi cyn Cyllideb yr Hydref y DU. Nodwn ymhellach fod rhagolygon wedi'u diweddaru wedi'u darparu yn y rhagolygon treth a gwariant datganoledig a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb yr Hydref y DU ym mis Tachwedd ac y bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

**196.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r OBR am ymddangos gerbron y Pwyllgor mor fuan ar ôl Cyllideb yr Hydref y DU, ac er gwaethaf y pwysau arni yng ngoleuni'r ymchwiliad i'r camgymeriad a arweiniodd at gyhoeddi'r rhagolygon sy'n ymwneud â Chyllideb yr Hydref y DU yn gynnar.

**197.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r newidiadau y mae'r OBR wedi'u gwneud i'w allbynnau sy'n dangos newidiadau yn sefyllfa treth net Cymru o'i gymharu â rhagolygon mis Mawrth. Credwn fod y dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddangos effaith ariannol gadarnhaol datganoli treth a hefyd i ddeall sut y mae "llusgo cyllidol" yn gwella'r refeniw treth enwol a chymharol sydd ar gael i Lywodraeth

[215] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraffau 93-94
[216] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraffau 93-94

Cymru. Bydd hyn yr un mor bwysig oherwydd y gall treth incwm a pholisïau eraill newid yn y dyfodol ac rydym yn galw am y dull hwn i barhau.

**198.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Cyllideb yr Hydref y DU wedi cyfeirio at dreth incwm eiddo, gan ddechrau ym mis Ebrill 2027. Rydym yn croesawu bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ymgysylltu â llywodraethau datganoledig i alluogi cyfraddau incwm eiddo i gael eu gosod yn unol â'r pwerau treth incwm presennol. Rydym yn disgwyl y bydd mwy o fanylion yn cael eu darparu wrth i'r Bil Cyllid fynd rhagddo trwy Senedd y DU ac y bydd hyn yn sbarduno'r angen am gynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd. Bydd hyn yn darparu cyfleoedd ychwanegol i graffu ar y materion hyn yn fanylach ac rydym yn galw ar Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu diweddariadau pellach ar amserlenni tebygol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**199.** Mae'r Pwyllgor o'r farn, er bod y polisi o rewi trothwyon treth yn fuddiol i gyfanswm y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, ei fod yn arwain at fwy o bobl ar incwm cymharol is yn talu cyfran uwch o'u cyflogau mewn treth incwm. Casglwyd barn ar y mater hwn fel rhan o waith ymgysylltu'r Pwyllgor yn yr haf ac rydym yn cydnabod yr heriau y gall baich treth uwch eu hachosi i unigolion a sefydliadau, yn enwedig yn ystod cyfnod sydd wedi gweld cynnydd mawr mewn costau byw.

**200.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod tua 60 y cant o'r refeniw ychwanegol mewn cyllid canlyniadol o Gyllideb yr Hydref y DU yn gysylltiedig ag ailbrisio polisi ardrethi annomestig yn Lloegr. Rydym yn nodi nad yw Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu ailadrodd cynllun Lloegr ac yn cydnabod bod effaith yr ailbrisio sydd ar ddod yng Nghymru yn debygol o fod yn llai arwyddocaol nag yn Lloegr lle y mae ailbrisio yn hir ddisgwyliedig.

**201.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi na fydd rhyddhad cyfraddau manwerthu, hamdden a lletygarwch yn parhau i mewn i 2026-27, ac yn rhannu pryderon rhanddeiliaid am ei effaith ar fusnesau llai yn benodol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu bod gan Lywodraeth Cymru bellach bwerau i gymhwyso lluosydd ardrethi annomestig gwahaniaethol. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn y dull a amlinellwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet o gyflwyno lluosydd is i gefnogi manwerthu'r stryd fawr. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol, fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod ansicrwydd ynglŷn â'i effaith, yn enwedig o ystyried ei fod yn eithrio busnesau lletygarwch a hamdden. Credwn fod angen eglurder a gwerthusiad sy'n seiliedig ar ddata o'r mesurau hyn i sicrhau tegwch ac i sicrhau eu bod yn bodloni'r canlyniadau arfaethedig.

**202.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i nodi pryderon ynghylch ansawdd a dibynadwyedd ystadegau economaidd y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rydym hefyd yn nodi tystiolaeth ar ba mor hanfodol yw data i ddeall perfformiad economaidd yng Nghymru, yn enwedig newidiadau mewn twf cynhyrchiant, yn ogystal â deall effaith penderfyniadau cyllidebol, trethiant, buddsoddi a pholisïau eraill (ystyrir materion sy'n ymwneud â chynhyrchiant yn fanylach ym Mhennod 7).

**203.** Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus y gallai bylchau ymddangos o fewn data Cymru wrth i'r Swyddfa leihau ei ffocws ar ystadegau datganoledig ac yn credu y gallai hyn rwystro'r gwaith o werthuso canlyniadau yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Swyddfa i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ac yn defnyddio ffynonellau data amgen yn y cyfamser. Mae hefyd yn galonogol y gall yr OBR bellach gael mynediad at ystod o ddata i lywio ei rhagolygon datganoledig ac yn arbennig ystadegau amser real cynllun Talu Wrth Ennill Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CthEF), ac yn croesawu bod gan y rhain statws ystadegau cenedlaethol erbyn hyn. Roedd y Pwyllgor hefyd yn falch o glywed bod cyfarfodydd rhwng prif ystadegwyr datganoledig a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'u cynllunio. Rydym yn annog y gwaith hwn i symud ymlaen yn gyflym er mwyn sicrhau bod data penodol i Gymru yn cael eu cynnal a'u gwella.

**204.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyhoeddiad yng Nghyllideb yr Hydref y DU bod y terfynau benthyca cyfalaf blynyddol a chronnus a'r terfyn cyffredinol ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru a therfynau tynnu i lawr refeniw a chyfalaf blynyddol yn cael eu cynyddu 10 y cant ar gyfer 2026-27. Rydym hefyd yn croesawu y ffaith y bydd y terfynau hyn yn cael eu huwchraddio'n flynyddol yn unol â chwyddiant o 2027-28 ymlaen. Rydym hefyd yn nodi awgrym Ysgrifennydd y Cabinet y gallai'r ffigur o 10 y cant fod wedi cael ei benderfynu i sicrhau cydraddoldeb â newidiadau i'r Fframwaith Cyllidol yn yr Alban pan gafodd ei addasu yn yr un modd.

**205.** Mae hwn yn faes o ddiddordeb hirsefydlog i'r Pwyllgor, ac rydym yn cymeradwyo'r cynnydd yn y maes hwn, yn enwedig o ystyried bod Llywodraeth Cymru yn hanesyddol wedi cael pwerau benthyca cymharol gyfyngedig o gymharu â chymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**206.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn gresynu nad yw'r terfynau hyn wedi'u cynyddu yn unol â'r newidiadau yn y datchwyddydd cynnyrch domestig gros rhwng 2018-19 a 2026-27, a fyddai wedi gweld cynnydd o oddeutu 30 y cant. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu bod y ffigur o 10 y cant yn ymddangos fel pe bai wedi cael ei osod heb fawr o sylw i farn Llywodraeth Cymru.

**207.** Er bod y newidiadau diweddaraf hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir, credwn y dylid gwneud gwaith pellach i wella data penodol yng Nghymru a chreu sylfaen dystiolaeth i lywio'n well gwaith arfarnu opsiynau a'r defnydd o offer rheoli cyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, ac yn arbennig gwaith i ddeall y risgiau, y manteision neu fel arall o symud tuag at system yr Alban o ddatganoli mwy o bwerau dros drethi incwm.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol barhau i gynhyrchu a datblygu allbynnau sy'n helpu i feithrin dealltwriaeth o effaith trethiant datganoledig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, megis y dadansoddiad o newidiadau yn sefyllfa treth net Cymru a gyhoeddwyd fel rhan o ragolygon treth a gwariant datganoledig eleni.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar fanylion o fewn Bil Cyllid y DU sy'n ymwneud â chyflwyno treth incwm eiddo yng Nghymru, gan gynnwys amserlenni cysylltiedig i alluogi ystyriaeth gan y Senedd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu manylion clir am y mesurau penodol yn y Gyllideb Ddrafft i gefnogi'r sectorau hamdden a lletygarwch ac asesiad o'r graddau y bydd y rhain yn lliniaru effaith rhyddhad Ardrethi Annomestig manwerthu, lletygarwch a hamdden, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2026, erbyn i'r Gyllideb Derfynol gael ei gosod.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu gyda'r Pwyllgor y data a gasglwyd i asesu effeithiolrwydd y lluosydd gwahaniaethol newydd ar gyfer manwerthu a'r asesiad ynghylch a yw'n briodol ymestyn hyn i'r sector hamdden a lletygarwch, a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar y mesurau hyn erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod data ar gael ar lefel Cymru er mwyn sicrhau y gellir mesur a monitro perfformiad economaidd ac effaith polisïau allweddol, ac yn darparu adroddiad cynnydd ar y mater hwn erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gael eglurhad gan Lywodraeth y DU ynghylch sut y cymhwyswyd cynnydd o 10 y cant i'r cynnydd mewn terfynau cyffredinol a blynyddol ar gyfer benthyca cyfalaf a

Chronfa Wrth Gefn Cymru, a darparu adroddiad cynnydd erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sydd wedi'i gwblhau, sydd ar y gweill neu y bwriedir ei gwblhau yn nhymor y Senedd hon i gefnogi'r asesiad o'r defnydd o offer rheoli cyllideb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer casglu data i gefnogi'r gwaith hwn, a darparu adroddiad cynnydd ar y mater hwn erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

# 5. Cyflwyno'r Gyllideb a Mesur Effaith

## Cyflwyno'r Gyllideb

**208.** Mae Cyllideb 2026-27 yn cwmpasu blwyddyn ariannol a fydd yn digwydd yn bennaf ar ôl yr etholiad ar 7 Mai 2026. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet effaith yr etholiad sydd ar fin ddod ar sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r Gyllideb Ddrafft:

> "… ni fydd hon yn gyllideb sy'n canolbwyntio ar flaenoriae*thau newydd neu bolisïau newydd. Bydd y rheiny, rwy'n credu, i bleidiau gwleidyddol eu rhoi gerbron etholwyr Cymru yn eu maniffestos."*[217]

**209.** Nododd:

> *"Nid wyf yn credu, fodd bynnag, y byddai'n ddemocrataidd gyson i Senedd yn wythnosau olaf tymor pum mlynedd gyfyngu'r Senedd newydd ei hethol yn y modd hwnnw. Mae'r gorwelion hynny'n gorwedd y tu hwnt i ni. Bydd y cyfle hwnnw ar gael i eraill fanteisio arno. Am y rhesymau hynny y mae'r Cabinet wedi penderfynu cynllunio ar gyfer cyllideb busnes fel arfer yr hydref hwn—cyllideb sy'n ailddatgan i'r flwyddyn ariannol nesaf y gyllideb sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, gyda chynlluniau gwariant eleni yn cael eu bwrw ymlaen a'u cynyddu yn unol â chwyddiant yn unig."*[218]

**210.** Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet mai cyllideb wedi'i hailddatgan yw hon gan mai hwn yw'r dull mwyaf niwtral posibl yn wleidyddol o lunio cyllideb.[219]

**211.** Trwy fabwysiadu cyllideb busnes fel arfer, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi gallu ymateb i dri ffactor allweddol:

- Bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn £1 biliwn yn ychwanegol gan Drysorlys y DU o ganlyniad i'r adolygiad gwariant,
- Bod angen gweithio gydag o leiaf un blaid arall i basio'r Gyllideb gan nad oes gan Lywodraeth Cymru fwyafrif, ac

[217] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 1 Gorffennaf 2025, paragraff 207
[218] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 1 Gorffennaf 2025, paragraff 207
[219] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 17 Medi 2025, paragraff 35

- Yr etholiad y Senedd sydd ar ddod ac effaith hyn ar geisio sicrhau consensws ar draws pleidiau gwleidyddol.[220]

**212.** Er bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi bod rhai elfennau o'r Gyllideb Ddrafft wedi'u hailddatgan, cadarnhaodd fod rhai elfennau wedi'u cynnwys trwy ddewis. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori'r £30 miliwn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol a £30 miliwn ar gyfer gofal plant a gafodd eu cynnwys yng Nghyllideb Derfynol y llynedd yn y llinell sylfaen o ganlyniad i drafodaethau gyda Jane Dodds AS.[221] Hefyd, myfyriodd ar benderfyniadau eraill a gafodd eu hystyried wrth ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft:

> *"…there are some choices beyond the 2 per cent straightforward uplift, yes, and I tried to outline some of those. That includes, in much bigger figures, the over £200 million for the public sector for national insurance contributions and £137 million that has been found additionally in-year to meet pay cost inflation. I've decided that those things will be part of next year's budget, and those are choices ."*[222]

**213.** Wrth siarad yn fwy cyffredinol am sut y mae'r gyllideb yn cael ei dyrannu, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor nad mater iddo ef yw dweud wrth ei gydweithwyr yn y Cabinet sut i reoli eu prif grwpiau gwariant. Serch hynny, dywedodd fod y Cabinet yn gosod disgwyliadau cyffredinol[223]. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Senedd hefyd:

> *"… mae blociau adeiladu mawr y gyllideb wedi'u nodi. Bellach mae'n troi at bob Ysgrifennydd Cabinet i benderfynu sut orau i ddefnyddio'r adnoddau hyn, a bydd y penderfyniadau gwariant manwl hynny yn cael eu cyhoeddi ar 3 Tachwedd."*[224]

**214.** Er ei fod yn deall y rhesymau am y dull gweithredu o ystyried bod yr etholiad ar y gorwel, esboniodd y Comisiynydd:

> *"… there are, potentially, missed opportunities to reflect some of the areas that we've identified in terms of climate and nature and of arts and culture, because you're not moving things around to adjust areas that need more attention, in our view,*

[220] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraffau 9-11
[221] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraffau 25 a 32
[222] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 26
[223] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 161
[224] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 14 Hydref 2025, paragraff 139

*for the long term. But I can understand the politics and I can understand—. As we know, there's money kept aside for budget negotiations. So, things might change through those negotiations and we'll see where we get to in terms of the final budget."*[225]

**215.** Roedd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn anghytuno â barn Ysgrifennydd y Cabinet bod y Gyllideb Ddrafft hon yn gyllideb niwtral neu fusnes fel arfer, gan egluro:

*"The way it's been sold is that by doing this inflation-plus-a-little-bit, that gives some money for the next Senedd to make decisions about how that's allocated on top of those neutral and business-as-usual issues. But, of course, we know that the pressures facing different services do differ.*[226]

**216.** Ychwanegodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid :

*"I don't think framing the existing allocations that have been proposed as neutral or business-as-usual has been that helpful… In the evidence that Mark Drakeford gave to the committee last week, he did start to move away from that framing a little bit and started to say that, actually, you would need to give some of this money to health, social care and councils to meet those business-as-usual pressures. I think that's a welcome change in emphasis, because it's not a neutral starting position. Business-as-usual pressures would be different to this."*[227]

**217.** Roedd cynrychiolwyr o Dadansoddi Cyllid Cymru hefyd o'r farn nad yw'r Gyllideb Ddrafft yn gwbl niwtral oherwydd:

*"… it's a political decision to increase every part of the budget in the same way and protect budgets at least from inflationary costs or projected inflationary costs. That's a political decision. It's a political decision not to use the income tax powers to increase the overall size of the budget."*[228]

[225] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 57
[226] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 12
[227] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 13
[228] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 17

## Mesur Effaith

### Asesiad Effaith Integredig Strategol a'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb

**218.** Ategir y Gyllideb Ddrafft gan Asesiad Effaith Integredig Strategol sydd â'r nod o "archwilio'r effeithiau posibl a gaiff ein penderfyniadau gwario ar gydraddoldeb, cynaliadwyedd a llesiant". Yn ei ragair i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan ei fod:

> *"… yn ein galluogi i weld y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi a deall effaith gronnus ein penderfyniadau. Mae'n sicrhau bod pob punt a wariwn yn gweithio mor galed â phosibl i gyflawni dros Gymru, boed hynny'n gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn mynd i'r afael â thlodi, neu'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.*
>
> *Mae'n ein helpu i gadw at ein hegwyddorion. Mae'n offeryn ar gyfer tryloywder, atebolrwydd, ac yn anad dim, ar gyfer tegwch."*[229]

**219.** Comisiynodd Ysgrifennydd y Cabinet adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol mewn ymateb i argymhelliad a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2025-26.[230] Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, roedd yr adolygiad yn asesu:

> *"… effeithiolrwydd, cydlyniant a thryloywder y broses SIIA, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn integreiddio effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch y Gyllideb. Ystyriodd yr asesiad hefyd sut y mae'r SIIA yn cefnogi'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."*[231]

**220.** O ganlyniad i'r adolygiad, mae'r Gyllideb Ddrafft wedi'i hategu gan Asesiad Effaith Integredig Strategol interim, a bydd fersiwn ddiwygiedig o'r Asesiad yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn

---

[229] Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig Strategol, Asesiad Interim, Tachwedd 2025, tudalen 2
[230] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Chwefror 2023, Argymhelliad 21
[231] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 7 Awst 2025

gobeithio y bydd y dull hwn yn dangos effaith lawn y Gyllideb trwy asesu unrhyw newidiadau i'r dyraniadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol.[232]

**221.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod y dull dau gam hwn o gyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn welliant i'r broses am y rheswm hwn:

> *"It allowed us to produce a strategic integrated impact assessment of everything that we had done up to the draft budget position, but we will now publish the full and final integrated assessment to take account of the changes that will be made at the final budget … and you'll now have a strategic integrated impact assessment that will reflect the whole of that…"*[233]

**222.** Cyhoeddir Cynllun Gwella'r Gyllideb ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft hefyd. Drwy'r cynllun hwn, nod Llywodraeth Cymru yw "gwella proses y gyllideb gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ysgogi gwelliant parhaus".[234]

**223.** Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG) i helpu i ddatblygu Cynllun Gwella'r Gyllideb. Mae'r BIIAG yn darparu cyngor o safbwynt cydraddoldeb a chynhwysiant er mwyn "sicrhau bod prosesau'r gyllideb a threth yn gwella yn y tymor hwy er mwyn alinio cyllid a chanlyniadau yn well."[235]

**224.** Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn nodi:

> *"Ochr yn ochr â chydweithio parhaus â'n Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, rydym wedi mireinio offer, treialu dulliau gweithredu arloesol, a dechrau cyflwyno gwybodaeth am y gyllideb sydd nid yn unig yn fwy hygyrch ond hefyd yn cyd-fynd yn well â chanlyniadau hirdymor."*[236]

**225.** Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (y Dirprwy Gomisiynydd) mewn perthynas â'r BIIAG:

> *"… it's been a difficult year, because many meetings have been cancelled, we have had so much staff turnover … We think that*

[232] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 149
[233] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 182
[234] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb, Hydref 2025, tudalen 1
[235] Y Grwp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb: Cylch gorchwyl
[236] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb, Hydref 2025, tudalen 1

*BIIAG has so many great experts on it, but we really need the Welsh Government to make the most of it."*[237]

**226.** Er bod rhanddeiliaid yn croesawu cyhoeddi'r dogfennau sy'n cefnogi'r Gyllideb Ddrafft, cafwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau hefyd.

**227.** Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru:

> *"The Welsh Government should improve budget documentation by making it clearer how spending decisions link to policy outcomes …"*[238]

**228.** Awgrymodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru sut y gallai newidiadau i'r ddogfennaeth a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft i gynnwys mapio dyraniadau gwariant i effeithiau mesuradwy ar draws gwahanol sectorau gefnogi craffu drwy:

> *"For example, linking HE funding to its contribution to GVA growth, skills supply for the NHS, R&D for the green economy, or community outreach that tackles inequality. Presenting this in a consistent, easy-to-interpret format would allow stakeholders to see not only the immediate budget lines but also the broader value generated for Wales."*[239]

**229.** Nododd y Comisiynydd fod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio "dull mwy cydweithredol" wrth ddatblygu ei SIIA eleni. Fodd bynnag, dywedodd y Comisiynydd "Hoffwn weld asesiad mwy cadarn o effaith yn erbyn y Nodau." Hefyd, dywedodd "Byddai asesiad cyhoeddedig yn galluogi rhanddeiliaid i nodi lle gallai fod angen newid cyfeiriad i osgoi effaith niweidiol". Serch hynny, roedd yn credu:

> *"Ateb gwell efallai byddai i randdeiliaid, fel y rhai a gynrychiolir ar y Grŵp Cynghori ar Wella Effaith y Gyllideb (BIIAG), fod yn rhan o broses yr asesiad hwnnw gan ychwanegu eu cyfoeth o arbenigedd a mewnwelediad at y broses."*[240]

[237] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 126
[238] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
[239] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru
[240] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

**230.** Hefyd, nododd y Comisiynydd fod ei swyddfa wedi helpu i ddarparu cymorth a hyfforddiant yn ystod y broses o ddatblygu'r SIIA a'r BIIAG.[241]

**231.** Awgrymodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru ffyrdd ymarferol o wella tryloywder y broses o wneud penderfyniadau. Yn eu plith roedd cynnwys hyperddolenni i dystiolaeth a ddefnyddir o fewn SIIA a dolenni gwell rhwng penderfyniadau â thablau MEG/BEL ym mhob un o ddogfennau'r gyllideb.[242]

**232.** Mewn perthynas â chyllideb y llynedd, nododd ymateb Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) i'r ymgynghoriad fod y dogfennau yn darparu trosolwg da o ystyriaethau ar lefel strategol. Serch hynny, roedd yn credu bod modd gwneud y dyraniadau o fewn MEGs yn gliriach trwy gynnwys mwy o ddata a thystiolaeth yn adroddiadau ysgrifenyddion y cabinet unigol a gosod templed â safon ofynnol ar gyfer y data sy'n cael ei ddarparu.[243]

**233.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod pobl o'r unedau tystiolaeth a dadansoddi, a chydweithwyr polisi a chyllid, wedi cymryd rhan yn y trafodaethau, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol. Roedd yn gobeithio y byddai hynny yn ei wneud yn gynnyrch mwy defnyddiol sy'n cael effaith ehangach.[244]

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**234.** Mae Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn nodi bod y dull o ymdrin â'r Gyllideb Ddrafft wedi'i lunio'n sylweddol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, o ran y blaenoriaethau strategol a'r fethodoleg. Mae'n dweud:

> *"Mae'r dull a ddilynwyd eleni yn parhau â'n hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy fodelu'r pum ffordd o weithio – meddwl yn y tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogiad. Drwy gynnal hyblygrwydd a bod yn agored i gydweithio, mae'r gyllideb yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor."*[245]

**235.** Mae'n datgan y canlynol hefyd:

[241] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 10
[242] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru
[243] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
[244] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraffau 150-151
[245] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 7

> *"Drwy sicrhau cyllid diogelwch i barhau i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol, rydym yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy ac i barhau i gyd-fynd â'r nodau a'r amcanion llesiant."*[246]

**236.** Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb Llywodraeth Cymru yn nodi:

> *"Rydym yn falch o'r gwaith i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i phum ffordd o weithio sydd wrth wraidd ein penderfyniadau cyllidol."*[247]

**237.** Nododd y Comisiynydd

> *"Just in terms of some of the detail with regard to this year's budget, where we've seen some of the improvements has been in some of the application of the five ways of working."*[248]

**238.** Hefyd, roedd y Comisiynydd yn croesawu'r ffaith fod pobl ifanc yn cymryd mwy o ran yn y broses gyllidebol, ac yn croesawu hefyd y manylion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru sy'n dangos tueddiadau'r dyfodol yn ogystal â'r cyd-destun economaidd presennol.[249]

**239.** Fodd bynnag, cododd bryderon am yr anawsterau o ran nodi dulliau Llywodraeth Cymru o bennu tueddiadau'r dyfodol mewn rhai meysydd:

> *"The Government is clearly saying how they're applying the well-being of future of generations Act in considering the five ways of working. You can see the information that has been presented as information that's been considered. But then, in the decision-making process, how is that information being considered, what were the options that have been looked at, and how did you then come to your conclusions? That is clearly not easy to see in many of the areas."*[250]

**240.** Hefyd, nododd y Comisiynydd ei bod yn ymddangos nad yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r offeryn matrics aeddfedrwydd a fyddai'n nodi lle mae'r pum ffordd o weithio yn cael eu cymhwyso yn y Gyllideb Ddrafft. Awgrymodd y Dirprwy Gomisiynydd mai un rheswm posibl nad yw'r offeryn wedi'i ddefnyddio

---

[246] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, Hydref 2025, tudalen 8
[247] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb Hydref 2025, tudalen 4
[248] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 12
[249] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraffau 12 a 13
[250] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 14

yw trosiant staff uchel, yn enwedig o fewn y BIIAG, ond nododd y byddai angen i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r asesiad hwn yn gywir.[251]

**241.** Er mwyn sicrhau bod y matrics aeddfedrwydd yn cael ei ddefnyddio yn y blynyddoedd i ddod, awgrymodd y Dirprwy Gomisiynydd y gallai'r gweithdai sy'n cael eu cynnal ym mis Medi a Hydref i ddylanwadu ar y gyllideb gael eu symud yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn sicrhau bod cyfle i ddylanwadu ar y gyllideb ddrafft.[252]

**242.** O ran sut y mae'r Gyllideb Ddrafft yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni'r saith nod llesiant, dywedodd y Comisiynydd:

> "We've got these seven goals and the 50 ways of measuring those through the indicators. That's meant to give everyone a common direction about where we're heading, and bring alignment to the public sector to work together to achieve on that common vision. So, if we're not understanding how our budget is aligning to those goals, then that's a challenge."[253]

**243.** Ychwanegodd:

> *"… if we're not understanding how our budget is aligning to those goals, then that's a challenge. But we've also made that recommendation to other public bodies as well. So, it's not just the Welsh Government that needs to do that, the rest of the public sector needs to do the same."*[254]

**244.** Gan gyfeirio at yr adroddiad, 'Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'[255], dywedodd swyddog o Archwilio Cymru:

> *"… I think we made a recommendation in that report about the Welsh Government taking a fresh look at how it assesses and tracks performance in delivering against the wider well-being goals and the national indicators."*[256]

[251] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraffau 42 a 43
[252] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 45
[253] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 23
[254] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 23
[255] Archwilio Cymru, Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Ebrill 2025
[256] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 159

**245.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"We see quite a bit of inconsistency at present in how bodies are tracking their own delivery and performance against some of that wider agenda as well, when you come top-down from the well-being indicators."*[257]

**246.** Ychwanegodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"When resources are tight, we've got to make choices about where we spend money, and you've got conflicting demands, both of which will carry merit, but you have to make some sort of choice. How do you make that choice from an informed position unless you can rely on the data that you have to hand?"*[258]

## Barn y Pwyllgor

**247.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r egwyddorion sy'n sylfaen i'r penderfyniadau cyllido a nodir yn y Gyllideb Ddrafft i fabwysiadu dull gweithredu busnes fel arfer ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27. Rydym yn cydnabod bod etholiad y Senedd sydd ar ddod a chyfansoddiad gwleidyddol presennol y Senedd wedi dylanwadu ar benderfyniadau dyrannu Ysgrifennydd y Cabinet. Yn ei farn ef, yr opsiwn hwn yw'r mwyaf niwtral yn wleidyddol, ac mae'n annhebygol o gyfyngu ar Lywodraeth nesaf Cymru.

**248.** Fodd bynnag, rydym yn nodi tystiolaeth gan rai rhanddeiliaid sy'n tynnu sylw at y ffaith bod cynnydd chwyddiannol cyfartal ym mhob maes yn ddewis gwleidyddol, ac efallai nad yw'n ystyried pwysau gwahaniaethol ar wasanaethau fel iechyd ac addysg.

**249.** Er ein bod yn deall sail resymegol Ysgrifennydd y Cabinet dros gyflwyno'r Gyllideb Ddrafft hon fel un niwtral yn wleidyddol, credwn fod ei disgrifio fel un sydd wedi'i hailddatgan neu'n gyllideb busnes fel arfer o bosibl yn celu'r dewisiadau a'r penderfyniadau strategol sydd wedi'u hymgorffori yn y dyraniadau. Yn benodol, mae Ysgrifenyddion y Cabinet yn gwneud penderfyniadau ar sut y mae'r gyllideb sydd wedi'i dyrannu i'w hadrannau yn cael ei gwario, ac rydym yn credu y gallai Ysgrifennydd y Cabinet fod wedi darparu mwy o eglurder ar y broses sy'n cael ei defnyddio yn y dogfennau sy'n mynd gyda'r Gyllideb Ddrafft. Byddai

[257] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 159
[258] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 162

hyn wedi gwella tryloywder, cryfhau'r gwaith craffu, a helpu rhanddeiliaid i ddeall yn well y sail resymegol dros benderfyniadau cyllidebol.

**250.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu asesiad y Comisiynydd bod cymhwyso'r pum ffordd o weithio gan Lywodraeth Cymru yn y Gyllideb Ddrafft eleni yn welliant. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi pryderon y Comisiynydd am dryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau a'r ffaith ei bod yn ymddangos nad yw'r offeryn matrics aeddfedrwydd yn cael ei gymhwyso. Credwn ei bod yn bwysig bod y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio ar y materion hyn.

**251.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod angen gwneud rhagor o waith i ddangos cysondeb rhwng y saith nod llesiant yn Neddf 2015 a phenderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru. Hefyd, rydym yn nodi'r dystiolaeth sy'n awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i olrhain a chyflwyno data ar sut y mae'n cyflawni yn erbyn y nodau hyn. Heb ddata clir a chyson, rydym yn cytuno ei bod yn anodd gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn ymwneud â blaenoriaethau ariannu.

**252.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r SIIA yn ddiweddar ac wedi cyflwyno proses gyhoeddi dau gam, gyda fersiwn interim yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft Fanwl, a fersiwn derfynol i'w chyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol. Er ein bod yn deall y rhesymau am y dull gweithredu hwn ac yn gwerthfawrogi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr SIIA interim, mae'n parhau i fod yn anodd asesu effeithiolrwydd yr SIIA wrth ddangos effaith y gyllideb hyd nes cam y Gyllideb Derfynol, yn enwedig o ystyried y cyd-destun a'r newidiadau a ragwelir rhwng y gyllideb Ddrafft a'r gyllideb Derfynol eleni. Rydym yn croesawu cyflwyno gweithdai fel rhan o'r dull o ddatblygu'r SIIA ac rydym yn annog Llywodraethau Cymru yn y dyfodol i adeiladu ar hyn mewn cylchoedd cyllideb dilynol.

**253.** Clywsom gan randdeiliaid bod lle i wella, yn enwedig o ran cyflwyniad a thryloywder y broses o wneud penderfyniadau a'i chysylltiadau â chanlyniadau polisi. Y llynedd, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru werthuso'r dogfennau y mae'n eu cynhyrchu er mwyn asesu effaith y gyllideb i gefnogi gwaith craffu gan randdeiliaid.[259] Er ein bod yn cydnabod y newidiadau sydd wedi'u cyflwyno trwy gyhoeddi'r SIIA mewn dau gam, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid i nodi rhagor o newidiadau i'r dogfennau hyn er mwyn cryfhau gwaith craffu a gwella dealltwriaeth.

[259] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Chwefror 2025, tudalen 86

**254.** Hefyd, rydym yn nodi tystiolaeth gan y Comisiynydd yn ymwneud â heriau diweddar gyda'r BIIAG, sy'n deillio o drosiant staff uchel ac sydd wedi arwain at ganslo nifer o gyfarfodydd eleni. Mae'r Pwyllgor yn poeni am y posibilrwydd nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r BIIAG i'w lawn botensial, ac mae'n annog Ysgrifennydd y Cabinet i gwblhau asesiad o'i rôl a'i effeithiolrwydd gweithredol fel rhan o drafodaethau cyllidebol.

**Argymhelliad 14.** Gan fod y Gyllideb hon yn cael ei chyflwyno fel un niwtral yn wleidyddol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ailfframio'r farn hon yn ei ddogfen yn esbonio'r Gyllideb Derfynol er mwyn gwella tryloywder a sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall yn glir y sail resymegol i'r dewisiadau cyllidebol hyn.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau sut y bydd yn dangos ei bod wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn ei phroses o osod cyllideb. Hefyd, dylai weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar y dull gorau o asesu a chyflwyno hyn, a darparu diweddariad ar gynnydd erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull cyson o olrhain a chyhoeddi sut y mae'n cyflawni ac yn perfformio yn erbyn y saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i werthuso'r dogfennau y mae'n eu cynhyrchu ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft er mwyn asesu eu heffaith a'i gwneud mor syml â phosibl i randdeiliaid nodi sut y mae penderfyniadau cyllidebol yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu gwaith y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ac yn gwerthuso ei rôl a'i effeithiolrwydd yn y broses ehangach o wneud penderfyniadau ar y gyllideb ac yn ystyried unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol i wella'i ffyrdd o weithio.

# 6. Atal a Chymorth gyda Chostau Byw

## Gwariant ataliol

**255.** Yn ystod gweithgareddau ymgysylltu eleni, nododd nifer o gyfranogwyr fod "cyllid ar gyfer gwasanaethau ataliol wedi cael ei dorri ar draul cyllid i gefnogi argyfyngau yn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau". Roedd rhai o'r rhai a gymerodd ran hefyd eisiau gweld blaenoriaeth uwch yn cael ei rhoi i ariannu gwasanaethau ataliol.[260]

**256.** Mynegodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod angen rhoi mwy o bwyslais ar "flaenoriaethu mesurau ataliol sy'n helpu pobl i aros yn iach, i heneiddio'n dda, ac i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach" a daeth i'r casgliad bod buddsoddi mewn atal yn gost-effeithiol ac yn gwella safon bywyd pobl hŷn.[261]

**257.** Datganodd CGGC:

> *"Mae hefyd diffyg eglurder o ran faint gaiff ei wario ar atal yn y gyllideb gyffredinol ac o fewn portffolios y gweinidogion unigol."*[262]

**258.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, esboniodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Cymru):

> *"Preventative spend must be classified as a strategic priority. Investing in early intervention and prevention reduces future demand on public services and delivers long-term savings. We support calls for ringfenced prevention funding and the introduction of a Preventative Departmental Expenditure Limit (PDEL)."*[263]

**259.** Tynnodd Conffederasiwn GIG Cymru sylw hefyd at yr angen i glustnodi cyllid ar gyfer atal ac esboniodd:

> *"Increased investment in prevention is vital to shift the focus from treating illness to promoting health, reducing inequalities, and addressing wider determinants of health for long-term wellbeing and economic growth. This is a whole-government*

[260] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, Gorffennaf 2025, paragraff 17
[261] Y Pwyllgor Cylid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
[262] Y Pwyllgor Cylid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
[263] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Cymru)

*issue, as the building blocks of health include housing, transport, energy, the arts and education among other sectors."*[264]

**260.** Adleisiwyd hyn hefyd gan CLlLC a ddadleuodd o blaid mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau atal:

> *"… er bod polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru'n cyfeirio'n gyson at bwysigrwydd atal, nid yw'n aml yn cael ei adlewyrchu wrth ddyrannu adnoddau. Mae'r dystiolaeth o hyn yn amlwg."*[265]

**261.** Roedd Sefydliad Bevan o'r farn, er bod y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys elfennau sy'n ataliol eu natur, y gallai fynd ymhellach os oes bwriad i wneud hyn o ddifrif ar raddfa fawr.[266]

**262.** Aeth Sefydliad Bevan ymlaen i ddweud:

> *"… there is an inherent tension that you can't just spend all your money on long-term preventative stuff because you are leaving people without, who need it now, and that is the tension that no-one's really got to grips with, and that has undermined a lot of the discussions around it…"*[267]

**263.** Esboniodd RhCM Cymru a WWBG fod gwelliannau i'r asesiadau effaith integredig strategol yn bwysig, gan ychwanegu:

> *"I don't think they're enough to effectively support the prevention agenda, so we need more investment. And I think, in some places, there's also scope to invest that money in more considered and effective ways."*[268]

**264.** Pwysleisiodd WFA y dylai'r adolygiad o wariant tair blynedd fod wedi caniatáu rhywfaint o'r cynllunio tymor canolig hwnnw nad yw wedi gallu ei wneud, ond ychwanegodd y gallai'r realiti gwleidyddol cyn blwyddyn etholiad arwain at hwylustod tymor byr yn fwy na'r math hwnnw o feddwl tymor hwy.[269]

**265.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod Cyllideb Ddrafft eleni wedi rhoi pwyslais cryf ar fuddsoddi mewn atal. Tynnodd sylw at nifer o feysydd lle

[264] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru
[265] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[266] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 232
[267] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 244
[268] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 237
[269] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 98

mae gwariant ataliol wedi'i ailddatgan yn y Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys cyllid sydd â'r nod o wella presenoldeb yn yr ysgol, y rhaglen atal llifogydd, atal digartrefedd a buddsoddi mewn iechyd. Crynhodd drwy ddweud:

> *"… I think it's the well-being of future generations … commissioner who has argued that stability is good for prevention. What I think he says he has seen in some years is swings in preventative spend, where you get a year when there's more of it, and the next year that seems to move to somewhere else. But stability and consistency of spend in that preventative area is good for prevention. I think we can demonstrate that in the budget that we are restating for next year, because all those preventative programmes continue."*[270]

**266.** Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (SSIA) interim a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft yn cadarnhau y bydd dadansoddiad wedi'i dargedu o wariant ataliol yn cael ei gynnal a'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol terfynol.[271]

### Diffiniad

**267.** Ar ôl craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda'r Comisiynydd i gytuno ar ddiffiniad wedi'i ddiweddaru o'r hyn a olygir gan wariant ataliol.[272]

**268.** Rhoddodd y Comisiynydd ddiweddariad ar y gwaith hwn, gan esbonio bod ei swyddfa wedi gweithio gyda nifer o gyrff cyhoeddus i roi'r diffiniadau ar waith, a deall ble mae'r heriau ac a ellir eu gwella. Esboniodd, o ganlyniad i'r prosiect peilot:

> *"… we're finding that the definitions are pretty good and they're working for the public bodies we're working with."*[273]

**269.** Ychwanegodd y Dirprwy Gomisiynydd, yn dilyn y gweithdai, eu bod wedi nodi bod y diffiniad y cytunwyd arno yn galluogi:

> *"… a different way of thinking, understanding the different types of preventions and what 'acute' or 'non-preventative' really*

[270] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraffau 155-159
[271] Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig Strategol, Asesiad Interim, Tachwedd 2025, tudalen 17
[272] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Chwefror 2025, paragraff 253
[273] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 70

> *means. And the tiny little tweak we would make is that there's a reference to universalism…"*[274]

**270.** Daeth y Comisiynydd i'r casgliad a ganlyn:

> *"… the definition has worked really well. And there is another definition used by the health, public health, organisations, so they were more difficult to convince at first. But I tested the pilot fully with Hywel Dda and we found that our definition was very easy to use, especially in engaging with their finance department, which could then easily translate in public health terms. So, we are very happy with it and I don't think I would recommend that we change it after we have tested it."*[275]

**271.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet unwaith eto fod atal yn gysyniad anodd ei ddiffinio[276] ac amlinellodd rai o'r mesurau o fewn y Gyllideb Ddrafft, a fyddai, yn ei farn ef, yn cael ei ddiffinio fel gwariant ataliol yn unol â'r diffiniad y cytunwyd arno gyda'r Comisiynydd. Roedd hyn yn cynnwys:

- atal sylfaenol – buddsoddi yn Dechrau'n Deg, gan fod buddsoddiad ym mlynyddoedd cynnar plentyn yn talu ar ei ganfed yn fwy nag unrhyw fuddsoddiad arall o ran cyfleoedd bywyd plant;
- atal eilaidd – buddsoddi mewn gwasanaethau sgrinio, a gostwng oedran sgrinio am ganser y coluddyn, gan fod canfod yn gynharach yn gwneud unigolion yn fwy addas i gael triniaeth, ac
- atal trydyddol – buddsoddi yn y rhaglen diogelwch tomenni glo fel na fyddant yn peri risg mwyach.[277]

**272.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y gwaith da a wnaed gan y Comisiynydd ac eglurodd sut y mae hyn yn berthnasol i ddatblygu'r agenda gwariant ataliol:

> *"… they've published a typology of prevention, with four levels of prevention: primary, secondary, tertiary and acute. That's the lens that we apply to the budget when we are trying to move things in the direction of preventative spend. But at the borders between those four levels, there are any number, I think, of*

[274] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 75
[275] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 76
[276] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 159
[277] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraffau 161-163 a 165

> *border disputes as to whether or not this is primary prevention, secondary prevention, and so on. So, it has always been a slippery concept, but the work of the future generations commissioner, I think, is genuinely helpful to us."*[278]

## Clustnodi Gwariant Ataliol

**273.** Roedd y Comisiynydd yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod ei argymhelliad y gellid clustnodi cyllidebau atal fel bod modd diogelu'r arian hwnnw[279], ac roedd yn anghytuno ag ymateb Llywodraeth Cymru:

> *"'Hypothecating funding reduces institutional budget autonomy. Isolating prevention funding equitably is difficult and risks undermining broader prevention efforts and responsibilities institutions must manage effectively'…"*[280]

**274.** Yn ei adroddiad, 'Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol', gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol argymhellion yn ymwneud â gwariant ataliol, a dywed y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd o annog buddsoddiad mewn atal.[281] Yn ei hymateb, esboniodd Llywodraeth Cymru fod ganddi "egwyddor hirdymor" i geisio osgoi neilltuo cyllid gan y gall hyn "leihau gallu sefydliadau i reoli eu cyllidebau eu hunain yn unol â'u cyfrifoldebau".[282]

**275.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn y byddai clustnodi gwariant ataliol yn arwain at drafodaethau sy'n canolbwyntio ar y clustnodi, yn enwedig a oedd yn effeithiol, beth oedd wedi'i gynnwys, a oedd pobl yn ceisio ei defnyddio clustnodi at eu dibenion eu hunain, ac nid ar yr effaith yr oedd y gwariant ataliol yn ei chael.[283]

**276.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd ei fod o blaid meincnodi i ddangos bod y gwasanaeth rydych chi'n ei ddarparu yn cyfateb i'r hyn y mae eraill yn ei wneud ac yn rhan uchaf y sbectrwm hwnnw, a bod gwneud hyn yn offeryn mwy pwerus na chlustnodi.[284]

---

[278] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 159
[279] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 66
[280] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 68
[281] Archwilio Cymru, Ffurflen Ymateb Rheolwyr Llywodraeth Cymru i Dim Amser i'w Golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
[282] Archwilio Cymru, Ffurflen Ymateb Rheolwyr Llywodraeth Cymru i Dim Amser i'w Golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
[283] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 169
[284] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 169

**277.** Fel dewis arall yn lle clustnodi, awgrymodd swyddog o Archwilio Cymru y gallai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o gyflwyno mesurau interim fel clustnodi swm penodol o ddyraniad cyllid ar gyfer atal o fewn dyraniadau cyllideb.[285]

**278.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywed y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA):

> *"… broader evidence from local government suggests that ringfencing is rarely an ideal or sustainable solution. It can reduce local autonomy and flexibility in how resources are used and create additional administrative complexity."*[286]

## Deall gwariant ataliol

**279.** Cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol, wrth wynebu pwysau galw uniongyrchol, ei bod yn ddealladwy bod Llywodraeth Cymru eisiau ymladd yn erbyn y problemau uniongyrchol. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud:

> *"The longer we delay, the bigger the problem becomes. So, it will take quite a significant shift of emphasis by individual leaderships within public organisations to prioritise this kind of agenda - by the Welsh Government, undoubtedly, to send a really strong signal to the system, both in its own decisions about spending and prioritisation, but also in the accountability framework, and so forth, that it sets for other parts of the system."*[287]

**280.** Fel cam cyntaf, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol mai'r hyn y mae angen i ni ei ddeall yw faint rydym yn ei wario ar weithgarwch ataliol, ac yna gallwn ddechrau asesu beth rydym yn ei gael am hynny, a beth yw ei effaith.[288]

**281.** Yn ei adroddiad diweddar, amlinellodd CIPFA:

[285] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 214
[286] Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
[287] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 198
[288] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 207

> *"Public sector investment on prevention can for the first time be mapped and measured using an approach developed by CIPFA and supported by The Health Foundation."*[289]

**282.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, nododd CIPFA fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi defnyddio ei ddull pedwar cam i fapio a mesur buddsoddiad ataliol fel rhan o'i waith ehangach gyda'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (HDRC).[290]

**283.** Mewn ymateb i sut y gellir mesur agenda ataliol mewn canlyniadau, awgrymodd Sefydliad Bevan y gellid defnyddio llai o bobl yn defnyddio gwasanaethau argyfwng, megis llety dros dro a banciau bwyd, fel canlyniadau ar gyfer atal. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"But there are things that we know, that people only use this at a time of crisis. So, if we're serious about prevention, the number of people using crisis services should be reducing."*[291]

**284.** Dywedodd y Dirprwy Gomisiynydd wrth y Pwyllgor am y swyddfa yn sefydlu grŵp gyda CIPFA, Llywodraeth yr Alban a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i fapio gwariant ataliol o fewn cyrff cyhoeddus. Esboniodd:

> *"… there are two ways of doing it: a top-down approach and a bottom-up approach. So, we are doing, like Scotland, the top-down, where we are looking at the expenditure at the top level, so often in the finance department and myself, costing things. CIPFA and RCT are doing it the other way around, so they look at activity and the mapping of activity to then try to work out the cost attached to it to do the mapping."*[292]

**285.** Dywedodd y Dirprwy Gomisiynydd ei bod hefyd wedi gweithio gydag adran iechyd Llywodraeth Cymru o ran eu gweithgarwch mapio a nododd:

> *"… they were much further ahead of us. I learned a lot from them, their methodologies, how they were presenting the different definitions of spend, but I haven't seen it progress recently, and we are still in conversation, but that's why we*

---

[289] CIPFA, Understanding preventative investment: A practical approach to map and measure spend, Hydref 2025
[290] Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
[291] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 254
[292] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 123

*need Welsh Government to present the information to us. They need to do the analysis because they have the information."*[293]

## Costau Byw

**286.** Nododd y rhai a gymerodd ran yn sesiynau ymgysylltu'r Pwyllgor yn yr haf fod tlodi ac effaith hirdymor yr argyfwng costau byw yn bryder allweddol.[294] Ystyrir mentrau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn yn y Gyllideb Ddrafft isod.

### Y Gronfa Cymorth Dewisol

**287.** Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) wedi'i chynyddu mwy na £0.4 miliwn yn y Gyllideb Ddrafft. Mae Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl yn nodi y bydd yr arian hwn:

> *"… yn cael ei wario ar gynhwysiant ariannol, gan greu rhaglen cyllid cyfalaf ar gyfer undebau credyd. Bydd hyn yn galluogi dull mwy strategol a thecach o ariannu'r sector."*[295]

**288.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, anogodd Sefydliad Bevan Lywodraeth Cymru i ddiogelu'r symiau a ddyrannwyd i DAF ac, yn ddelfrydol , eu cynyddu i sicrhau bod pobl mewn argyfwng ariannol yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.[296]

**289.** Nododd Sefydliad Bevan fel a ganlyn:

> *"Whilst credit unions do fantastic work, it is not getting out there as a major source of lending for the population. So, the money, whilst welcome and will make a difference, given how low the starting point is as a proportion of the Welsh population using credit unions, based on our survey responses, I suspect that there's a need for much longer-term work there, to really change and to increase people's participation."*[297]

**290.** Dywedodd RhCM Cymru a WWBG fod y cyllid parhaus ar gyfer DAF a chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yn parhau i fod yn hollbwysig, ac aethant ymlaen i ddweud:

---

[293] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 124
[294] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, Gorffennaf 2025
[295] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025, tudalen 29
[296] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Sefydliad Bevan
[297] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 208

> *"We know that women tend to be on low incomes and are more likely to experience poverty, so these measures can really be a lifeline. We are unable to fully assess the gender impacts, because there's a lack of data. I believe, especially on the discretionary assistance fund, there was a recommendation by the committee a couple of years ago to provide that gender data, but that still isn't available to us."*[298]

**291.** Yn dilyn craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth am nifer y ceisiadau a gyflwynwyd a'r ceisiadau llwyddiannus i'r DAF, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl rhywedd, ac adolygu'r broses o wneud y taliadau i sicrhau cydraddoldeb rhywedd.[299]

**292.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad mewn egwyddor, gan nodi bod mewnbynnu data rhywedd yn ystod y broses ymgeisio yn wirfoddol. Cadarnhaodd nad oedd yn bwriadu casglu data rhywedd.[300]

**293.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet pam nad yw data rhywedd ar gael o ran pwy sy'n cael cymorth gan DAF:

> *"There were 250,000 awards made from the discretionary assistance fund last year, and if we did want a gender analysis of it, we would have to collect that data 250,000 times. I think the question in my mind is: would we get sufficient insight, new insight, as a result of all that activity? Is the effort commensurate with the reward?"*[301]

## Gofal plant

**294.** Yn ei Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl, mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd yn parhau i gefnogi ei Chynnig Gofal Plant, sy'n darparu hyd at 30 awr o ofal plant ac addysg feithrin a ariennir i blant tair a phedair oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, ynghyd â chefnogi darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg i blant dwy oed.[302]

**295.** Mae Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl yn dweud:

---

[298] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 167
[299] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2022, tudalen 114
[300] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 1 Mawrth 2024
[301] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 174
[302] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025, tudalennau 9-10

> *"Buddsoddwyd £50m yn ychwanegol yn 2025-26 sy'n cynnwys y £30m a ddarparwyd fel rhan o gytundeb cyllideb 2025-26, ac mae hyn i gyd yn rhan o'r llinell sylfaen ar gyfer 2026-27. Mae'r cyllid ychwanegol hefyd wedi cefnogi cynnydd yn y gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr gofal plant sy'n cyflenwi rhaglenni gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae wedi sicrhau cynaliadwyedd y sector, cefnogi'r gweithlu a gwella lleoliadau a'r dewis i rieni."*[303]

**296.** Yn ei ymateb, tynnodd Oxfam Cymru at y ffaith bod costau gofal plant yn un o sbardunau sylweddol tlodi plant, gyda mwy na hanner y plant sydd mewn tlodi yn byw mewn aelwydydd lle mae'r plentyn ieuengaf yn 0–4 oed.[304]

**297.** Nododd Sefydliad Bevan mai un o'r heriau oedd pennu pa wahaniaeth y mae'r £30 miliwn ychwanegol hwnnw a ddyrannwyd i ofal plant wedi'i wneud. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"We know that Merthyr has completed the roll-out of Flying Start, but there's no publicly available information that I've been able to find, or in communications with people either, about where we are at with the other 21 local authorities. And so what has happened with that? Where are we? What are the plans with it that are having a real impact?"*[305]

**298.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgor, dywedodd Sefydliad Bevan fod cynlluniau Llywodraeth Cymru ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg yn gadarnhaol. Ychwanegodd:

> *"… the Welsh Government should provide both greater clarity as to how the expansion of Phase 3 is progressing, including information as to when each local authority plans to complete its rollout, and if needed, allocate extra funds to ensure that no child aged two misses out on the opportunities provided by the childcare element of Flying Start."*[306]

**299.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddata monitro ar gyfer cam 2 a 3 o ehangu Dechrau'n Deg rhwng Ebrill ac Awst 2025 ym mis Hydref 2025.[307] Dechreuodd

---

303 Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025, tudalennau 9-10
304 Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Oxfam Cymru
305 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 188
306 Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Sefydliad Bevan
307 Llywodraeth Cymru, Data monitro ehangu cam 2 a 3 Dechrau'n Deg: Ebrill i Awst 2025, Hydref 2025

cam 3 o ehangu Dechrau'n Deg ym mis Ebrill 2025.[308] Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi data ynghylch:

> *"… how many children are now benefiting from Flying Start, how many offers are made, the percentage of offers that are taken up, the number of extra places that are coming onstream "*[309]

**300.** Er gwaethaf buddsoddiadau yn Dechrau'n Deg ac yn y cynnig gofal plant, roedd gan RhCM Cymru a WWBG bryderon:

> *"It's just providing too little, and it's too inflexible, the 12 and a half hours, for that to make a meaningful impact on employment. You need to be able to afford wraparound care around those 12 and a half hours, which families on the lowest incomes just cannot do."*[310]

**301.** Aethant ymlaen i ddweud:

> *"… families on the lowest incomes are excluded by the eligibility criteria. I think the Welsh Government's own evaluation data shows that most of the families who benefit from the childcare offer were already in work previously and were already able to afford formal childcare previously. So, I think the take-home message is that we cannot address poverty and child poverty without getting serious about removing the barriers to women's work."*[311]

## Cyllidebu ar sail rhywedd

**302.** Cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, tynnodd RhCM Cymru a WWBG sylw at y canlynol:

> *"Gender budgeting remains a key tool at the Welsh Government's disposal to tackle inequality and poverty. In the context of a continuation budget, this year's budget cycle presents an ideal opportunity to progress with its roll out in Wales. This requires publishing the findings of the 2022-23 gender budgeting pilots as a matter of urgency, improving the*

---

[308] Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, 17 Medi 2025
[309] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 170
[310] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 185
[311] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 186

> *transparency of the Strategic Integrated Impact Assessment (SIIA)."*[312]

**303.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *"I think I could tell you now that we know that women disproportionately carry the burden of poverty in Wales, and that they are disproportionately affected by the sort of household debts that drive applications to the DAF."*[313]

**304.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau tri chynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2026-27.[314] Nododd Llywodraeth Cymru chwe argymhelliad polisi o ganlyniad i'r cynlluniau peilot a nododd fod WWBG yn "bartner hanfodol" yn y gwaith. Ynglŷn â'r camau nesaf, dywed Llywodraeth Cymru:

> *"Ni fyddwn yn cynnal rhagor o gynlluniau peilot ar hyn o bryd. Yn hytrach, rydym am roi pwyslais ar gadarnhau'r dysgu, meithrin capasiti a sefydlu cyllidebu ar sail rhywedd yn rhan o wead y llywodraeth."*[315]

**305.** Mynegodd RhCM Cymru a WWBG eu siom bod y gwaith parhaus i ymgorffori cwestiynau am gyllidebu ar sail rhywedd o fewn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yn adrannau Llywodraeth Cymru wedi'i ohirio.[316]

**306.** Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"We are committed to embedding gender budgeting. We published what we've learned from the first trials at the draft budget, and we are considering now how we take gender budgeting further in the work we will do in the future."*[317]

---

[312] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Grŵp Cyllideb Menywod Cymru (WWBG) a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru
[313] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 174
[314] Llywodraeth Cymru, Cyllidebu ar sail Rhywedd ar Waith: Dysgu o Gynlluniau Peilot yng Nghymru 2019–2024, Tachwedd 2025
[315] Llywodraeth Cymru, Cyllidebu ar sail Rhywedd ar Waith, Tachwedd 2025, tudalen 8
[316] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Grŵp Cyllideb Menywod Cymru (WWBG) a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru
[317] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 175

## Tai a digartrefedd

**307.** Dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn darparu £2.3 miliwn drwy fecanwaith yn BEL y Grant Cynnal Refeniw i “dalu’r costau cychwynnol i’r awdurdodau lleol a nodwyd ym Mil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)”.[318]

**308.** O ran cyllid adnoddau ar gyfer tai ac adfywio, mae Llywodraeth Cymru yn datgan:

> *“… ein blaenoriaeth yw cefnogi pwysau chwyddiant yn y Grant Cymorth Tai a gwasanaethau atal digartrefedd eraill. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i roi terfyn ar ddigartrefedd ac yn cydnabod y rôl hanfodol y mae’r gwasanaethau hyn yn ei chwarae mewn atal ac ymyrraeth gynnar.”*[319]

**309.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi ei bod wedi defnyddio “cynnydd chwyddiannol ar draws holl linellau cyllidebau cyfalaf cyffredinol” i gefnogi ei “gwaith parhaus i adeiladu cartrefi newydd a datgarboneiddio”. Mae’n dweud bod £26.8 miliwn arall o “gyfalaf trafodiadau ariannol ar gael i gefnogi benthyciadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) ar gyfer adeiladu tai”.[320]

**310.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet, yng ngoleuni adroddiad y Pwyllgor ar Gyfalaf Trafodiadau Ariannol[321]:

> *“… We are looking at ways in which we can use FTC alongside conventional capital to increase the capacity of social landlords to be able to borrow money for investment in the sector—so, combined grants, low-cost loans and equity as well, alongside Government guarantees.”*[322]

**311.** Nododd RhCM Cymru a WWBG fod problemau fforddiadwyedd tai yn fwy acíwt i fenywod yng Nghymru a bod menywod hefyd yn llawer llai tebygol o allu fforddio cartref yng Nghymru.[323] Cyfeiriodd cynrychiolydd o RhCM Cymru a WWBG at dystiolaeth heb ei chyhoeddi a ganfu:

> *“… private renting is unaffordable for women in 16 out of our 22 local authorities, and that women’s income fell short of the*

[318] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025, tudalen 12
[319] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025, tudalen 12
[320] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025, tudalennau 12-13
[321] Y Pwyllgor Cyllid, Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, Tachwedd 2024
[322] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 180
[323] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i’r Ymgynghoriad: Grŵp Cyllideb Menywod Cymru (WWBG) a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru

*average income required for a mortgage in all of the 22 local authorities—so, just to drive home the importance of that from a gender perspective."*[324]

**312.** Myfyriodd Sefydliad Bevan hefyd ar effaith byw mewn llety dros dro ar blant:

*"We did find some quite harrowing stuff about children being placed in bed and breakfasts and hotels across Wales without cots for babies to sleep in."*[325]

**313.** Croesawodd Sefydliad Bevan y cyllid Cyfalaf Trafodiadau Ariannol a fydd yn cael ei ddefnyddio i adeiladu tua 300 o dai ond dywedodd fod angen mwy. Aeth y cynrychiolydd ymlaen i ddweud:

*"… we know we've had a lot of investment into social housing from this Government, but given the extreme budgetary pressures that local authorities are facing around temporary accommodation, I think the need for that long-term action around social housing is vital."*[326]

**314.** Cafodd y pwyllgor adroddiad hefyd gan Cymorth Cymru a Tai Cymunedol Cymru ynghylch cyllid ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai hollbwysig yng Nghymru.[327]

**315.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru, yn ystod tymor y Senedd hon, wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i dai cymdeithasol yn hytrach na thai fforddiadwy nag erioed o'r blaen. Esboniodd:

*"The Welsh Government's commitment to 20,000 new homes for social rent was a major commitment in the programme for government. We have front-loaded investment in social housing because you can't begin to achieve a target of that sort if you only start in the second half of a Senedd term. There's £2 billion of investment in social housing, which is the greatest ever amount of investment, and that has grown strongly over this Senedd term—a 42 per cent increase in social housing grant, and that is a very considerable increase. There are further*

[324] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 217
[325] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 213
[326] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2025, paragraff 197
[327] Y Pwyllgor Cyllid, Gwybodaeth Ychwanegol: Cymorth Cymru a Tai Cymunedol Cymru

> *increases in the budget for this year because we are confident now that we will reach that 20,000 target in 2026…"*[328]

## Barn y Pwyllgor

**316.** Pwysleisiodd nifer o dystion ac ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor y dylai'r Gyllideb Ddrafft flaenoriaethu gwariant ataliol. Mae'r Pwyllgor yn credu bod hyn yn groes i farn Ysgrifennydd y Cabinet bod pwyslais cryf eisoes wedi'i roi ar wariant ataliol yn y Gyllideb Ddrafft.

**317.** Er ein bod yn croesawu'r enghreifftiau a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet o feysydd o fewn y Gyllideb Ddrafft sy'n ymwneud â mesurau ataliol, nid yw'n glir faint o flaenoriaeth strategol yw atal y tu hwnt i'r dyraniadau hynny. Credwn fod gan Ysgrifennydd y Cabinet rôl bwysig o ran hyrwyddo camau ataliol ar draws portffolios, ac rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y mae'n sbarduno diwylliant ataliol drwy ddyraniadau cyllideb. Mae atal wedi bod yn thema gyson ar draws y gwaith craffu ar gyllidebau yn y Senedd hon, ac er bod y drafodaeth ynglŷn â hyn wedi bod yn gadarnhaol, nid yw'n glir a fu unrhyw newid sylweddol yn null gweithredu Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

**318.** Nodwn dystiolaeth sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd deall lefel y buddsoddiad mewn gweithgarwch ataliol, nad yw'n glir yn nogfennaeth y Gyllideb Ddrafft fel y mae.

**319.** Rydym hefyd yn nodi'r gwaith parhaus i fapio gwariant ataliol o fewn cyrff cyhoeddus ac yn croesawu'r dull cydweithredol y mae swyddfa'r Comisiynydd yn ei fabwysiadu gyda chyrff eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i adeiladu ar y gwaith hwn a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yma, ac unrhyw gynlluniau i gyflwyno'r broses hon yn ehangach.

**320.** O ran y diffiniad o atal, rydym yn croesawu'r ymgysylltu gan swyddfa'r Comisiynydd â chyrff cyhoeddus i brofi'r diffiniad o atal, er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Er yr ymddengys bod y diffiniad yn gweithio'n dda, credwn fod rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos sut y mae'n cael ei gymhwyso'n ymarferol.

**321.** Er ein bod yn cydnabod y rhesymau pam nad yw Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod clustnodi gwariant ataliol yn ddymunol, nid yw'n glir sut y mae meincnodi gwasanaethau yn darparu dull amgen effeithiol sy'n sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio at weithgarwch ataliol. Byddem yn croesawu rhagor o

[328] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 178

wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet am sut y mae meincnodi yn cael ei gymhwyso ledled Llywodraeth Cymru fel offeryn i ysgogi camau ataliol a sut y bydd canlyniadau'n cael eu mesur.

**322.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu mentrau Llywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda phwysau costau byw yn y Gyllideb Ddrafft, yn enwedig gan mai'r rhai ar incwm is sy'n cael eu taro waethaf.

**323.** Rydym yn cefnogi'r penderfyniad i godi'r DAF yn y Gyllideb Ddrafft ond rydym yn parhau i fod yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ein hargymhelliad o'r blynyddoedd blaenorol yn llawn i ddarparu dadansoddiad yn ôl rhywedd o'r rhai sy'n gwneud cais am DAF.[329] Gallai'r data hwn roi dealltwriaeth ddyfnach o sut y mae cynlluniau fel DAF yn effeithio ar anghydraddoldeb ar sail rhywedd ym maes tlodi a helpu i lywio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgorffori cyllidebu ar sail rhywedd wrth wneud penderfyniadau cyllidol yn y dyfodol.

**324.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu buddsoddiad parhaus Llywodraeth Cymru yn ei rhaglenni Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg, yn ogystal â'r data a gyhoeddwyd ar y rhaglen Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod rhai rhanddeiliaid yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu eglurder pellach ar yr ehangu a'u bod wedi codi pryderon ynghylch anhyblygrwydd y rhaglen a'r meini prawf cymhwystra, a allai fod yn rhwystr i fenywod sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith. Er bod y Pwyllgor yn nodi cynnydd cadarnhaol yn y maes hwn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i asesu effaith y rhaglenni hanfodol hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi menywod sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith yn effeithiol.

**325.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cwblhau a chyhoeddi ei chynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd, rhywbeth rydym wedi bod yn disgwyl amdanynt ers tro byd. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda RhCM Cymru a WWBG i ymwreiddio cyllidebu ar sail rhywedd wrth wneud penderfyniadau cyllidol yn y dyfodol, gyda'r nod o wella dealltwriaeth o sut y mae'r penderfyniadau cyllidebol hyn yn effeithio ar fenywod.

**326.** Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon rhanddeiliaid ynghylch yr angen am weithredu hirdymor ar dai cymdeithasol a mwy o fuddsoddiad mewn adeiladu mwy o gartrefi. Rydym yn croesawu ymdrechion parhaus Llywodraeth Cymru i ddefnyddio cyllid Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ochr yn ochr â ffynonellau cyfalaf

[329] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Hydref 2024, tudalen 119

eraill i gynyddu buddsoddiad posibl mewn tai. Serch hynny, rydym yn parhau i bryderu am effaith y cyflenwad tai ar fenywod a phlant yn arbennig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried defnyddio ei hystod lawn o ffynonellau cyllid cyfalaf i fynd i'r afael â'r mater hwn.

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth i esbonio sut y mae wedi ymdrin â buddsoddi mewn gwariant ataliol yn y Gyllideb Ddrafft, yn amlinellu sut y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn sbarduno diwylliant ataliol drwy ddyraniadau cyllideb, ac yn cynnwys diweddariad ar gynnydd ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith i fapio gwariant ataliol o fewn adrannau'r llywodraeth ac yn darparu diweddariad ar gynnydd ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gryfhau dealltwriaeth o sut y mae'r diffiniad o wariant ataliol yn cael ei gymhwyso i Gyllidebau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu rhagor o wybodaeth am y dull o feincnodi gwariant ataliol ar draws portffolios, gan gynnwys sut y mae'r gwaith hwn yn cael ei weithredu a sut y bydd canlyniadau'n cael eu mesur, ac yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael erbyn y Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad dadansoddi yn ôl rhywedd ynghylch effaith y Gronfa Cymorth Dewisol ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ym maes tlodi ac yn darparu diweddariad ar gynnydd yng ngham y Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru:

- yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ehangu Cam 3 o'r rhaglen Dechrau'n Deg, a'i heffeithiolrwydd;
- yn cynnal gwerthusiad o'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y rhaglenni Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn parhau i fod yn hygyrch i fenywod sy'n dychwelyd i'r gwaith;
- ac yn rhoi diweddariad ar gynnydd yng ngham y Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 25.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru i ymwreiddio cyllidebu ar sail rhywedd ar draws Llywodraeth Cymru ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol 2025-26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026.

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, ynghyd â ffynonellau cyfalaf eraill, i fuddsoddi mewn tai cymdeithasol i roi hwb i'r cyflenwad tai yng Nghymru.

# 7. Cynhyrchiant

**327.** Nododd cyfranogwyr yng ngwaith ymgysylltu haf y Pwyllgor, yng ngoleuni'r rhagolygon cyllido anodd yn dilyn Adolygiad Gwariant y DU, fod angen cael mwy o lai, sy'n gofyn am ganolbwyntio ar ddiwygio'r sector cyhoeddus a gwella cynhyrchiant.[330]

**328.** Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cynhyrchiant yn yr Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru a gyhoeddwyd ganddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26. Dywedodd:

> *"Yn y tymor hir, cynyddu cynhyrchiant yw'r unig ffordd o sicrhau (ac yn bwysicach, cynnal) safonau byw uwch y pen. Mewn egwyddor, mae cynhyrchiant uwch yn gwneud cwmnïau'n fwy proffidiol a chystadleuol, a ddylai yn ei dro ddarparu'r amodau ariannol i weithwyr ofyn am gyflogau gwirioneddol uwch, ac i gwmnïau eu cynnig. Yn gyffredinol, credir bod cyflogau a chynhyrchiant yn mynd law yn llaw â'i gilydd yn y DU am y rheswm hwn yn bennaf."*[331]

**329.** Mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, dywedodd Fforwm Cynhyrchiant Cymru:

> *"The importance of productivity to living standards and economic wellbeing is often neglected in the public and policy debate. Yet, productivity growth is the main determinant of long-run growth in real wages, directly affecting household incomes and living standards. Productivity growth is also important for business, affecting profitability, investment and growth. For these reasons it is a key determinant of taxation revenue and the government budget, and therefore the resources available for public service delivery.*[332]

**330.** Mae Cymru yn rhannu pos cynhyrchiant neu "productivity puzzle" y DU[333], term a ddefnyddir i ddisgrifio'r arafwch yn nhwf cynhyrchiant y DU ers Argyfwng Ariannol Byd-eang 2008 a 2009.[334] Fodd bynnag, wrth gyfeirio at ystadegau

[330] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2025
[331] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024, Rhagfyr 2024, tudalen 14
[332] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Fforwm Cynhyrchiant Cymru
[333] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Fforwm Cynhyrchiant Cymru
[334] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, The Productivity Puzzle, Gorffennaf 2015

swyddogol cynhyrchiant llafur rhanbarthol ac is-ranbarthol y DU sy'n cael eu datblygu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, nododd Fforwm Cynhyrchiant Cymru yn ei ymateb i'r ymgynghoriad fod cynhyrchiant yng Nghymru yn sylweddol is na chyfartaledd y DU ac nad yw wedi dangos llawer o arwyddion o gydgyfeirio dros amser.[335] Dywedodd wrth y Pwyllgor fod her cynhyrchiant Cymru wedi bod yn gymharol hirdymor a pharhaus.[336] Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, eglurodd faint yr her:

> *"The scale of the challenge should not be underestimated. Even if productivity in Wales grew 1% faster than the UK average each year, it would still take nearly 20 years to catchup.*[337]

**331.** Hefyd, fe wnaeth ymateb Fforwm Cynhyrchiant Cymru i'r ymgynghoriad ailadrodd argymhellion craidd y papur mewnwelediad gan y Sefydliad Cynhyrchiant, 'Wales' Productivity Challenge: A Focus on the Future'[338], a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025:

- mae angen i Lywodraeth Cymru sefydlu ymrwymiad hirdymor i wella cynhyrchiant, gyda chanllawiau ac asesiad o berfformiad annibynnol;
- dylai cynllun twf cynhyrchiant cenedlaethol nodi blaenoriaethau tymor byr, tymor canolig a hirdymor i gefnogi twf cynhyrchiant;
- mae angen sgwrs genedlaethol yng Nghymru am gynhyrchiant. Mae cydweithio rhwng llunwyr polisi, busnesau, darparwyr gwasanaethau'r sector cyhoeddus, ac unigolion yn hanfodol i fynd i'r afael â maint yr her;
- dylai cymorth busnes gynnwys cyngor, canllawiau ac arferion gorau ar gyfer sut i sicrhau twf cynhyrchiant, a manteision hyn;
- dylid canolbwyntio ar dwf cynhyrchiant y sector cyhoeddus fel ffordd o gefnogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol;
- mae mynd i'r afael â her cynhyrchiant Cymru yn brosiect hirdymor ac yn un sy'n pontio'r cenedlaethau. Bydd angen buddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth mewn pobl a seilwaith.

[335] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Fforwm Cynhyrchiant Cymru
[336] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 11
[337] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Fforwm Cynhyrchiant Cymru
[338] Y Sefydliad Cynhyrchiant: Wales' Productivity Challenge: A Focus on the Future, Ionawr 2025

**332.** Gwnaeth Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) ailadrodd yr argymhellion hyn yn ei ymateb i'r ymgynghoriad. Nododd y canlynol:

> *"These needs should be front and centre of every budget and should clearly align to long term strategy."*[339]

**333.** Roedd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn cytuno'n fras â barn Fforwm Cynhyrchiant Cymru, gan nodi fod Cymru wedi bod â phroblem gyson o ran cynhyrchiant[340], gan ychwanegu:

> *"Productivity in Wales tracks UK productivity trends fairly closely, which is good and bad, because it does not provide that much of an impetus, or in terms of data, we do not see that much catching up in Wales with respect to aggregate UK productivity."*[341]

**334.** Er bod cynhyrchiant yn cael ei gydnabod yn eang fel yr unig ffordd gynaliadwy o wella safonau byw yn yr hirdymor, dywedodd Fforwm Cynhyrchiant Cymru wrth y Pwyllgor nad oes digon o bwyslais ar gynhyrchiant, gan ddatgan:

> *"… I think what I don't see so much emphasis on is productivity, the gains that you can get through productivity … We don't have that kind of, I think, high-level commitment to productivity growth in terms of the Welsh Government."*[342]

**335.** Er bod cynhyrchiant yn un o tua 50 o ddangosyddion sy'n cael eu monitro, roedd Fforwm Cynhyrchiant Cymru o'r farn nad oes gan y maes hwn ddigon o broffil yng Nghymru.[343] Ychwanegodd:

> *"… I think because it's quite a complex thing to understand, it doesn't have the public buy-in to productivity growth. But as soon as you try to explain to people that that's their wages, that's their living standards, that's their tax revenue, what we can spend on public services, then I think productivity is something that should have a higher level policy agenda, political agenda, and also awareness amongst the public."*[344]

[339] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ffederasiwn y Busnesau Bach
[340] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 14
[341] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 15
[342] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 24
[343] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 24
[344] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 24

**336.** Ychwanegodd:

> *"There has to be a step change, a focus on productivity, a strategic shift towards making a difference if we are actually going to close the gap".*[345]

**337.** Er yn cydnabod yr heriau hirdymor o ran cynhyrchiant yng Nghymru, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod rhywfaint o'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor yn peri ychydig o ddryswch[346] iddo. Dywedodd:

> *"… if you actually look at what has happened in the last 12 months of productivity gain, when you look at the 13 regions and nations, Wales was at the very top end of that table. I think only one part of the United Kingdom had a greater growth in productivity in the last 12 months. And if you look at it over the longer haul, going back to 2009, when the challenges in productivity in the UK economy began to emerge, between 2009 and 2023, Welsh productivity, measured as gross value added per hour worked, has grown by 14.1 per cent, and over the UK as a whole, it's grown by 10.5 per cent. So, I don't think, myself, I would accept the characterisation that you've been offered by some witnesses."*[347]

## Agwedd at Gynhyrchiant yn y Gyllideb Ddrafft

**338.** Yn yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2025, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft, dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd yn:

> *"… parhau i weithio gyda Fforwm Cynhyrchiant Cymru … ar roi gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ar waith a llunio ymyriadau busnes a pholisi ymarferol er mwyn gwella cynhyrchiant yng Nghymru".*[348]

**339.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at rai enghreifftiau o sut y mae'r Gyllideb Ddrafft yn mynd i'r afael ag elfennau o gynhyrchiant. Cyfeiriodd at:

---

[345] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 19
[346] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 133
[347] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 134
[348] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru, Hydref 2025, tudalen 26

- weithlu medrus, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol yn y gyllideb mewn prentisiaethau a datblygu sgiliau ac yn y blaen,
- buddsoddiad mewn seilwaith, gan gynnwys cyllid ar gyfer llinellau craidd y Cymoedd, a fydd, yn ei farn ef, yn helpu i sicrhau bod pobl yn gallu symud i swyddi, a symud i swyddi lle bydd eu sgiliau'n cael eu defnyddio i wella cynhyrchiant, a
- chydgrynoadau, gan nodi bod hwn yn rheswm arall dros fuddsoddi yn llinellau craidd y Cymoedd. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ceisio defnyddio rhanbarth ehangach Caerdydd fel cydgrynhoad economaidd i sbarduno cynhyrchiant.[349]

**340.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft y Pwyllgor, dywedodd yr FSB:

> *"Addressing Wales's economic challenges on growth and productivity is a long-term strategy and will not be addressed by this budget alone. However, it is important that the link between the annual budgets and the contribution to the longer-term goals is clear".*[350]

**341.** Dywedodd yr FSB wrth y Pwyllgor hefyd:

> *"A further concern has always been how the annual budget reflects the wider economic strategy in a way that is material and measurable, and links together the long-term ambitions with clear milestones, aims and objectives for the budget itself."*[351]

**342.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn cytuno â'r farn hon, gan nodi:

> *"… the Welsh spending review is absolutely designed to do what … the Federation of Small Businesses had said to you. It's there to make sure that year-on-year decisions are linked to ambitions that go on over the medium and longer term horizon."*[352]

[349] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 16 Hydref 2025, paragraff 175
[350] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ffederasiwn y Busnesau Bach
[351] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ffederasiwn y Busnesau Bach
[352] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 123

**343.** Yn Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n benodol at gynhyrchiant, ond dim ond mewn perthynas â'r GIG.[353]

## Data a Gwerthuso

**344.** Pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod data dibynadwy i ddangos a yw polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru yn sicrhau Gwerth am Arian yn hollbwysig.[354] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"We struggle to come to a conclusion on whether policies and programmes are delivering value for money because the data simply isn't there."*[355]

**345.** Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Archwilydd Cyffredinol:

> *"A consistent theme through lots of our work over Adrian's [the Auditor General's] tenure has been around whether public bodies are themselves able to tell a clear story about value for money, based on good data—not just quantitative data, but also service user experience, importantly, and that perspective of the person receiving services."*[356]

**346.** Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Archwilydd Cyffredinol fod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb, o leiaf i ddechrau, i seilio'r disgwyliadau ar ddata ar gyfer llywodraeth leol a chyrff iechyd. Ychwanegodd nad oes hanes da o hynny'n digwydd yng Nghymru.[357]

**347.** Pwysleisiodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol bwysigrwydd data a gwerthuso mewn perthynas â thwf cynhyrchiant[358] a chyfeiriodd at ddwy ffordd y gellid gwella'r maes hwn:

> *"One is targeting and placing the evidence base as to how they're targeted … But, also, what do we look to achieve by that in what timescale? And then one can start actually thinking about how far are we achieving, are progressing, are we regressing."*[359]

[353] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025, tudalen 9
[354] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 162
[355] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 162
[356] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 156
[357] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 166
[358] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 87
[359] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 35

**348.** O ran gosod targedau ar gyfer cynhyrchiant yng Nghymru, dywedodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol:

> *"I think one thing that might be good is if, in the budget documents, the Welsh Government could commit to setting up a small committee to think about what targets might look like, what kind of measures might be involved, but certainly signalling that the medium to long run is very much part of what the Welsh Government is thinking about."*[360]

**349.** Galwodd Fforwm Cynhyrchiant Cymru am sefydlu comisiwn annibynnol sy'n adolygu tystiolaeth, gwaith gwerthuso ac arferion gorau yn y maes hwn.[361]

## Cynhyrchiant y Sector Cyhoeddus

**350.** Yn ei adroddiad, 'Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol', ym mis Rhagfyr 2024, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"Rwy'n adleisio barn un o'm cymheiriaid, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y DU, y dylai hybu cynhyrchiant a gwneud i arian cyhoeddus weithio'n galetach fod yn ffocysau i'r sector cyhoeddus cyfan."*[362]

**351.** Roedd sylwadau'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor yn adleisio hyn, gan nodi bod angen sicrhau bod gwella cynhyrchiant a chanlyniadau'r sector cyhoeddus yn rhan allweddol o wella sefyllfa gyffredinol cynhyrchiant Cymru.[363]

**352.** Cymharodd Dadansoddi Cyllid Cymru ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran cynhyrchiant y sector cyhoeddus â thargedau effeithlonrwydd a chynhyrchiant Llywodraeth y DU yn yr Adolygiad Gwariant 2025[364] a chynllun cynaliadwyedd cyllidol Llywodraeth yr Alban, gan nodi ei fod yn siarad am arbedion effeithlonrwydd, cynhyrchiant, twf yn nifer y staff, ac ati.[365] Nododd nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud hyn mewn gwirionedd".[366]

**353.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor fod cynhyrchiant yn allweddol i'r sefyllfa sy'n wynebu'r sector cyhoeddus ar hyn o bryd. Aeth ymlaen i

[360] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 86
[361] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 93
[362] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol, Rhagfyr 2024, tudalen 5
[363] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 109
[364] Llywodraeth y DU, Adolygiad Gwariant 2025, Mehefin 2025
[365] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 98
[366] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2025, paragraff 98

ddweud nad yw'r model o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy ar ei lwybr presennol, gan bwysleisio bod y galw yn rhagori ar y gallu i gynyddu cyllid.[367]

**354.** O ran atebion, dywedodd fod buddsoddi mewn rhai o'r elfennau sylfaenol sydd eu hangen ar unrhyw sefydliad cyhoeddus, megis datblygiad yn y gofod digidol, a'r gweithlu, a buddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw arferol yn hanfodol bwysig.[368]

**355.** Roedd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod yr her wirioneddol o fesur cynhyrchiant yn y sector cyhoeddus.[369] Nododd waith Llywodraeth Cymru yn gweithredu argymhelliad Adroddiad y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru. Yn ei Adroddiad ym mis Ebrill 2025[370], argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu model cenedlaethol i olrhain cynhyrchiant y GIG cyn y "gyllideb genedlaethol nesaf" er mwyn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch gwariant a chynhyrchiant. O ran y model cenedlaethol ar gyfer y GIG, ychwanegodd:

> *"At the moment, we're not really in a position to be able to have that debate informed by robust data on how productivity is evolving in that key sector. So, that will be a step forward, I think, once we get to that point."*[371]

**356.** Pan ofynnwyd iddo a allai cynlluniau fel "Buddsoddi i Arbed" helpu i wella cynhyrchiant y sector cyhoeddus, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"I'm absolutely interested in the way in which capital investment can drive revenue savings and can improve productivity … At the moment, our invest-to-save scheme is concentrated in particular functions of the Welsh Government. We're using it in children's services and on looked-after children, particularly, and there are some environmental schemes as well, where we've focused our invest-to-save scheme."*[372]

---

[367] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 143
[368] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 144
[369] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 131
[370] Adroddiad gan y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru, Ebrill 2025
[371] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 131
[372] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 143

## Cynhyrchiant y Sector Preifat

**357.** Yn ei dystiolaeth, nododd yr FSB fod gwasanaethau cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau yn gweithio'n dda, gan ychwanegu:

> *"… if we're serious about shifting the productivity trend and we want to do something different, then we need to look at what's working, which I think we have, and really back it and invest in it."*[373]

**358.** Nododd yr FSB enghreifftiau penodol o lwyddiannau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, gan nodi bod Busnes Cymru yn cynhyrchu £18 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 a fuddsoddir, a bod rhaglenni cymorth allforio yn cynhyrchu £20 mewn gwerth allforio fesul £1 sy'n cael ei gwario.[374] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"All this stuff works. We know this stuff works. We know it increases productivity, we know it supports Welsh firms to do what they do and meet their aspirations and ambitions."*[375]

**359.** Nododd Sefydliad y Cyfarwyddwyr y gallai arferion gorau ar gyfer cynhyrchiant ddeillio o lythrennedd cynhyrchiant, gan ychwanegu:

> *"…so that people actually know what it means and what it means to them, because, as I say, it does mean different things to different businesses".*[376]

**360.** Roedd Fforwm Cynhyrchiant Cymru yn adleisio'r farn hon, gan ddweud wrth y Pwyllgor fod angen i Lywodraeth Cymru arwain y gwaith o gyfleu pwysigrwydd cynhyrchiant i fusnesau drwy ddarparu gwybodaeth hygyrch:

> *"… an SME [small to medium sized enterprise] leader has many different things that they're concerned about. Something as complicated as productivity, they need to have accessible information about why productivity is important, not just to their own business but how that fits into the broader infrastructure."*[377]

[373] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 145
[374] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 144
[375] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 144
[376] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 212
[377] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 63

## Technoleg sy'n dod i'r amlwg

**361.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oes modd gwadu'r potensial i gynyddu cynhyrchiant o dechnoleg sy'n dod i'r amlwg a deallusrwydd artiffisial.[378] Fodd bynnag, rhybuddiodd fod systemau TG llawer o sefydliadau yn hen ffasiwn erbyn hyn.[379]

**362.** Ychwanegodd:

> *"… unless we address the basic building blocks of the technological infrastructure of our public sector, and address some of the data challenges that come with that, then artificial intelligence will not go as far as it can in terms of improving productivity."*[380]

**363.** Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Archwilydd Cyffredinol fod yr her ddigidol sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru yn un sylweddol.[381]

**364.** O ran potensial deallusrwydd artiffisial i sbarduno cynhyrchiant, dywedodd yr NIESR:

> *"…this can lead to some gains in productivity. Is it going to lead to substantial catch-up is an interesting question. I think we need to gather more evidence on that and, you know, strategically move towards these directions."*[382]

**365.** Yn ei dystiolaeth, nododd Ysgrifennydd y Cabinet enghreifftiau o gamau sydd wedi'u cymryd i wella cynhyrchiant y sector cyhoeddus gan ddefnyddio technoleg, megis defnydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot o ddeallusrwydd artiffisial i helpu i recordio cyfarfodydd gweithwyr cymdeithasol mewn amser real.[383]

**366.** Ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio gynlluniau newydd i ymgorffori manteision deallusrwydd artiffisial ledled Cymru.[384]

---

[378] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 147
[379] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 148
[380] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 149
[381] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2025, paragraff 153
[382] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2025, paragraff 38
[383] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2025, paragraff 118
[384] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg: Cynllun newydd i wreiddio manteision AI ledled Cymru, Tachwedd 2025

## Barn y Pwyllgor

**367.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cynhyrchiant yn gysyniad cymhleth nad yw'n cael ei ddeall yn llawn bob tro mewn dadleuon cyhoeddus a pholisi. Rydym hefyd yn nodi bod cynhyrchiant yn hanfodol i wella safonau byw, ysgogi twf economaidd, a chynnal gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn nodi gyda phryder y dystiolaeth gan randdeiliaid sy'n dangos bod Cymru'n wynebu bwlch cynhyrchiant parhaus o'i gymharu â chyfartaledd y DU, heb fawr o arwydd o gydgyfeirio hirdymor. Mae maint yr her yn sylweddol ac mae angen ymateb strategol, hirdymor.

**368.** Hefyd, rydym yn nodi tystiolaeth allweddol sy'n dangos bod twf cynhyrchiant yn dylanwadu ar gyflogau, incwm aelwydydd, cystadleurwydd busnesau, a refeniw treth, ond nad yw'n cael sylw digonol ym mholisi Llywodraeth Cymru. Er bod y Pwyllgor yn nodi tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella cynhyrchiant a rôl Adolygiad Gwariant Cymru i sicrhau y bydd cyllid yn gysylltiedig ag amcanion tymor canolig i hirdymor, mae'r dull gweithredu yn brin o ffocws yn ein barn ni.

**369.** I fynd i'r afael â hyn, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu ymrwymiad clir, lefel uchel i dyfu cynhyrchiant ac ystyried cefnogi hyn drwy gynllun cynhyrchiant cenedlaethol, asesu annibynnol, a meithrin dulliau cydweithio ar draws y sectorau. Er mwyn mynd i'r afael â'r her hon, bydd angen buddsoddi mewn sgiliau, seilwaith ac effeithlonrwydd y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, heb newid sylweddol mewn ffocws, mae Cymru mewn perygl o barhau i danberfformio ym maes cynhyrchiant, gan gyfyngu ar ei gallu i wella safonau byw.

**370.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r chwe argymhelliad craidd canlynol sydd wedi'u cynnwys ym mhapur mewnwelediad y Sefydliad Cynhyrchiant[385], y cyfeiriodd Fforwm Cynhyrchiant Cymru a'r FSB atynt yn eu tystiolaeth:

- mae angen i Lywodraeth Cymru sefydlu ymrwymiad hirdymor i wella cynhyrchiant, gyda chanllawiau ac asesiad o berfformiad annibynnol;
- dylai cynllun twf cynhyrchiant cenedlaethol nodi blaenoriaethau tymor byr, tymor canolig a hirdymor i gefnogi twf cynhyrchiant;

[385] Y Sefydliad Cynhyrchiant: Wales' Productivity Challenge: A Focus on the Future, Ionawr 2025

- mae angen sgwrs genedlaethol yng Nghymru am gynhyrchiant. Mae cydweithio rhwng llunwyr polisi, busnesau, darparwyr gwasanaethau'r sector cyhoeddus, ac unigolion yn hanfodol i fynd i'r afael â maint yr her;
- dylai cymorth busnes gynnwys cyngor, canllawiau ac arferion gorau ar gyfer sut i sicrhau twf cynhyrchiant, a manteision hyn;
- dylid canolbwyntio ar dwf cynhyrchiant y sector cyhoeddus fel ffordd o gefnogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol;
- mae mynd i'r afael â her cynhyrchiant Cymru yn brosiect hirdymor ac yn un sy'n pontio'r cenedlaethau. Bydd angen buddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth mewn pobl a seilwaith.

**371.** Rydym yn credu bod yr argymhellion hyn yn darparu fframwaith clir i fynd i'r afael â bwlch cynhyrchiant Cymru ac y dylent fod yn sylfaen i strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliant.

**372.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd mesurau clir a dibynadwy o gynhyrchiant i lywio polisi a'r broses o wneud penderfyniadau. Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi darparu ystadegau cadarnhaol ar gyfer perfformiad cynhyrchiant yng Nghymru rhwng 2009 a 2023 ac, er bod y gwelliant hwn i'w groesawu, mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o fanylion am y data a ddefnyddiwyd i gefnogi'r safbwynt hwn, er mwyn i ni ddeall perfformiad cynhyrchiant Cymru dros y tymor byr, y tymor canolig, a'r hirdymor.

**373.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â phwysigrwydd gosod targedau a gwerthuso effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i wella cynhyrchiant, yn ogystal â dysgu o'r canlyniadau. Fodd bynnag, rydym yn nodi gyda phryder nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw dargedau cynhyrchiant wedi'u diffinio ac eithrio dangosyddion economaidd cyffredinol. Mae'r Pwyllgor yn credu bod dangosyddion o'r fath yn hanfodol i sbarduno twf, ac mae'n gofyn am eglurder ynglŷn â'r targedau sydd ar waith, y dulliau gwerthuso cysylltiedig, a'r ffynonellau data a ddefnyddir i fonitro a mesur gwelliant.

**374.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r dulliau gwahanol o gynyddu cynhyrchiant y sector cyhoeddus sydd wedi'u mabwysiadu gan lywodraethau'r DU a'r Alban, yn enwedig o ran gosod targedau effeithlonrwydd a chynhyrchiant penodol a bod â chynllun cynaliadwyedd cyllidol clir ar gyfer y sector cyhoeddus. Rydym yn credu bod y dulliau hyn yn werthfawr ac rydym yn galw ar Ysgrifennydd y Cabinet i esbonio pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu dulliau tebyg.

**375.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r enghreifftiau o fentrau buddsoddiad cyfalaf sydd â'r nod o wella cynhyrchiant y sector cyhoeddus a sbarduno arbedion refeniw, fel y cynllun buddsoddi i arbed. Credwn fod gwerth cynhenid mewn mentrau o'r fath ond rydym yn gresynu nad yw'r Gyllideb Ddrafft yn cyfeirio at sut y gellir defnyddio'r rhain mewn modd strategol yng nghyd-destun Cymru. O ganlyniad, gofynnwn i Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu eglurder ynglŷn â sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r her o wella cynhyrchiant y sector cyhoeddus drwy ddyraniadau'r Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys manylion am fuddsoddiadau penodol sydd â'r nod o drawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau a gwella effeithlonrwydd.

**376.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl bosibl technoleg sy'n dod i'r amlwg i wella cynhyrchiant yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn nodi'r bwlch sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng y manteision posibl hyn a'r realiti ymarferol, yn enwedig cyfyngiadau seilwaith TG mewn rhannau o'r sector cyhoeddus. Yn benodol, rydym yn nodi tystiolaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol fod deallusrwydd artiffisial yn cynnig enillion diamheuol o ran cynhyrchiant, ond bod systemau TG sydd wedi dyddio a heriau o ran data yn cyfyngu ar y cynnydd, a bod hyn yn arbennig o acíwt yn y GIG.

**377.** Er bod yna enghreifftiau unigol o arferion gorau wrth fabwysiadu technolegau sy'n dod i'r amlwg, mae'r Pwyllgor yn credu bod gan Lywodraeth Cymru rôl hanfodol wrth fynd i'r afael â'r her hon. Felly, rydym yn galw ar Ysgrifennydd y Cabinet i esbonio sut y mae'r gyllideb yn cefnogi'r sector cyhoeddus i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial a sut y mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgorffori manteision deallusrwydd artiffisial.

**378.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gwasanaethau cymorth Llywodraeth Cymru wedi'u targedu, fel Busnes Cymru a rhaglenni allforio, yn cael llwyddiant mawr ac yn chwarae rhan hanfodol wrth hybu cynhyrchiant y sector preifat. Rydym yn nodi bod y dystiolaeth yn dangos bod y mentrau hyn yn creu gwerth sylweddol am bob punt a fuddsoddir, a'u bod yn helpu busnesau i gyrraedd targedau twf a chreu swyddi. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r mentrau hyn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i wella "llythrennedd cynhyrchiant" ar draws y llywodraeth a busnesau. Byddai hyn yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall beth mae cynhyrchiant yn ei olygu a pham ei fod yn bwysig.

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cynnwys ymrwymiad lefel uchel i dyfu cynhyrchiant yn y Gyllideb Derfynol ac yn

datblygu cynllun cynhyrchiant cenedlaethol i gefnogi camau rhagweithiol gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn.

**Argymhelliad 28.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn defnyddio'r chwe argymhelliad craidd a nodir yn y papur mewnwelediad ar gynhyrchiant, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cynhyrchiant ym mis Ionawr 2025, fel sylfaen i gynllun cynhyrchiant cenedlaethol yn y dyfodol i ategu twf cynhyrchiant yng Nghymru.

**Argymhelliad 29.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn egluro'r ystadegau a ddyfynnwyd yn ei dystiolaeth mewn perthynas â pherfformiad cynhyrchiant yng Nghymru rhwng 2009 a 2023, gan gynnwys gwybodaeth am y mesurau a ddefnyddiwyd a'r ffynonellau data.

**Argymhelliad 30.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gwneud y canlynol:

- darparu gwybodaeth glir am dargedau cynhyrchiant Llywodraeth Cymru,
- amlinellu sut y mae'r targedau'n cael eu mesur a'u hasesu, gan gynnwys manylion unrhyw ffynonellau data a ddefnyddir i fonitro a gwerthuso cynnydd, ac
- egluro pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei chynllun cynaliadwyedd cyllidol ei hun yn unol â'r dulliau a fabwysiadwyd gan lywodraethau'r DU a'r Alban.

**Argymhelliad 31.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu gwybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella cynhyrchiant y sector cyhoeddus drwy ei dyraniadau cyllideb, gan gynnwys manylion am fuddsoddiadau penodol, y canlyniadau a gyflawnwyd, a'r dulliau gwerthuso sydd ar waith i helpu i drawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau.

**Argymhelliad 32.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet:

- yn nodi sut y mae'r gyllideb yn cefnogi'r sector cyhoeddus i fabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial ac awtomeiddio i wella cynhyrchiant, gan gynnwys sut y mae'r dyraniadau hyn yn adlewyrchu cynllun newydd Llywodraeth Cymru i ymgorffori manteision technoleg ledled Cymru; ac
- yn annog datblygu strategaeth gyffredinol o ran TG ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru ochr yn ochr â hyn.

**Argymhelliad 33.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella llythrennedd cynhyrchiant o fewn y llywodraeth ac ar draws y sector preifat yng Nghymru, er mwyn cryfhau dealltwriaeth o gynhyrchiant a sbarduno twf economaidd hirdymor.

# Atodiad 1: Rhestr o Sesiynau Tystiolaeth Lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **16 Hydref 2025** | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg,**<br>Llywodraeth Cymru.<br>**Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys,**<br>Llywodraeth Cymru.<br>**Jodye Kershaw, Pennaeth Polisi a Chyflawni'r Gyllideb,**<br>Llywodraeth Cymru. |
| **22 Hydref 2025** | **David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt,**<br>y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.<br>**Dr Ed Poole, Uwch Ddarlithydd,**<br>Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru).<br>**Guto Ifan, Darlithydd,**<br>Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru). |
| **5 Tachwedd 2025** | **Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru,**<br>Archwilio Cymru.<br>**Dave Thomas, Cyfarwyddwyr,**<br>Archwilio Cymru.<br>**Matthew Mortlock, Cyfarwyddwyr,**<br>Archwilio Cymru. |
| **13 Tachwedd 2025** | **Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru,**<br>Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>**Marie Brousseau-Navarro, Dirprwy Gomisiynydd a Cyfarwyddwr Iechyd,**<br>Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>**Steffan Evans, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Sefydliad Bevan.<br>**Simon Hatch, Cyfarwyddwr,**<br>Cyngor ar Bopeth Cymru. |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Dr Jessica Laimann, Cyfarwyddwr,**<br>Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru / Grŵp Cyllideb Menywod Cymru. |
| **20 Tachwedd 2025** | **Yr Athro Melanie Jones,**<br>Fforwm Cynhyrchiant Cymru.<br>**Yr Athro Arnab Bhattacharjee,**<br>Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithaso.<br>**Marc Strathie, Uwch gynghorydd polisi datganoledig,**<br>Sefydliad y Cyfarwyddwyr.<br>**Josh Miles, Pennaeth Cymru,**<br>Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru.<br>**Sara Jones,**<br>Pennaeth Consortiwm Manwerthu Cymru. |
| **1 Rhagfyr 2025** | **Richard Hughes, Cadeirydd,**<br>Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>**Yr Athro David Miles, Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol,**<br>Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>**Tom Josephs, Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol,**<br>Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>**Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg,**<br>Llywodraeth Cymru.<br>**Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys,**<br>Llywodraeth Cymru.<br>**Jodye Kershaw, Pennaeth Polisi a Chyflawni'r Gyllideb,**<br>Llywodraeth Cymru. |

# Atodiad 2: Rhestr o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **WGDB26-27 1** | Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru |
| **WGBD26-27 2** | Music Venue Trust |
| **WGDB26-27 3** | Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| **WGDB26-27 4** | Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru |
| **WGDB26-27 5** | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **WGDB26-27 6** | Llamau |
| **WGDB26-27 7** | Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru |
| **WGDB26-27 8** | Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant (Cymru) |
| **WGDB26-27 9** | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| **WGDB26-27 10** | Propertymark |
| **WGDB26-27 11** | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| **WGDB26-27 12** | Homecare Association |
| **WGDB26-27 13** | Undeb Amaethwyr Cymru |
| **WGDB26-27 14** | Fforwm Cynhyrchiant Cymru, Prifysgol Caerdydd |
| **WGDB26-27 15** | Marie Curie |
| **WGDB26-27 16** | Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith |
| **WGDB26-27 17** | Sefydliad Tai Siartredig (CIH) Cymru |
| **WGDB26-27 18** | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **WGDB26-27 19** | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| **WGDB26-27 20** | Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) |
| **WGDB26-27 21** | Grŵp Cyllideb Menywod Cymru (GCMC) a Rhwydwaith cydraddoldeb merched (RCM) |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **WGDB26-27 22** | Cyngor Sir y Fflint |
| **WGDB26-27 23** | Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) Cymru |
| **WGDB26-27 24** | National Energy Action (NEA) Cymru |
| **WGDB26-27 25** | Oxfam Cymru |
| **WGDB26-27 26** | Ramblers Cymru |
| **WGDB26-27 27** | RTPI Cymru - Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol |
| **WGDB26-27 28** | Sefydliad Bevan |
| **WGDB26-27 29** | Undeb Prifysgol a Choleg Cyr |
| **WGDB26-27 30** | Cymdeithas y Landlordiaid Preswyl |
| **WGDB26-27 31** | Colegau Cymru |
| **WGDB26-27 32** | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| **WGDB26-27 33** | Rewilding Britain |
| **WGDB26-27 34** | Conffederasiwn GIG Cymru |
| **WGDB26-27 35** | Cymdeithas Ddysgedig Cymru |
| **WGDB26-27 36** | Cycling UK |
| **WGDB26-27 37** | Ffederasiwn Hyffordiant Cenedlaethol Cymru |
| **WGDB26-27 38** | Teledwyr Annibynnol Cymru |
| **WGDB26-27 39** | Cyngor Gwynedd |
| **WGDB26-27 40** | Y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol |
| **WGDB26-27 41** | Plismona yng Nghymru / Uned Gyswllt yr Heddlu |
| **WGDB26-27 42** | Hospice UK |
| **WGDB26-27 43** | Fforwm Gofal Cymru |
| **WGDB26-27 44** | Cwmpas |
| **WGDB26-27 45** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC) |
| **WGDB26-27 46** | Gweithau dros Blant |
| **WGDB26-27 47** | Amgylchedd Cymru |
| **WGDB26-27 48** | Gofal a Thrwsio Cymru |
| **WGDB26-27 49** | Shelter Cymru |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Sefydliad y Cyfarwyddwyr | 15 Hydref 2025 |
| Y Sefydliad Cenedlaethol Dros Ymchwil Economaidd A Chymdeithasol | 17 Hydref 2025 |
| Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU, Cymru | 20 Hydref 2025 |
| CBI Cymru | 6 Tachwedd 2025 |
| Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) | 6 Tachwedd 2025 |
| Conffederasiwn GIG Cymru | 11 Tachwedd 2025 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 12 Tachwedd 2025 |
| Cymorth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru | 5 Rhagfyr 2025 |
| Grŵp Cyllideb Menywod Cymru (GCMC) a Rhwydwaith cydraddoldeb merched (RCM) | 11 Rhagfyr 2025 |